



CYFRIFON
BLYNYDDOL
2021-22



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Adroddiad perfformiad	3
1. Trosolwg.....	3
1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb	4
1.2 Cefndir a swyddogaethau statudol.....	4
1.3 Crynodeb o berfformiad	5
2 Dadansoddiad perfformiad	9
2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2021-22.....	9
2.2 Prif risgiau	18
2.3 Adolygiad ariannol.....	21
2.4 Cynaliadwyedd	27
3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	31
3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr.....	31
3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.....	34
3.3 Datganiad Llywodraethu.....	36
4 Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff	53
5 Datganiad o wariant net cynhwysfawr	78
6 Datganiad o'r sefyllfa ariannol	79
7 Datganiad o lifoedd arian parod.....	80
8 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.....	81
Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.....	82

Adroddiad perfformiad

1. Trosolwg

Mae cyfrifon eleni yn adlewyrchu'r effaith barhaus y mae pandemig COVID-19 wedi'i chael ar waith Cymwysterau Cymru a'r system ehangach, gydag arholiadau'n cael eu canslo am yr ail flwyddyn yn olynol.

Yn dilyn penderfyniad y Gweinidog Addysg i ganslo arholiadau haf 2021, fe fuon ni'n gweithio gydag eraill, gan gynnwys Grŵp Cynghori Dylunio a Chyflawni Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dull amgen a oedd yn galluogi dysgwyr i ennill cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch drwy fodel Gradd a Bennir gan Ganolfan, gan ddefnyddio barn broffesiynol athrawon wedi'i hategu gan dystiolaeth asesu. Roedd ysgolion a cholegau ar flaen y gad o ran cyflawni'r trefniadau amgen hyn. Cafodd cymwysterau galwedigaethol a oedd yn seiliedig ar wybodaeth hefyd eu dyfarnu gan ddefnyddio Graddau a Bennir gan Ganolfan, yn seiliedig ar amrywiaeth o wybodaeth asesu. Roedd y rhain yn cynnwys BTECs, dyfarniadau galwedigaethol CBAC, tystysgrifau a diplomâu cymhwysol, a'r cymhwyster newydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau. Buon ni'n goruchwyllo'r broses o gwblhau'r broses hon.

Fe wnaethon ni hefyd baratoi ar gyfer dychwelyd i arholiadau allanol yn 2022. I gydnabod y dysgu a gafodd ei gollu oherwydd pandemig COVID, addaswyd cymwysterau (roedd cynnwys neu asesiad wedi lleihau gan rai, roedd eraill wedi cyhoeddi gwybodaeth ymlaen llaw). Fe wnaethon ni hefyd roi trefniadau wrth gefn ar waith pe bai arholiadau'n cael eu canslo eto.

O ddechrau'r pandemig hyd at fis Gorffennaf 2021 roedd yr holl weithwyr yn gweithio o bell o gartref, ond, wrth i gyfyngiadau ddechrau cael eu llacio, fe wnaethon ni ailagor ein swyddfeydd am dri diwrnod yr wythnos gyda staff yn cael eu gwahodd i ddod i mewn yn wirfoddol os oedden nhw'n teimlo'n gyfforddus i wneud hynny. Fe wnaethon ni ddefnyddio'r profiad hwn i ddechrau datblygu syniadau ar gyfer ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Cynhaliodd y Bwrdd nifer o gyfarfodydd hybrid hefyd, gyda rhai aelodau'n mynychu'n bersonol ac eraill yn ymuno ar-lein. Roedd ymddangosiad yr amrywiolyn Omicron yn ystod gaeaf 2021/22 yn golygu bod yn rhaid i ni ddychwelyd i weithio gartref am gyfnod byr, ond rydyn ni'n parhau i weithio tuag at 'normal newydd' ac yn datblygu ffyrdd newydd o weithio, gan adeiladu ar brofiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Bu lles gweithwyr yn flaenoriaeth, ac rydyn ni wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein gweithwyr yn dal i deimlo'n rhan o'r sefydliad. Rydyn ni wedi parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion gweithwyr.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi cynnal rheolaethau ariannol effeithiol. Rydyn ni hefyd wedi cymryd gofal i sicrhau bod cyflenwyr yn parhau i gael eu talu'n brydlon, gan barhau i dalu 98% o'n hanfonebau o fewn 30 diwrnod. Rydyn ni wedi cynnal ein trefniadau llywodraethu drwy gydol y cyfnod. Prin iawn y mae'r prosesau gweithredol a'r prosesau gwneud penderfyniadau wedi newid, heblaw bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir yn bennaf gan ddefnyddio Microsoft Teams.

1.1 Cwmpas y cyfrifoldeb

Cafodd Cymwysterau Cymru ei sefydlu ym mis Awst 2015, drwy *Ddeddf Cymwysterau Cymru*, ac fe wnaethon ni gymryd ein dyletswyddau a'n pwerau ym mis Medi y flwyddyn honno. Y flwyddyn hon (mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022) yw ein chweched flwyddyn ariannol lawn ar waith.

Rydyn ni'n rheoleiddio cyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau yng Nghymru. Rydwn ni'n gorff annibynnol sy'n canolbwyntio ar gymwysterau a gaiff eu hariannu'n gyhoeddus, gan gynnwys TGAU, Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Rydwn ni'n gweithio gydag eraill i adolygu a diwygio cymwysterau.

Nid yw graddau'n rhan o'n gwaith, ond rydwn ni'n gweithio gyda phrifysgolion a cholegau i sicrhau eu bod yn deall cymwysterau fel bod dysgwyr yn gallu symud ymlaen i addysg uwch. Rydwn ni am i gymwysterau fod y gorau y gallan nhw fod i ddysgwyr, athrawon a chyflogwyr, gan helpu pobl i addasu mewn byd sy'n newid yn gyflym. Rydwn ni'n gweithio gyda chyrff dyfarnu i ehangu'r cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ogystal â'n Gyfrifon Blynyddol, rydwn ni'n llunio Adroddiad Blynyddol yn ystod yr hydref bob blwyddyn, sy'n rhoi mwy o wybodaeth am ein gwaith a sut rydwn ni'n cyflawni ein prif nodau. Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn rhoi disgrifiad cynhwysfawr o bob un o'n blaenoriaethau gweithredol a'r gweithgareddau rydwn ni wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn er mwyn eu cyflawni. Cafodd ein chweched Adroddiad Blynyddol ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021, ac fe wnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru graffu arno.

Mae'r set hon o Gyfrifon Blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

1.2 Cefndir a swyddogaethau statudol

Fel y rheoleiddiwr annibynnol, ein prif nodau yw:

- sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- hyrwyddo hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Yn Cymwysterau Cymru, rydwn ni'n diogelu gwerth cymwysterau, yn sicrhau eu bod yn cael eu dyfarnu'n deg, ac yn eu hadolygu a'u datblygu wrth i anghenion dysgwyr newid. Rydwn ni'n gosod y dysgwr wrth wraidd ein gweithgareddau.

A ninnau'r arbenigwyr dibynadwy yn y maes cymwysterau, rydwn ni'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar faterion perthnasol. Rydwn ni hefyd yn ystyried anghenion cyflogwyr, y sector addysg uwch (AU) a phroffesiynau.

Mae gennym ni gyfrifoldeb hefyd i edrych ar draws y system gymwysterau i sicrhau ei bod yn gweithio er budd dysgwyr, ac i weithredu neu gynghori eraill i wneud yr un peth, os oes angen. Rhan o'n gwaith yw sicrhau bod cymwysterau o fewn y system yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gennym bwerau a dyletswyddau i reoleiddio cyrff dyfarnu, a gallwn ni wneud ymyriadau cadarnhaol i sicrhau gwelliannau i gymwysterau neu'r system gymwysterau.

Rydyn ni'n rhoi sylw i wyth 'mater' wrth benderfynu sut rydyn ni'n mynd ati i wneud ein gwaith:

"Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol er mwyn cyrraedd ei brif nodau, mae'r materion y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn cynnwys (ymhlith pethau eraill):

- (a) *Dymunoldeb hyrwyddo twf cynaliadwy yn economi Cymru;*
- (b) *Dymunoldeb hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, gan gynnwys drwy argaeledd trefniadau asesu sy'n darparu ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg, a chymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg;*
- (c) *Ystod a natur y cymwysterau sydd ar gael, a'u trefniadau asesu;*
- (d) *Gofynion rhesymol cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch a'r proffesiynau o ran addysg a hyfforddiant (gan gynnwys o ran y safonau cymhwysedd ymarferol gofynnol);*
- (e) *A yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth y mae'n ofynnol eu dangos er mwyn penderfynu a ddylid dyfarnu cymhwyster i unigolyn yn adlewyrchu gwybodaeth gyfredol ac arfer gorau;*
- (dd) *A yw cymwysterau'n dangos lefel gyson o gyrhaeddiad â'r hyn a nodir gan ba gymwysterau bynnag y mae Cymwysterau Cymru yn eu hystyried yn gymwysterau tebyg, p'un a ydynt wedi'u dyfarnu yn Ewrop neu rywle arall;*
- (g) *A ddarperir cymwysterau'n effeithlon ac er mwyn sicrhau gwerth am arian; a*
- (h) *Y rolau priodol a chwaraeir gan bob un o'r bobl ganlynol mewn perthynas â system gymwysterau Cymru a chyfrifoldebau pob un ohonynt (gan gynnwys drwy gyfeirio at gydweithrediad rhwng y bobl hynny, a'u heffeithiolrwydd wrth gyflawni eu rolau);*
 - (i) *Cyrrff dyfarnu, darparwyr dysgu, Cymwysterau Cymru a Gweinidogion Cymru;*
 - (ii) *Unrhyw bobl eraill sy'n arfer swyddogaethau y mae Cymwysterau Cymru o'r farn eu bod yn berthnasol at ddibenion system gymwysterau Cymru.*

Deddf Cymwysterau Cymru (2015)

1.3 Crynodeb o berfformiad

Ar gyfer 2021-22, rydyn ni'n gosod pum blaenoriaeth weithredol:

Blaenoriaeth Weithredol 1 - Adolygu

Mae ein gwaith yma yn ymwneud ag adolygu a gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cryfhau hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Rydyn ni'n gwneud gwaith ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau ehangach yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Blaenoriaeth Weithredol 2 – Diwygio

Gall ein gwaith o adolygu a gwerthuso cyfres o gymwysterau, neu agwedd ar y system, arwain at newidiadau i amrywiaeth, cynnwys neu ddull asesu'r cymwysterau a gaiff eu cynnig yng Nghymru.

Blaenoriaeth Weithredol 3 - Rheoleiddio

Rydyn ni'n rheoleiddio'r cyrrff dyfarnu rydyn ni'n eu cydnabod a'r cymwysterau maen nhw'n eu datblygu a'u darparu. Pan gaiff corff dyfarnu ei gydnabod, rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau rydyn ni'n eu gosod. Rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol a, lle bo'n briodol, rydyn ni'n defnyddio ein pwerau gorfodi i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr.

Blaenoriaeth Weithredol 4 – Adnoddau Corfforaethol

Drwy ddarparu swyddogaethau corfforaethol cryf a buddsoddi yn ein gwerthoedd, ein hymddygiad a'n diwylliant corfforaethol, rydyn ni'n cynnal sylfaen gadarn i'r sefydliad, gan gefnogi ein gallu i gyflawni a gwella ein henw da gyda rhanddeiliaid. Mae lles gweithwyr yn hanfodol ac mae'n parhau i fod yn faes ffocws wrth i ni ddatblygu ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Blaenoriaeth Weithredol 5 - Cyrhaeddiad

Mae hybu a chynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn ganolog i'n gwaith. Mae gennym ni amrywiaeth o sianeli a thechnegau ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg i gyfleu ein dyletswyddau rheoleiddio a diwygio.

Nododd ein cynllun busnes ar gyfer 2021-22 ein ffocws ar gyfer y flwyddyn ac amlinellodd y gwaith rodden ni'n bwriadu ei gyflawni i gefnogi ein pedair Blaenoriaeth Weithredol.

Mae'r adran crynodeb perfformiad hon yn amlinellu ein prif gyflawniadau drwy gydol y flwyddyn. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr adran dadansoddi perfformiad.

Sylwadau gan Brif Weithredwr Cymwysterau Cymru

Cyflawniadau allweddol eleni

Er gwaethaf newidiadau ac ansicrwydd parhaus drwy gydol 2021-22, gwnaethom ni roi trefniadau rheoleiddio amgen ar waith a oedd yn caniatáu i ddysgwyr ennill cymwysterau er nad oedden nhw'n gallu sefyll arholiadau. Gan adeiladu ar 2020/21, roedd ein dull yn galluogi CBAC i gynnal gweithgareddau sicrhau ansawdd mewn perthynas â'r Graddau a Bennir gan Ganolfan. Er gwaetha'r ansicrwydd, rydyn ni hefyd wedi parhau â'n rhaglen o ddiwygio cymwysterau, gan gyflawni ein holl gerrig milltir datblygu yn llwyddiannus fel sy'n cael ei nodi isod. Eleni, roeddwn i'n falch o adrodd i'r Bwrdd ein bod wedi cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol. Tynnais sylw at y prif gyflawniadau canlynol:

Adolygu

- Fe wnaethon ni gwblhau ein hail ymgynghoriad 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' ac ym mis Hydref 2021, ac eithrio cymwysterau Cymraeg, cafodd ein penderfyniadau ynghylch yr ystod o gymwysterau TGAU yn y dyfodol a chymwysterau cysylltiedig wedi'u creu i Gymru a fydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd, gael eu cyhoeddi. Cafodd hyn ei ddilyn ym mis Mawrth 2022 gan ein penderfyniadau ynghylch cymwysterau Cymraeg. Mae'r gwaith hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer diwygio cymwysterau a fydd yn sail i uchelgeisiau'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ail-ddychmygu sut y caiff cymwysterau TGAU eu hasesu ac ail-lunio'r ystod ehangach o gymwysterau sy'n cael eu hastudio mewn ysgolion.
- Yn hydref 2021 fe wnaethon ni ddechrau ar y broses ddatblygu ar y cyd ar gyfer datblygu'r cymwysterau newydd hyn. Mae hyn wedi cynnwys cynnull 24 o weithgorau lefel pwnc, 6 grŵp Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a nifer o grwpiau mewnol ac allanol eraill. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn parhau i flwyddyn academiaidd 2022/2023.

- Fe wnaethon ni gynnal ein hadolygiad o'r sector teithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwyo y byddwn yn ei gyhoeddi ddechrau 2023, ar ôl i ni benderfynu ar y camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a gafodd eu nodi gennym.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi ein hymchwil ein hunain i asesiadau di-arholiad TGAU. Fe wnaethon ni hefyd gomisiynu a chyhoeddi ymchwil i gynnwys athrawon mewn asesu mewn detholiad o awdurdodaethau rhyngwladol.

Diwygio

- Rydyn ni bellach wedi cymeradwyo'r holl gymwysterau o fewn prosiect diwygio Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r cyrff dyfarnu a'r sector ehangach i gefnogi cyflwyno a darparu'r cymwysterau hyn am y tro cyntaf.
- Fe wnaethon ni ddarparu ychydig dros £160 o gyllid grant cystadleuol i gefnogi cyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydyn ni wedi darparu £260k o gyllid grant i CBAC i gyfrannu at eu costau o baratoi cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch dwyieithog.
- Fe wnaethon ni gynnal ymarfer tendro llwyddiannus a arweiniodd at gomisiynu corff dyfarnu (CBAC) i gynllunio, cyflwyno a dyfarnu 'Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3)', a fydd yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (y cyfeirir ati'n aml fel Bagloriaeth Cymru Uwch).

Rheoleiddio

- Fe wnaethon ni gynnal nifer o adolygiadau polisi, a datblygu polisiau rheoleiddio newydd, gan gynnwys adolygiad trylwyr o'n Fframwaith a'n Dull Rheoleiddiol.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi cyfres o ddogfennau canllaw i gefnogi cyrff dyfarnu â'u cydymffurfiaeth â'r Amodau Cydnabod Safonol.
- Fe wnaethon ni barhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill y DU i roi fframweithiau rheoleiddio eithriadol ar waith ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a oedd yn galluogi cyrff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau o dan drefniadau amgen yn ystod y pandemig. Fe wnaethon ni hefyd geisio deall eu dulliau amgen o ddyfarnu TGAU, UG a Safon Uwch fel bod digon o gymaroldeb.
- Fe wnaethon ni fonitro'r broses o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol Cymeradwy newydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant ac Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi ein bwriad i ddychwelyd i gyfres arholiadau haf 2022 ym mis Mawrth 2021 a gweithio gyda CBAC i'w galluogi i gadarnhau addasiadau i Ganolfannau ym mis Gorffennaf 2021. O ystyried yr aflonyddwch parhaus a gafodd ei achosi gan COVID, fe wnaethon ni gadarnhau hefyd y byddai'r dull wrth gefn ar gyfer haf 2022, pe bai ei angen, yn seiliedig ar y dull Graddau a Bennir gan Ganolfan a gafodd ei fabwysiadu yn 2021. Fe wnaethon ni gyhoeddi canllawiau ar y dull hwn ym mis Tachwedd 2021.

- Fe fuon ni'n gweithio ar opsiynau ar gyfer graddio yn haf 2022 ac ym mis Hydref 2021 fe wnaethon ni gyhoeddi penderfyniad y Bwrdd y dylai canlyniadau yn haf 2022 adlewyrchu sefyllfa eang hanner ffordd rhwyng canlyniadau haf 2019 a 2021, yn unol â'r penderfyniad yn Lloegr.

Adnoddau Corfforaethol

- Fe wnaethon ni barhau i sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn esmwyth er gwaethaf effaith barhaus y pandemig.
- Fe fuon ni'n cefnogi lles ein gweithwyr drwy rith-ddigwyddiadau a chyfathrebu a mentrau rheolaidd.
- Fe wnaethon ni gwblhau rhaglen archwilio fewnol – cafodd pedwar o'r pum archwiliad sicrwydd sylweddol.
- Fe wnaethon ni ddal ati i wrando ac ymateb i farn a phryderon gweithwyr drwy gydol y pandemig. Fe wnaethon ni alluogi gweithwyr i fynychu'r swyddfa ar sail wirfoddol beilot o fis Gorffennaf 2021 a defnyddio'r profiad hwn i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ein ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol.
- Fe wnaethon ni lwyddo i weithredu system Adnoddau Dynol graidd newydd a chyflwyno hunanwasanaeth gweithwyr dwyieithog (rheoli gwybodaeth bersonol/archebu gwyliau blynyddol) ar draws y sefydliad.
- Ar ôl penodi pum aelod newydd i'n Bwrdd, fe wnaethon ni ddarparu rhaglen ymsefydlu a sesiynau briffio i alluogi pontio llyfn.
- Fe wnaethon ni gael gwobr aur yn asesiad cyflogwr ChwaraeTeg, Chwarae Teg.

Cyrhaeddiad

- Fe wnaethon ni adnewyddu ein strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y cyfnod 2021-23 a'i chyflawni'n effeithiol.
- Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyflwyno cyfrif Instagram i ymgysylltu ymhellach â'n cynulleidfa sy'n ddysgwyr.
- Cafodd trefniadau asesu amgen mewn ymateb i effaith COVID-19 eu cyfleu i randdeiliaid.
- Fe wnaethon ni barhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol a ffurfiol â rhanddeiliaid, gyda phum grŵp rhanddeiliaid sefydledig yn cyfarfod bob tymor neu'n amlach pan oedd angen adborth gan randdeiliaid.

Drwy gydol y gwaith hwn, fe wnaethon ni barhau i elwa o gyfraniad cryfach rhanddeiliaid yn ein gwaith ac rydyn ni'n ddiolchgar am eu cyfraniad. Mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig o ystyried natur y risg strategol rydyn ni'n ei rheoli.

Llofnod Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022
---------------------------------	--

2 Dadansoddiad perfformiad

2.1 Cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2021-22

Roedd blaenoriaethau gweithredol 2021-22 yn seiliedig ar gynllun y flwyddyn flaenorol. Adroddodd ein Huwch Grŵp Arwain gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn bob mis, gan ddefnyddio system sgorio Coch/Ambr/Gwyrdd. Roedd hyn yn ein galluogi i adrodd ar gynnydd ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r tabl isod yn dangos yr hyn rydyn ni wedi'i gyflawni dros y flwyddyn:

Blaenoriaeth Weithredol 1 – Adolygu
Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol • Pennu'r ystod o gymwysterau a gymerir yn 16 oed yn y dyfodol • Datblygu egwyddorion dylunio ar gyfer TGAU yn y dyfodol • Sicrhau cymwysterau ar gyfer dysgwyr 14-16 oed • Parhau â'r Adolygiad o'r Sector Teithio, Twristiaeth, Hamdden, Lletygarwch ac Arlwyo • Adolygu argaeledd cymwysterau ar gyfer Dysgwyr Ôl-16 yn y dyfodol • Datblygu'r strategaeth ar gyfer Adolygu a Diwygio Cymwysterau yn y dyfodol • Llywio blaengynllunio ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru • Datblygu dull o gefnogi ehangu'r defnydd o dechnolegau digidol mewn cymwysterau rheoleiddiedig yng Nghymru
Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> • Ym mis Hydref 2021, ac eithrio cymwysterau Cymraeg, cafodd ein penderfyniadau ynghylch yr ystod o gymwysterau TGAU yn y dyfodol a chymwysterau cysylltiedig wedi'u creu i Gymru a fydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd, gael eu cyhoeddi. Cafodd hyn ei ddilyn ym mis Mawrth 2022 gan y penderfyniadau ynglŷn â chymwysterau Cymraeg. • Yn hydref 2021 fe wnaethon ni ddechrau ar y broses ddatblygu ar y cyd ar gyfer datblygu'r cymwysterau newydd hyn, ac mae hyn wedi cynnwys cynnull 24 o weithgorau lefel pwnc, 6 grŵp MDPH, grŵp cyfeirio rhanddeiliaid a nifer o grwpiau mewnol ac allanol eraill. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn parhau i flwyddyn academaidd 2022/2023. • Yn hydref 2022, fe wnaethon ni gynhyrchu cyfres o bapurau gwaith dylunio ac asesu TGAU a oedd yn amlinellu rhai o'r egwyddorion a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer cynllunio ac asesu cymwysterau TGAU newydd wedi'u creu i Gymru a chafodd y rhain eu rhannu gyda'r grwpiau rhanddeiliaid hyn i helpu i lunio ac arwain eu syniadau. Yn ogystal, rydyn ni wedi datblygu cyfres

o dybiaethau gwaith sy'n amlinellu ein disgwyliaid o ran agweddau allweddol ar ddylunio ac asesu TGAU yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u datblygu yn iteraidd yn ystod y broses ddatblygu ar y cyd ac maen nhw wedi'u rhannu â CBAC.

- Fe wnaethon ni'r penderfyniad i sicrhau cymwysterau TGAU newydd drwy lwybr 'marchnad agored'. Fe wnaethon ni benderfynu hefyd y bydden ni'n cyflwyno gofyniad i unrhyw gorff dyfarnu sy'n ceisio cynnig y cymwysterau TGAU newydd yng Nghymru gynnig yr ystod lawn o bynciau TGAU.
- Rydyn ni wedi cynnal adolygiad eang i nodi pa gymwysterau ddylai fod ar gael yng Nghymru i gefnogi cynnig cymwysterau cydlynol a chynhwysol i bobl ifanc 14–16 oed yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gweithgarwch adolygu desg helaeth; dau arolwg, un wedi'i anelu at ddysgwyr a'r llall wedi'i anelu at randdeiliaid 'eraill'; cyfweiliadau lled-strwythuredig a grwpiau ffocws gydag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, cynrychiolwyr ysgolion a cholegau, cyflogwyr a chyrrff cyflogwyr, ac ati.
- Fe wnaethon ni gynnal ein hadolygiad o'r sector teithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwyio y byddwn yn ei gyhoeddi ddechrau 2023, ar ôl i ni benderfynu ar y camau y byddwn yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a gafodd eu nodi yn yr adolygiad hwnnw.
- Fe wnaethon ni gyfarfod â chyrrff dyfarnu i drafod darpariaeth tymor hwy cymwysterau ôl-16 yng Nghymru yng nghyd-destun newidiadau i bolisi a chyllid cymwysterau yn Lloegr. Mae'r cyrrff dyfarnu y buon ni'n siarad â nhw wedi nodi ymrwymiad cryf i weithio gyda ni i sicrhau'r cynnig cymwysterau yng Nghymru ac i gynyddu'r ddarpariaeth o asesiadau cyfrwng Cymraeg.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi'r cyntaf o'n hail gam o adolygiadau sector mewn Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe wnaethon ni gynnal yr adolygiad o Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid. Rydyn ni'n cysylltu â chyrrff dyfarnu i sicrhau bod cymwysterau'n parhau i gael eu cynnig yn y maes hwn.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi ein hymchwil ein hunain ar asesiadau di-arholiad ar lefel TGAU, ac fe wnaethon ni hefyd gomisiynu a chyhoeddi ymchwil i gynnwys athrawon mewn asesu mewn detholiad o awdurdodaethau rhyngwladol.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi'r adroddiad diweddaraf ar ein harolwg hyder cyhoeddus blynyddol a chafodd cyflenwyr newydd eu comisiynu ar gyfer ein hymchwil gyda rhanddeiliaid ar eu hyder yn y system gymwysterau. Cafodd yr adroddiad cyntaf gan y cyflenwr newydd ei gyhoeddi.
- Fe wnaethon ni waith ar ddatblygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2022.
- Fe fuon ni'n gweithio gyda chanolfannau, arbenigwyr a chyflenwyr i gynyddu ein dealltwriaeth o'r defnydd posibl o dechnoleg ddigidol wrth asesu a nodi sut y gallen ni ddatblygu ein gwaith ar foderneiddio asesu fel rhan o'n strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Blaenoriaeth Weithredol 2 - Diwygio

Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni

- Dechrau datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau newydd wedi'u creu i Gymru
- Comisiynu'r gwaith o ddatblygu cymhwyster Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru newydd
- Parhau i Gyflawni'r Prosiect Diwygio Digidol

- Cwblhau'r Prosiect Diwygio Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Parhau â'r Prosiect Diwygio Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Rhoi'r Camau Gweithredu o'r Adolygiad o'r Sector Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni ar waith
- Diwygio cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru
- Parhau i reoli Grantiau'n effeithiol

Cynnydd

- Ar hyn o bryd rydyn ni wrthi'n datblygu gofynion cymwysterau gofynnol ar gyfer cymwysterau wedi'u gwneud i Gymru drwy broses ddatblygu ar y cyd gyda rhanddeiliaid. Byddwn ni'n ymgynghori ar y gofynion hyn yn hydref 2022 ac yn defnyddio'r dogfennau hyn a'r adborth o'r ymgynghoriad fel sail ar gyfer datblygu meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymwysterau unigol.
- Fe wnaethon ni gynnal ymarfer tendro llwyddiannus a arweiniodd at gomisiynu CBAC i gynllunio, cyflwyno a dyfarnu 'Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru (Lefel 3)'. Ers hynny, rydyn ni wedi monitro eu cynnydd yn erbyn gofynion cytundebol a'r cynllun gweithredu y gwnaethon ni gytuno arno. Rydyn ni wedi gweithio'n agos gyda nhw, gan ddarparu cyfleoedd i drafod a mireinio'r Meini Prawf Cymeradwyo lle bo angen. Mae hyn wedi arwain at redeg y prosiect yn ddidrafferth hyd yma. Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn ar gyfer addysgu'r cymhwyster am y tro cyntaf ym mis Medi 2023.
- Fe wnaethon ni barhau i oruchwylio'r gwaith o ddarparu gweithgareddau rheoli newid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cymhwyster TAG UG/Safon Uwch newydd mewn technoleg ddigidol.
- Fe wnaethon ni orffen a chau'r prosiect Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys Gofal Plant) ond fe wnaethon ni barhau i gefnogi colegau drwy ariannu parhad i'r rhwydwaith cymorth. Fe wnaethon ni ymateb i bryderon ynghylch darparu cymwysterau penodol o fewn y gyfres drwy gomisiynu adolygiad cyflym o weithrediad y cymwysterau.
- Rydyn ni bellach wedi cymeradwyo'r holl gymwysterau o fewn prosiect diwygio Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu. Rydyn ni'n parhau i weithio gyda'r cyrff dyfarnu a'r sector ehangach i gefnogi cyflwyno a darparu'r cymwysterau hyn am y tro cyntaf.
- Fe wnaethon ni barhau i fwrw ymlaen â'n gweithredoedd o'r adolygiad Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, gan gysylltu â chyrff dyfarnu ar y materion a gododd o'r adolygiad hwnnw. O ganlyniad i'r adolygiad, roedden ni'n falch o weld cyflwyno cymhwyster newydd yn benodol i'w gyflwyno mewn ysgolion ar gyfer dysgwyr 14-16 oed.
- Ar ôl goruchwylio gwelliannau i'r gyfres bresennol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, fe wnaethon ni ddechrau gweithio ar adolygiad mwy sylweddol o'r cymwysterau hynny.
- Fe wnaethon ni ddarparu ychydig dros £160 o gyllid grant cystadleuol drwy gefnogi cyrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydyn ni wedi darparu £260k o gyllid grant i CBAC i gyfrannu at eu costau o baratoi cymwysterau dwyieithog. Mae hyn yn is na blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu effaith Pandemig Covid-19 ar y broses ddyfarnu flynyddol. Yn ogystal, fe wnaethon ni ddarparu £176k i CBAC i gefnogi darpariaeth y cymwysterau Cymraeg i Oedolion.

Blaenoriaeth Weithredol 3 – Rheoleiddio
Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a pharhau i adolygu ein Fframwaith Rheoleiddiol, ein dogfennau a'n dulliau gweithredu • Rheoleiddio Cyrff Dyfarnu • Dynodi Cymwysterau • Monitro Cymwysterau • Goruchwylio'r gwaith o bennu a chynnal Safonau priodol ar gyfer Cymwysterau • Rheoli QiW • Casglu data a chynhyrchu ystadegau • Rheoli effaith COVID-19 ar gymwysterau • Pennu'r dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn 2022 ac yn y blynyddoedd dilynol
Cynnydd
<ul style="list-style-type: none"> • Fe wnaethon ni gynnal nifer o adolygiadau polisi, a datblygu polisiâu rheoleiddio newydd: <ul style="list-style-type: none"> ○ Fe wnaethon ni gwblhau adolygiad trylwyr o'n Fframwaith a'n Dull Rheoleiddiol, gan ymgorffori ein canlyniadau rheoleiddio a'n hamcanion llesiant, diweddarau cynnwys o amgylch ein pwerau rheoleiddio (e.e. cosbau ariannol ac amodau trosglwyddo sydd wedi'u cyflwyno ers cyhoeddi'r fframwaith gyntaf), ychwanegu ein strategaeth gyfathrebu ddiwygiedig a chyhoeddi animeiddiad bwrdd stori ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol. ○ Yn unol â newidiadau deddfwriaethol, fe wnaethon ni ddatblygu a chyhoeddi polisi sy'n ymwneud ag ymddygiad annerbyniol gan achwynwyr, a chwblhau adolygiad o'n polisiâu sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau a chynnal adolygiadau o gymwysterau a'r system gymwysterau. ○ Fe wnaethon ni adolygu a diwygio ein polisi cymwysterau cyfrwng Cymraeg Rheoleiddiol i adlewyrchu'r ymrwymadau sydd wedi'u gwneud yn ein Strategaeth 'Dewis i Bawb', a'n nod yw sicrhau bod yr holl gymwysterau a gaiff eu hariannu'n gyhoeddus ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. ○ Fe wnaethon ni hefyd adolygu polisiâu a gweithdrefnau rheoleiddio i gefnogi rhaglenni diwygio cymwysterau. • Fe wnaethon ni gyhoeddi cyfres o ddogfennau canllaw i gefnogi cyrff dyfarnu â chydymffurfiaeth â'r Amodau Cydnabod Safonol. Roedd y rhain yn cynnwys canllawiau ar reoli gwrthdaro buddiannau, cynllunio wrth gefn, ymchwilio, ac ymdrin â chamymddwyn a chamweinyddu a chydabod dysgu blaenorol. • Fe wnaethon ni wella ein dull mewnol o gwblhau Asesiadau Effaith Integredig a datblygu offeryn newydd ar gyfer dadansoddi cost a budd, sy'n defnyddio dull integredig o asesu effeithiau ein penderfyniadau rheoleiddio. Fe wnaethon ni lunio cyfres o offer a chanllawiau cysylltiedig a chwblhau cyfres o sesiynau hyfforddi ar gyfer staff, wedi'u teilwra i'w rolau.

- O ystyried y pandemig, fe wnaethon ni ddefnyddio dull cymesur o reoleiddio cyrff dyfarnu. Fe wnaethon ni ddilyn trywyddau'r ymchwiliad o Ddatganiadau Cydymffurfio 2020 yn ymwneud â hyfywedd ariannol cyrff dyfarnu. Fe wnaethon ni barhau i weithio gyda rheoleiddwyr eraill ac am yr ail flwyddyn yn olynol fe wnaethon ni gynnal proses tair gwlad ar y cyd ar gyfer cyflwyno ac adolygu Datganiadau Cydymffurfio. Fe wnaethon ni ofyn am wybodaeth am eu sefyllfa ariannol a'i monitro ac am sut roedd cyrff dyfarnu yn rheoli bygythiadau seiberddiogelwch.
- Fe wnaethon ni barhau i reoli digwyddiadau, ceisiadau i gydnabod cyrff dyfarnu neu ildio cydnabyddiaeth a chwynion. Fe wnaethon ni ddychwelyd i gynnal cyfarfodydd diweddar rheoleiddiol gyda chyrff dyfarnu unigol dethol.
- Ildiodd pedwar corff dyfarnu gydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn, ac fe wnaethon ni gydnabod un corff dyfarnu newydd.
- Yn ystod y flwyddyn, cafodd 259 o gymwysterau newydd eu dynodi gennym, gan fodloni ein hamseroedd ymateb targed.
- Fe wnaethon ni gasglu data a chyhoeddi ein cyfres o Ystadegau Swyddogol, gan addasu'r gweithgareddau hyn yn ôl yr angen oherwydd effaith y pandemig ar y system gymwysterau.
- Fe wnaethon ni newidein hymagwedd tuag at ddyddiadau diwedd cymwysterau a datblygu'r swyddogaethau ar gronfa ddata QiW fel y gallwn ni reoli dynodiad¹ cymwysterau at ddibenion gwahanol. Caiff y gronfa ddata hon ei defnyddio gan gyrff dyfarnu i lanlwytho gwybodaeth a chan ganolfannau i weld cymwysterau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus.
- Fe wnaethon ni fonitro'r broses o ddyfarnu cyfres arholiadau TGAU gaeaf 21/22 a'r broses o ddyfarnu cymwysterau galwedigaethol cymeradwy newydd ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Plant ac Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.
- Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2020 i ganslo arholiadau ar gyfer haf 2021, fe wnaethon ni barhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni Llywodraeth Cymru o arweinwyr ysgolion a cholegau, i roi manylion terfynol y dull Graddau a Bennir gan Ganolfan ar waith ar gyfer haf 2021. Cafodd Fframwaith Asesu Amgen Cymwysterau Cyffredinol Cymru (GQAAPFW) ei roi ar waith er mwyn gallu dyfarnu graddau i ddysgwyr ar gymwysterau cyffredinol yng Nghymru gan ddefnyddio graddau a bennir gan ganolfan.
- Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, y Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni a CBAC, fe wnaethon ni gadarnhau'r manylion terfynol ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn haf 2021, gan gynnwys y prosesau apelio eithriadol a thrafodaethau canlyniadau annodweddiadol. Fe wnaethon ni ddatblygu deunyddiau ar gyfer ysgolion, colegau a dysgwyr i'w helpu nhw a'r cyhoedd yn ehangach i ddeall y penderfyniadau a threfniadau asesu 2021. Fe fuon ni'n gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr cymwysterau eraill yn y DU i ddeall eu dulliau gweithredu a'r goblygiadau o ran cysondeb mewn canlyniadau.
- Fe fuon ni hefyd yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill y DU i sefydlu a goruchwyllo fframweithiau rheoleiddio eithriadol ar gyfer cymwysterau galwedigaethol. Egwyddorion allweddol y trefniadau amgen hyn oedd sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn gallu symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth, ac nad oedd dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol o dan anfantais o'u cymharu â dysgwyr yn dilyn cymwysterau cyffredinol.

¹ Dynodi cymwysterau fel rhai sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus

- Cafodd Fframwaith Rheoleiddio Wrth Gefn Cymwysterau Galwedigaethol (VCRF) ei gyflwyno cyn arholiadau ac asesiadau haf 2022 ac roedd yn caniatáu i asesiadau gael eu haddasu neu i Raddau a Aseswyd gan Athrawon gael eu dyfarnu. Fe wnaethon ni gydlynw'r gwaith o roi addasiadau ar waith ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ar gyfer Cymru yn unig, gan weithio'n agos gyda chyrff dyfarnu a chyrff sector.
- Ym mis Mehefin 2021 fe wnaethon ni gyhoeddi [Rheoli effaith pandemig COVID 19 ar ddyfarnu cymwysterau](#) i ddarparu manylion am ein gwaith yn gysylltiedig â chydarddoldeb ar gyfer trefniadau haf 2020 a haf 2021.
- Fe fuon ni'n monitro prosesau CBAC ar gyfer casglu a gwirio Graddau a Bennir gan Ganolfan yn ystod haf 2021, gan gynnwys defnyddio casgliadau data eithriadol.
- Fe wnaethon ni ddadansoddi canlyniadau a chyhoeddi adroddiadau ar 'Amrywiad yng nghanlyniadau cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch 2021 a Dadansoddiad Cydraddoldeb o Gymwysterau Cyffredinol yn haf 2021' ym mis Hydref 2021.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi ein bwriad i ddychwyeld i gyfres arholiadau haf 2022 ym mis Mawrth 2021 a chadarnhau y byddai addasiadau'n cael eu gwneud ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau ar gyfer 2022. Fe wnaethon ni gytuno ar gyhoeddiad addasiadau CBAC ym mis Gorffennaf 2021, gan alluogi athrawon i gael y wybodaeth hon cyn dechrau blwyddyn academaidd 2021-22. Fe wnaethon ni gadarnhau hefyd y byddai addasiadau'n berthnasol i gyfresi mis Tachwedd a mis Ionawr.
- O ystyried yr aflonyddwch parhaus a gafodd ei achosi gan COVID, fe wnaethon ni hefyd gynllunio'r dull wrth gefn ar gyfer haf 2022. Ar ôl ystyried sawl opsiwn, penderfynodd ein Bwrdd gadw dull Gradd a Bennir gan Ganolfan, gyda mân addasiadau, yn seiliedig ar 2021. Fe wnaethon ni gyhoeddi canllawiau ar y dull hwn ym mis Tachwedd 2021. Ers hynny rydyn ni wedi diweddarau cynlluniau yng nghyd-destun tarfu parhaus ac agosrwydd y gyfres arholiadau.
- Fe fuon ni'n gweithio ar opsiynau ar gyfer graddio ac ym mis Hydref 2021 penderfynodd ein Bwrdd y dylai canlyniadau yn haf 2022 adlewyrchu sefyllfa eang hanner ffordd rhwng canlyniadau haf 2019 a 2021, yn unol â'r penderfyniad yn Lloegr. Ers hynny, rydyn ni wedi gweithio gyda CBAC a rheoleiddwyr eraill i ystyried manylion technegol y dull gweithredu, gan ganolbwyntio ar ddulliau a fyddai mor gadarnhaol â phosibl i ddysgwyr. Rydyn ni wedi cynllunio sut y caiff manylion eu rhannu â rhanddeiliaid allweddol a'r cyhoedd yn ehangach.
- Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel athrawon, Penaethiaid, undebau, dysgwyr a rhieni, yn parhau i fod yn hanfodol bwysig. Fe wnaethon ni ddefnyddio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan i rannu cymaint o wybodaeth â phosibl. Fe wnaethon ni gyhoeddi gohebiaeth a oedd wedi'i ysgrifennu'n benodol ar gyfer dysgwyr, creu adnoddau ar gyfer rhieni, dysgwyr a chanolfannau, a chynnal sesiynau briffio rheolaidd yn y cyfryngau ar y manylion.

Blaenoriaeth Weithredol 4 – Adnoddau Corfforaethol

Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni

- Darparu Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cefnogi ac yn herio'r sefydliad i fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cydymffurfio
- Cyhoeddi Adroddiadau Corfforaethol mewn pryd ac i safon uchel
- Cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a Chenedlaethau'r Dyfodol
- Cyflawni'r camau gweithredu o'r Cynllun Cymraeg

- Cefnogi lles staff a rheoli ein heffaith amgylcheddol
- Cydweithio â'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Cefnogi gwaith datblygu'r Bwrdd a'r Gweithlu
- Datblygu a sefydlu ffyrdd newydd o weithio yn ystod ac ar ôl COVID-19
- Gweithredu'r System Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd

Cynnydd

- Mae ein gwasanaethau corfforaethol Cyllid, Llywodraethu, Adnoddau Dynol, TG, Ymchwil ac Ystadegau, Caffael a Chyfleusterau wedi parhau i gyflawni eu rôl drwy gydol y pandemig a gweithio o bell, gan fod yn hyblyg i sicrhau y gallai'r sefydliad barhau i gyflawni ei rôl reoleiddio a'i waith diwygio.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi ein hadroddiad cynnydd Cydraddoldeb gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn ein hamcanion. Fe wnaethon ni gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol ym mis Tachwedd 2021, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd wedi'i wneud yn erbyn ein Hamcanion Cenedlaethau'r Dyfodol. Fe fuon ni'n monitro ac yn adrodd ar ein cynnydd yn erbyn ein Cynllun Cymraeg.
- Fe wnaethon ni gyhoeddi cyfrifon diamod ym mis Awst 2021 yn ôl yr amserlen a oedd wedi'i phennu gennym.
- Fe wnaethon ni gwblhau pum archwiliad mewnol – gyda phedwar yn cael sicrwydd sylweddol, ac un yn cael sicrwydd rhesymol.
- Cawsom wobwr aur yn asesiad cyflogwr ChwaraeTeg, Chwarae Teg a ni oedd y cyflogwr cyntaf i gyflawni hyn ar eu hasesiad cyntaf.
- Ail-agorodd ein swyddfa ym mis Gorffennaf 2021 am rai dyddiau bob wythnos, gyda chanllawiau clir i weithwyr, mabwysiadu profion llif unffordd fel rheolydd a darparu lle diogel i weithwyr weithio gyda'i gilydd. Wrth weithio o bell rydyn ni wedi parhau i gefnogi iechyd a lles ein gweithwyr trwy hyfforddiant, digwyddiadau rhithwir a chysylltiadau chyfathrebu rheolaidd gan rannu dolenni cymorth a hyrwyddo mentrau.
- Rydyn ni wedi cynnwys ein gweithwyr yn ein cynlluniau i weithio ar sail hybrid i ddechrau ar ddiwedd Gwanwyn/Haf 2022 ac rydyn ni wedi datblygu polisi newydd a fydd yn cael ei lansio yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd.
- Fe wnaethon ni barhau i ddarparu gwasanaethau TG i'r Academi Genedlaethol Addysg a Dysgu ac i'r Comisiwn Ffiniau Democrataidd Lleol. Roedd y ddau sefydliad hefyd yn gallu elwa ar y seilwaith TG hyblyg a oedd yn galluogi gweithio o bell effeithiol.
- Fe wnaethon ni barhau i gefnogi rhwydweithiau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mewn Cyllid, Adnoddau Dynol a TG. Mae ein Pennaeth TG yn aelod o fwrdd y prosiect ar gyfer ffrwd waith systemau a phrosesau rhaglen weithredu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Ynghyd â chydweithwyr Adnoddau Dynol o Chwaraeon Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a CCAUC fe wnaethon ni gaffael a datblygu rhaglen hyfforddiant Arwain a Rheoli ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus. Mae sawl carfan bellach wedi cwblhau gydag adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn a chysylltiadau wedi'u gwneud rhwng gweithwyr/cyfoedion ac arweinwyr ar draws y sector.
- Ar ôl penodi pum aelod newydd i'n Bwrdd, fe wnaethon ni gefnogi aelodau newydd gyda rhaglen ymsefydlu a sesiynau briffio i alluogi pontio llyfn.
- Fe wnaethon ni lwyddo i weithredu system Adnoddau Dynol graidd newydd a chyflwyno hunanwasanaeth gweithwyr dwyieithog (rheoli gwybodaeth bersonol/archebu gwyliau blynyddol) ar draws y sefydliad. Rydyn ni hefyd yng nghamau olaf profi modiwl recriwtio dwyieithog a fydd yn rheoli ein

recriwtio allanol ac yn darparu ar gyfer gweithwyr newydd sy'n ymuno â'n sefydliad. Mae agweddau dwyieithog y prosiect yn cyflawni cam gweithredu o'n cynllun iaith Gymraeg.

Blaenoriaeth Weithredol 5 - Cyrhaeddiad – cysylltu, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â'n holl gynulleidfaeodd

Yr hyn roedden ni wedi bwriadu ei gyflawni

- Meithrin hyder y cyhoedd mewn Cymwysterau a'r System Gymwysterau.
- Canolbwyntio gwelliant parhaus i gyflawni gweithgarwch Cyfathrebu ac Ymgysylltu effeithiol
- Creu Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu gynhwysfawr i reoli effaith COVID-19 ar Gymwysterau
- Datblygu dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar bobl
- Gwella a datblygu'r Strategaeth Cyfryngau Cymdeithasol a'r Wefan
- Cyfathrebu ac ymgysylltu ar flaenoriaethau Diwygio

Cynnydd

- Fe wnaethon ni adnewyddu ein strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu 2021-23 yn effeithiol, gyda'r naratif diwygiedig, olrhain risgiau ac adrodd ar lwyddiannau. Fe wnaethon ni greu cyfathrebiadau wedi'u teilwra ar ein gweithgarwch adolygu a diwygio.
- Cafodd trefniadau asesu amgen mewn ymateb i effaith COVID-19 eu cyfleu'n effeithiol i randdeiliaid sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, CBAC, canolfannau, sefydliadau Addysg Uwch, Consortia Rhanbarthol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, ac eraill, i sicrhau eu bod nhw'n deall y penderfyniadau oedd wedi'u gwneud.
- Fe wnaethon ni barhau i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau ymgysylltu anffurfiol a ffurfiol â rhanddeiliaid, gyda phedwar grŵp rhanddeiliaid sefydledig yn cyfarfod bob tymor ac yn amlach pan oedd angen adborth gan randdeiliaid ar faterion penodol; Grŵp Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Grŵp Rhanddeiliaid Addysg Uwch, Grŵp Rhanddeiliaid Cymwysterau Galwedigaethol, Grŵp rhanddeiliaid Sefydliad Sy'n Cynrychioli Undebau Athrawon a'r Grŵp Cynghori Dysgwyr. Ymhlith y grwpiau eraill rydyn ni'n ymgysylltu â nhw mae Penaethiaid y Consortia Rhanbarthol a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg. Rydyn no hefyd yn ymgysylltu'n unigol â phob un o'r Undebau Athrawon. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain, y Sefydliad Materion Cymreig, Youth Cymru a Parentkind i gyrraedd cynulleidfaeodd ehangach o randdeiliaid allweddol.
- Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu ein defnydd o gyfryngau cymdeithasol a chyflwyno cyfrif Instagram i ymgysylltu ymhellach â'n cynulleidfa sy'n ddysgwyr. Mae'r wefan yn parhau i gael ei hadnewyddu a'i hailadeiladu. Rydyn ni'n parhau i fonitro llwyddiant y cyfathrebu drwy adrodd a gwerthuso misol.
- Fe wnaethon ni hyrwyddo ein hail ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol a chyhoeddi ein hadroddiad penderfynu sy'n nodi cymwysterau'r dyfodol a fydd yn sail i uchelgeisiau'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ailystyried sut y caiff cymwysterau TGAU eu hasesu ac ail-lunio'r ystod ehangach o gymwysterau a gaiff eu hastudio mewn ysgolion;

- Fe wnaethon ni gefnogi'r broses o gyflwyno cymwysterau newydd mewn Peirianeg Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladu, a chodi ymwybyddiaeth o'r adolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyyo.

Llofnod Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022
---------------------------------	--

2.2 Prif risgiau

Caiff y prif risgiau a gafodd eu rheoli gennym yn ystod y flwyddyn eu disgrifio isod. Maen nhw'n fyw o hyd, ac rydyn ni'n parhau i'w monitro'n ofalus.

Dyfarnu yn 2022

Cynllunio ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn haf 2022 ac ystyried y goblygiadau i safonau yw'r meysydd o'n gwaith sydd â'r risg fwyaf uniongyrchol ar hyn o bryd. Bydd arholiadau allanol yn dychwelyd yn 2022. Er bod gan y dull hwn y fantais y bydd pob dysgwr yn sefyll asesiadau cyson wedi'u cynllunio'n dda, mae risgiau o hyd na fydd y dull yn cael ei ystyried yn deg oherwydd anghysondebau mewn profiadau addysgol drwy gydol y pandemig. Pe bai pryder yn eang, gallai hyder y cyhoedd yn y system leihau, gallai ein henw da gael ei niweidio, a gallen ni fod yn destun her gyfreithiol.

Yn 2020 a 2021 cafodd graddau eu dyfarnu yn seiliedig ar ddyfarniadau athrawon. Roedd y canlyniadau'n sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol. Cafodd newidiadau sylweddol eu gwneud i'r system gymwysterau yn 2022 i adlewyrchu effaith y pandemig. I gydnabod y dysgu a gafodd ei gollu oherwydd pandemig COVID, addaswyd cymwysterau (roedd cynnwys neu asesiad wedi lleihau gan rai, roedd eraill wedi cyhoeddi gwybodaeth ymlaen llaw). Yn yr un modd ag awdurdodaethau eraill, rydyn ni wedi penderfynu, yn gyffredinol, y dylai canlyniadau graddau yn haf 2022 fod yn fras hanner ffordd rhwng 2019 a 2021. Fodd bynnag, mae risgiau na fydd rhanddeiliaid yn deall y newidiadau hyn o bosibl. Yn benodol, ar ôl canlyniadau uwch nag arfer yn 2020 a 2021, mae'n bosibl bod disgwyliadau dysgwyr unigol wedi'u codi. Efallai y bydd dysgwyr yn dal i ystyried bod eu hamgylchiadau unigol yn cyflwyno annhegwch ychwanegol o gymharu ag eraill.

Gall derbyniad cyhoeddus o ganlyniadau dyfarniadau haf 2022 beri risgiau pellach i gynnal safonau, gan ei gwneud yn anodd dychwelyd i safonau cyrhaeddiad sefydledig yn y dyfodol.

Mae cyfraddau heintio yn dal i fod yn uchel ac mae trefniadau wrth gefn ar waith os nad oes modd sefyll arholiadau neu os bydd dysgwyr yn methu unedau / cydrannau. Fodd bynnag, gall fod yn anodd ymateb yn gyflym i newidiadau mewn awdurdodaethau eraill, neu i wneud newidiadau ar ôl i arholiadau ddechrau, a gallai hyn effeithio ar hyder y cyhoedd yn y trefniadau.

Mae risg bob amser o faterion yn ymwneud â chyflwyno arholiadau, ond mae'r risg honno'n uwch o ystyried yr ansicrwydd sy'n weddill mewn perthynas â'r pandemig a'r bwlch mewn parhad, o gofio bod arholiadau wedi'u canslo am ddwy flynedd.

Rydyn ni wedi ceisio lliniaru'r holl risgiau hyn drwy gynllunio senarios, gan ddarparu gwybodaeth gynnar am addasiadau i ddysgwyr, athrawon a rhieni, gyda chefnogaeth ymgyrch gyfathrebu barhaus. Rydyn ni wedi parhau i frifio grwpiau rhanddeiliaid gydol yr amser ac rydyn ni hefyd wedi ymgysylltu â'r Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydyn ni'n cynnal deialog rheolaidd â rheoleiddwyr mewn awdurdodaethau eraill a chyda chyrrff dyfarnu.

Diwygio'r cwricwlwm

Cafodd Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2021. Rydyn ni'n parhau i gyflawni ein prosiect i ddiwygio cymwysterau i gefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Rydyn ni am sicrhau bod rhanddeiliaid yn cymryd rhan ym mhob cam datblygu, ond mae risgiau na fyddwn efallai'n gallu hwyluso ymgysylltiad a mewnbwn digonol gan rhanddeiliaid, a allai effeithio naill ai ar amseriad diwygiadau neu'r posibilrwydd o arloesi. Er mwyn lliniaru hyn, rydyn ni wedi sefydlu rhwydwaith helaeth o fforymau rhanddeiliaid ar bob lefel, gan gynnwys ymarferwyr, arbenigwyr pwnc a/neu asesu cyrff annibynnol a dyfarnu, a chynghorwyr polisi. Rydyn ni hefyd wedi creu Grŵp Cyngori i Ddysgwyr ac wedi cynnal ymarfer ymgysylltu â dysgwyr ar raddfa fawr. Mae risgiau bod gallu rhanddeiliaid a chyrff dyfarnu yn gyfyngedig, ond mae hyn yn cael ei fonitro.

Gyda phob diwygiad, mae risgiau nad yw canolfannau wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer newid a bod hyn yn effeithio ar ddarparu cymwysterau newydd yn llwyddiannus, gan gyfyngu ar y manteision sy'n cael eu gwireddu. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy weithgarwch rheoli newid gweithredol, sy'n cynnwys asesu effaith ac ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi diwygio.

Mae risgiau i gyflawni diwygiadau os nad yw Llywodraeth Cymru yn cyfleu ei disgwyliadau polisi addysg yn glir neu'n brydlon. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru a chyfathrebu ein hanghenion gwybodaeth yn glir.

Rydyn ni'n parhau i fonitro risgiau sy'n gysylltiedig ag adnoddau ar gyfer y gwaith hwn. Gan ein bod bellach yn ystyried y cynnig ehangach o gymwysterau y tu hwnt i TGAU, rydyn ni wedi cynyddu nifer y cyflogeion sy'n ymwneud â'r gwaith. Mae ein cyllideb ddangosol ar gyfer y flwyddyn i ddod yn darparu'r cyllid ychwanegol sydd ei angen, ond mae'r risg y bydd cyllid yn y dyfodol yn cael ei leihau yn parhau. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a thrwy gynllunio adnoddau'n fanwl.

Gweithredu diwygio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol

Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda chyrff dyfarnu i gwblhau'r gwaith o ddatblygu, cyflwyno a monitro cymwysterau newydd ym maes Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu, Technoleg Ddigidol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Plant. Os bydd anawsterau gyda chymwysterau newydd, gall hyn effeithio ar hyder rhanddeiliaid neu'r cyhoedd. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy waith monitro manwl yn ystod blynyddoedd cyntaf dyfarniadau cymwysterau a thrwy barhau i gefnogi rheoli newid. Os bydd anawsterau'n codi wrth weithredu dyfarniadau newydd, rydyn ni'n comisiynu adolygiad cyflym i ddeall y rhain a nodi camau gweithredu amserol.

Cyfathrebu

Os nad ydyn ni'n cyfathrebu'n effeithiol am ein rôl a'n gwaith neu, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i wrando a deall barn, yna mae perygl i ni danseilio ein gwaith a chael effaith negyddol ar hyder y cyhoedd. Rydyn ni'n lliniaru hyn drwy fuddsoddi mwy yn ein swyddogaeth gyfathrebu, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid arwyddocaol, darparu sesiynau briffio gwleidyddol a monitro

sut mae ein negeseuon yn cael eu derbyn a lefelau cyffredinol hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau.

Risgiau'r system addysg

Rydyn ni'n edrych ar draws y system gymwysterau ac yn cadw llygad barcud ar yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas. Ar wahân i'r cymwysterau hynny sydd wedi'u datblygu'n benodol ar gyfer Cymru, mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol eraill yn cael eu cynnig ledled y DU. Mae polisiâu addysg a sgiliau yn Lloegr yn parhau i esblygu i gyfeiriadau gwahanol i'r rhai yng Nghymru. O ganlyniad, mae perygl y bydd rhai cymwysterau yn peidio â bod ar gael yng Nghymru. Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, rydyn ni'n cyfarfod yn rheolaidd â'r cyrff dyfarnu hynny sy'n cynnig cymwysterau i nifer fawr o ddysgwyr yng Nghymru ac yn archwilio cyfleoedd gyda nhw i sicrhau bod cymwysterau ar gael yng Nghymru.

Er bod gostyngiadau yng nghynnig y cymwysterau felly'n gallu lleihau'r dewis i bob dysgwr, gallan nhw effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr cyfrwng Cymraeg y gallai cymhwyster penodol fod yr unig un sydd ar gael ar eu cyfer. Yn unol â'n strategaeth cyfrwng Cymraeg, 'Dewis i Bawb', rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â chyrff dyfarnu i nodi cymwysterau sy'n gallu cael eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau posibl, ac i nodi sut y gallwn ni eu cefnogi i gynnig mwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydyn ni wedi canolbwyntio ein gwaith adolygu sector yn ei ail gam ar argaeledd generig cymwysterau ôl-16 ac, yn benodol, y rhai sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hyfywdra cyrff dyfarnu

Mae canslo arholiadau yn 2020 a 2021 wedi effeithio ar gyrff dyfarnu, ac mae perygl y gallai rhai cyrff dyfarnu barhau i brofi anawsterau ariannol. Rydyn ni'n gweithio'n agos gydag Ofqual i rannu gwybodaeth a monitro'r sefyllfa, ac yn trafod risgiau sydd wedi'u nodi gyda chyrff dyfarnu unigol.

Lles gweithwyr

Drwy gydol y flwyddyn, roedd risg uchel y gallai lles gweithwyr, a diwylliant y sefydliad gael ei effeithio'n negyddol gan weithio o bell am gyfnod mor hir.

I'r holl weithwyr, fe wnaethon ni barhau i ddarparu rhith-ddigwyddiadau 'neuadd y dref' bob yn ail wythnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw. Fe wnaethon ni gyflwyno cystadlaethau cymdeithasol, gan gynnwys her tîm ymarfer corff/lles. Fe wnaethon ni gynnal arolygon pwls rheolaidd i fonitro lles emosiynol. Fe wnaethon ni hefyd gyfarfod yn rheolaidd â'r undeb yn ein cyfarfodydd partneriaeth. Fe wnaethon ni annog gweithwyr i gymryd amser i ffwrdd o'r cyfrifiadur.

Yn ystod 2021/22, roedden ni'n gallu cau rhai risgiau sylweddol o'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i:

- recriwtio aelodau newydd o'r Bwrdd yn llwyddiannus
- osgoi tarfu oherwydd salwch COVID gweithwyr
- symud yn ôl at gymwysterau'n cael eu dyfarnu gan gyrff dyfarnu - a oedd yn dileu'r risg o gamymddwyn sy'n benodol i raddau a bennir gan ganolfan.

2.3 Adolygiad ariannol

Caiff Cymwysterau Cymru ddyraniad cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am ei wariant. Rydyn ni hefyd yn cynhyrchu ychydig bach o incwm bob blwyddyn, drwy ddarparu gwasanaethau cymorth TG i ddau Gorff llai a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydyn ni'n cael caniatâd i'w ail-fuddsoddi yn ein gweithgareddau. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd y cyllid canlynol ar gael i ni:

	£'m
Cyllid Grant Craidd gan Lywodraeth Cymru	8.067
Cyllid penodol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ein prosiect 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'	1.350
Cyllid cymwysterau 'Cymraeg i Oedolion' gan Lywodraeth Cymru (mae hwn yn arian grant wedi'i glustnodi i'w roi i CBAC i dalu costau'r fenter hon)	0.200
Incwm o ddarparu Cymorth IT	0.041
Cyfanswm	9.658

Ar 1 Ebrill 2021, roedd gennym ni hefyd gronfa wrth gefn y gallen ni ei defnyddio, sef cyfanswm o £234k, a oedd wedi'i chlustnodi'n benodol i ariannu costau ein systemau Adnoddau Dynol a Chyllid newydd, i'w defnyddio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2022.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, ac yn unol â'n Cynllun Cyllid Tymor Canolig, fe wnaethon ni osod cyllideb gwariant i ddechrau, yn seiliedig ar y £9.658m o gyllid a oedd ar gael, i gyflawni'r gweithgareddau roedden ni'n bwriadu ymgymryd â nhw, wedi'i rhannu'n ymarferol yn feysydd bras fel a ganlyn:

- **Costau staff**
- **Grantiau i gyrff eraill**, i gefnogi'r system gymwysterau ac anghenion dysgwyr, drwy sicrhau bod asesu cyfrwng Cymraeg ar gael ac ariannu gweithgareddau penodol sy'n galluogi diwygio cymwysterau.
- **Cyllidebau rhaglen**, i gomisiynu'r cymorth a'r arbenigedd allanol sydd eu hangen i gyflenwi ein rhaglen o adolygu a diwygio cymwysterau, i reoleiddio'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cymwysterau yng Nghymru, ac i wneud gwaith ymchwil.
- **Costau gweithredu corfforaethol**, fel Adnoddau Dynol, TG, cyfleusterau, llywodraethu, cyngor cyfreithiol ac ati.

Fe wnaethon ni gynyddu ein gofyniad cyllideb i £9.853m ar ôl i ni ddod yn gliriach bod angen hyd at £195k o'n cronfa wrth gefn y gallen ni ei defnyddio i alluogi datblygu a gweithredu ein systemau Adnoddau Dynol a Chyllid newydd.

Fodd bynnag, fe wnaethon ni hefyd ddechrau'r flwyddyn ariannol gan gydnabod bod hyd at £1m o'n cyllideb mewn perygl, yn bennaf oherwydd effaith barhaus bosibl pandemig COVID-19, nad

oedd yn hysbys ar y pryd, neu lle'r oedden ni'n cydnabod bod ein cynlluniau, ac wedyn ein hanghenion gwario, mewn perthynas â'n diwygiadau 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol', yn dal i esblygu.

Ar y pwynt hanner ffordd yn fras yn y flwyddyn ariannol, fe wnaethon ni addasu'r rhaniad yn ein cyllideb rhwng ein gweithgareddau craidd a'n gweithgareddau Cymwys ar gyfer y dyfodol, gan adlewyrchu'r meddylfryd diweddaraf (bryd hynny) y byddai ein hanghenion ariannu Cymwys ar gyfer y dyfodol yn fwy na'r £1.35m o gyllid oedd ar gael. Erbyn hynny, roedden ni hefyd yn gliriach bod effaith barhaus y pandemig wedi effeithio ar rai o'n gweithgareddau craidd arfaethedig (a'n cyllidebau cysylltiedig), felly roedden ni'n gallu rhyddhau £364k o'n cyllidebau craidd i dalu am gostau ychwanegol posibl Cymwys ar gyfer y dyfodol.

Mae'r tabl isod yn cadarnhau ein sefyllfa gwariant ac ariannu ar gyfer y flwyddyn, o'i chymharu â blynnyddoedd blaenorol.

Ardal	Canlyniad 2019-20 £'000	Canlyniad 2020-21 £'000	Cyllid 2021-22 £'000	Canlyniad 2021-22 £'000	Amrywedd y canlyniad £'000	Amrywedd y canlyniad %
Ardaloedd y gyllideb graidd						
Tâl	4,829	5,079	5,352	5,372	20	0%
Grantiau	660	538	640	476	-164	-26%
Costau'r rhaglen	936	414	535	374	-161	-30%
Costau cynnal	1,380	1,157	1,412	1,303	-109	-8%
Nawdd Craidd Cymwysterau Cymru	7,806	7,188	7,939	7,525	-414	-5%
Grant Cymraeg i Oedolion	190	176	200	195	-5	-3%
Is-gyfanswm	7,996	7,364	8,139	7,720	-419	-5%
Cyllidebau Cymwys ar gyfer y dyfodol						
Tâl	196	567	814	774	-40	-5%
Costau'r rhaglen	119	115	830	351	-479	-58%
Costau cynnal	4	4	8	17	9	113%
Rhaglen y Swyddfa Gyfrifeg	0	0	62	0	-62	-100%
	319	686	1,714	1,142	-572	-33%
Cyfanswm y Gwariant	8,315	8,050	9,853	8,862	-991	-10%
Wedi ei gyllido gan						
Grant Craidd Llywodraeth Cymru	8,000	7,100	8,067	7,250		
Nawdd Cymraeg i Oedolion	190	176	200	195		
Nawdd Cymwys ar gyfer y dyfodol		686	1,350	1,142		
Incwm		41	41	41		
Defnydd y gronfa wrth gefn	125	47	195	234		
Cyfanswm	8,315	8,050	9,853	8,862		

Mae hyn yn cadarnhau, er mai cyfanswm ein gwariant yn 2021-22 yw'r uchaf ers ein sefydlu yn 2015, ein bod wedi tanwario £991k o'i gymharu â'n cyllideb. Mae hyn yn gyson â natur a lefel y risg o wariant a gafodd ei nodi yn ein cyllideb pan gafodd ei phennu. Roedd ein sefyllfa alldro yn unol â'n rhagolygon, a chafodd ei chyfleu'n llawn i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y mathau o amrywiadau gwariant a gawson ni eleni yn y tabl isod.

<p>Costau cyflog (Craidd a Cymwys ar gyfer y dyfodol)</p>	<p>Roedd ein gwariant craidd ar gyflogau, sydd wedi cynyddu o 2020-21 fel y rhagwelwyd yn ein Cynllun Cyllid Tymor Canolig, yn unol â'r gyllideb, ac yn cadarnhau ein bod wedi cyflawni'r targed arbed trosiant o £150k. Mae'r gorwariant bach o £20k yn deillio o'r ffaith bod y dyfarniad cyflog ychydig yn uwch na'r hyn oedd wedi'i gyllidebu.</p> <p>Cynyddodd ein gwariant ar gyflogau Cymwys ar gyfer y dyfodol yn sylweddol o 2019-20, gan adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y staff i gyflawni'r gwaith diwygio yma. Fodd bynnag, ni chafodd pob recriwtio ei wneud yn unol â'r tybiaethau gwreiddiol, a hynny'n bennaf oherwydd i amseriad anghenion adnoddau ychwanegol newid wrth i ffrydiau gwaith gael eu hailgynllunio, felly tanwariwyd y gyllideb hon o £40k.</p>
<p>Grantiau i gyrff eraill</p>	<p>Yn y maes hwn fe welson ni'r tanwariant mwyaf yn ein cyllideb graidd (£163k). Roedd llawer o hyn yn ganlyniad parhaus i'r pandemig. Tanhawliodd CBAC ei ddyraniad grant o £100k, oherwydd y penderfyniad i ganslo arholiadau am yr ail flwyddyn, gan leihau'r costau y gwnaethon nhw eu hadennill.</p> <p>Cafodd y rhan fwyaf o'r amrywiant o £63,000 a oedd yn weddill, (£48k) ei ddatgan hanner ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, pan gadarnhaodd corff dyfarnu ei bod yn anodd iddyn nhw gyflwyno cymwysterau newydd wedi'u cyfieithu mewn pryd i hawlio'r cyllid yn 2021-22, ac mae gwersi i'w dysgu yma y byddwn yn eu trosglwyddo i'r broses dyfarnu grantiau ar gyfer 2022-23.</p> <p>Yr amrywiant sy'n weddill (£15k) yw effaith gronnol ymgeiswyr nad ydyn nhw bob amser yn hawlio'r dyfarniad llawn, oherwydd bod eu costau gwirioneddol yn amrywio o'u cais, y mae rhywfaint ohono'n anochel. Rydyn ni'n gweld hyn yn flynyddol ac yn ei gydnabod drwy ddyfarnu grantiau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, gan dybio y bydd amrywiadau'r ymgeisydd yn ystod y flwyddyn yn dod â'r gwariant yn ôl yn unol â'r gyllideb.</p>
<p>Gweithgareddau Rhaglenni Craidd</p>	<p>O'r amrywiad o £161k ar gyllidebau Rhaglenni, roedd £52k yn gysylltiedig yn bennaf ag effaith yr arholiadau a gafodd eu canslo ar ein gweithgarwch monitro, lle nad oedd yn ofynnol i ni gomisiynu'r lefel arferol o gymorth allanol sydd ei angen i fonitro'r gyfres arholiadau o ganlyniad.</p> <p>Roedd achosion hefyd yn ystod y flwyddyn lle gwnaethon ni ddargyfeirio staff i'n diwygiadau i Cymwys ar gyfer y dyfodol, a gafodd rywfaint o effaith ar weithgareddau eraill a oedd wedi'u cynllunio, e.e. ymchwil.</p> <p>Mae rhai meysydd wedi tanwario o ganlyniad i gynlluniau'n newid a /neu weithgareddau'n cael eu cynnal yn wahanol, er enghraifft yn cael eu cynnal yn fewnol gan osgoi'r angen am gomisiynu gwaith yn allanol.</p> <p>Er ein bod wedi cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y rhan fwyaf o'n blaenoriaethau arfaethedig, mae hyn wedi golygu bod rhai o'r newidiadau wedi lleihau lefel y cyllid oedd ei angen.</p>
<p>Costau Rhedeg Craidd</p>	<p>Fe wnaethon ni danwario £109k yn erbyn ein cyllidebau costau rhedeg o £1.4m. Unwaith eto, roedd llawer o hyn o ganlyniad i'r pandemig, lle gwnaethon ni ddechrau'r flwyddyn yn ofalus yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau penodol i barhau ar lefel oedd yn gyson â'r flwyddyn</p>

	<p>flaenorol, er enghraifft costau'r Bwrdd a chostau Cyfreithiol, pan ostyngodd gweithgarwch gwirioneddol yn y meysydd hyn.</p> <p>Fe welson ni hefyd rai materion yn ymwneud â gweithredu'r system gyllid newydd, sydd wedi ymestyn y cyfnod gweithredu ac wedi golygu bod rhai costau wedi llithro i 2022-23.</p> <p>Galluogodd llithriant yn y meysydd hyn i ni ddargyfeirio cyllid i bwysau cost a ddaeth i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, gan ganiatáu i ni wneud gwaith datblygu ychwanegol ar gronfa ddata QIW, a dechrau ein rhaglen adnewyddu asedau ynghynt.</p>
<p>Cyllidebau Cymwys ar gyfer y dyfodol nad ydyn nhw'n ymwneud â chyflogau</p>	<p>Yn y maes sylweddol hwn o weithgarwch a diwygiadau mawr y gwelwn ni'r amrywiad cyllidebol mwyaf yn 2021-22. Un o'r prif nodau a gafodd eu gosod ar gyfer 2021-22 oedd llunio ac yna ymgymryd â'r gwaith datblygu ar y cyd gyda'r nod o gynhyrchu gofynion dylunio lefel uchel arfaethedig ar gyfer pob un o'r 31 o gymwysterau newydd wedi'u creu i Gymru, a oedd yn gofyn am greu 24 o Weithgorau Lefel Pwnc, pob un yn eistedd o fewn un o'r chwe grŵp Rhwydwaith MDPH, a chomisiynu tua 50 o gynghorwyr pwnc ac 80 o ymarferwyr, i gyflawni pum allbwn allweddol. Yn y bôn, mae'r gwariant yn y maes hwn yn is na'r disgwyl oherwydd:-</p> <ol style="list-style-type: none"> a) Mae cyflwyno'r allbynnau hyn yn raddol (wrth i feddwl esblygu) yn rhychwantu blynyddoedd ariannol, gyda dau o'r pump bellach yn cael eu cyflawni yn chwarter cyntaf 2022-23, a b) Gostyngiad yn nifer y diwrnodau sydd ar gael o ymarferwyr a chynghorwyr. Er ein bod yn is na'r hyn oedd wedi'i ragweld yn wreiddiol, rydyn ni'n dal i gredu ein bod ni wedi sicrhau bod ymarferwyr a chynghorwyr yn cymryd rhan ddigonol i gefnogi'r model datblygu ar y cyd, ond rydyn ni'n parhau i gydnabod a lliniaru'r risg y gallai pwysau parhaus sy'n cystadlu effeithio ar eu hargaeledd, ac rydyn ni'n parhau i reoli a monitro eu cyfranogiad yn ofalus er mwyn sicrhau ein bod yn derbyn y lefel o gyfranogiad a mewnbwn sydd ei angen i archwilio a phrofi syniadau'n effeithiol.

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein sefyllfa alldro yn cysoni â'r ffigur 'Gwariant Net Cynhwysfawr' sy'n cael ei ddyfynnu yn y 'Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr' (SOCNE), ar ôl cyfrif am wariant cymwys cyfalaf, trafodion adnodd heblaw arian parod a thaliadau dibrisiant/amorteiddio.

Cysoni'r Alldro â'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE)	£'000
Alldro'r Gyllideb	8,862
Peidio â chynnwys gwariant sy'n cael ei drin fel gwariant Anghyfredol (cyfalaf)	(251)
Ychwanegu dibrisiant/amorteiddiad/nam	220
Gwariant nad yw'n arian parod wedi'i gydnabod (croniad Gwyliau Blynyddol a chynnydd yn y ddarpariaeth). (Gostyngiad o 2021-22)	(51)
Defnydd o incwm TG a gynhyrchir	(41)
Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn	8,739

Y symudiad amlycaf heblaw arian parod yn 2021-22 oedd y gostyngiad yn ein cronriad gwyliau blynyddol o gymharu â 2020-21 (pan ddyblodd o 2019-20). Mae hyn yn cynrychioli maint y gwyliau blynyddol sy'n 'ddyledus' i staff ar 31 Mawrth 2022. Roedd y cynnydd sylweddol ar 31 Mawrth 2021 o ganlyniad i'r pandemig. Hynny yw, staff â mwy o wyliau blynyddol heb eu cymryd, naill ai o ganlyniad i ymrwymadau gwaith ychwanegol neu eu patrymau gwyliau yn newid, ac roedd hyn yn gyffredin ar draws ein cyfoedion a Llywodraeth Cymru. Rydyn ni bellach yn gweld lefelau absenoldeb heb eu cymryd yn gostwng ac rydyn ni'n disgwyl i hyn ostwng eto yn ystod 2022-23.

Rydyn ni wedi cael problemau o ran gweithredu'r system gyllid newydd yn ystod 2021-22 sydd wedi arwain at y gwaith yn parhau i 2022-23. Fodd bynnag, roedd yn ofynnol i ni ddefnyddio'r gronfa wrth gefn y gallwn ni ei defnyddio yn llawn yn ystod 2021-22. Rydyn ni wedi sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pe na baen ni'n gallu talu'r costau sydd wedi llithro i 2022-23 o'n cyllid presennol.

Bydd natur ein cyllid a'n gweithgarwch yn parhau i gyflwyno tair her ariannol gynhenid i ni bob blwyddyn:

- Mae perygl bob amser na fydd ein dyraniad cyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru yn cyfateb i'n hanghenion gwariant sy'n cael eu rhagweld;
- Rhaid i ni sicrhau bod unrhyw gynigion/ymrwymadau gwariant cylchol newydd yn fforddiadwy dros y tymor canolog; ac
- Oherwydd nad yw ein rhaglen / gweithgareddau diwygio yn 'ffitio' yn dwt i flynyddoedd ariannol, ac am fod rhaid i ni neilltuo symiau dros dro i dalu am

ymrwmiadau posibl (fel costau cyfreithiol, costau recriwtio ac ati), bydd rhywfaint o ansicrwydd bob amser ynghylch lefel ac amseriad rhai mathau o wariant.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn ariannol 2022-23 rydyn ni wedi asesu sut y gallai ein hymddygiad gwario newid yn fwy parhaol o ganlyniad i'r pandemig, a sut mae ein cynlluniau rheoleiddio a diwygio a'n hanghenion gwariant cysylltiedig yn esblygu. Mae hyn wedi ein galluogi i ail-lunio / ailosod rhai o'n cyllidebau i'n paratoi'n well ar gyfer ein blwyddyn heriol o'n blaenau.

Byddwn yn parhau i gynnal ein Cynllun Cyllid Tymor Canolig, sicrhau deialog agored â Llywodraeth Cymru, a bydd gennym drefniadau rheoli ariannol 'yn ystod y flwyddyn' cryf.

Fe wnaethon ni brosesu 1078 o anfonebau i'w talu yn 2021-22, 340 (46%) yn fwy nag yn 2020-21 (738), gan ddychwelyd i'n lefelau gweithgarwch cyn y pandemig. Parhaodd 98 y cant o'r anfonebau i gael eu talu o fewn 30 diwrnod (98% yn 2020-21), a chafodd 68% o'n hanfonebau eu talu o fewn 10 diwrnod (68% yn 2020-21) ⁽¹⁾. Rydyn ni'n parhau i ofyn am esboniadau am unrhyw daliadau sy'n cymryd mwy o amser na'n targedau ac yn gwella prosesau lle bo angen.

Ein balans arian parod ar 31 Mawrth 2022 oedd £35k, sydd ymhell o fewn y terfyn cario drosodd o £190k sy'n cael ei ganiatáu gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd sylw priodol ei roi i reoleidd-dra a phriodoldeb gwariant y sefydliad, a bernir bod prosesau a rheolaethau mewnol priodol ar waith.

Mae disgwyl i Cymwysterau Cymru barhau i fodoli a chael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru am beth amser eto, sy'n golygu ei bod yn briodol mabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

(1) Yn absenoldeb diffiniad statudol ar gyfer y targed '10 diwrnod', rydyn ni'n mesur yr amser rhwng anfoneb ddilys a gaiff Cymwysterau Cymru, a phryd y caiff y taliad ei wneud i gyfrif banc y cyflenwr.

2.4 Cynaliadwyedd

Mae Cymwysterau Cymru yn llenwi ardal o 11,329 troedfedd sgwâr yn Adeilad Q2, mewn un swyddfa a rennir i'r gorllewin o Gasnewydd. Oherwydd pandemig Covid-19, caeodd y swyddfa ym mis Mawrth 2020 ac arhosodd ar gau rhwng Ebrill 2021 a Mehefin 2021, sydd wedi'i gynnwys yn y cyfnod adrodd hwn. Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethon ni ddechrau ar ddull graddol o ailagor, lle cafodd staff yr opsiwn i fynychu'r swyddfa.

Drwy ein dull modern a hyblyg o ymdrin â TG, fe wnaeth defnyddio'r technolegau diweddaraf ganiatáu i'n holl staff drosglwyddo'n ddi-dor i weithio gartref. Mae ein holl systemau busnes craidd yn seiliedig ar gymylau, sy'n golygu nad oes angen gweinyddion mawr ar y safle arnon ni. Mae ein gweithwyr i gyd yn cael llechi datgysylltiol 'dau mewn un', er mwyn iddyn nhw gael at y gwasanaethau cwmwl o unrhyw le os oes cysylltiad diwifr ar gael yno.

Mae'r adeilad yn hawdd ei gyrraedd mewn car, ond yn llai hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus, felly, ym mis Ebrill 2020, fe wnaethon ni gynnal arolwg 'teithio i'r gwaith' i ddeall yr effaith amgylcheddol y mae cymudo ein staff yn ei chael ar yr amgylchedd. Mae'r pandemig a chau swyddfeydd wedi ein galluogi i adolygu ein dull gweithredu ac wrth symud ymlaen byddwn yn mabwysiadu dull gweithio hybrid fel model busnes fel arfer, lle yn gyffredinol byddwn yn disgwyl i staff fod yn y swyddfa am 2 ddiwrnod yr wythnos. Bydd y dull hwn yn helpu i leihau ymhellach yr effaith teithio a gaiff ein staff ar yr amgylchedd.

Yn ystod 2021, cafodd ein ffigurau adrodd carbon cyntaf eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'u map llwybr ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030. Cafodd y ffigurau ar gyfer 2019-20 eu cyflwyno a byddan nhw'n darparu meincnod wrth symud ymlaen lle byddwn yn gweithio i wella'r ffigurau hyn bob blwyddyn. Mae'r tabl isod bellach yn cynnwys ein data cymudo staff, yn unol â'r data a gafodd eu casglu ar gyfer adroddiadau Llywodraeth Cymru.

Trydan

Oherwydd cau'r swyddfa, ni fydd ein defnydd nodweddiadol o drydan yn cael ei adlewyrchu yn ffigurau 2021-22. Ailagorodd y swyddfa ym mis Gorffennaf 2021 am ddau ddiwrnod yr wythnos, gan gynyddu i dri diwrnod yr wythnos o fis Medi. Mae'r swyddfa wedi bod ar agor ar ddiwrnodau eraill i gontractwyr cynnal a chadw allweddol a gwasanaeth glanhau rheolaidd. Rydyn ni wedi parhau i gynnal a chadw'r adeilad ac i redeg system ddiogelwch yn yr adeilad. Mae ystafell ein gweinydd TG yn gweithredu uned aerdymheru annibynnol 24/7 i gefnogi'r systemau hyn ynghyd â'n cysylltedd rhyngwyd, Wi-Fi a rhwydweithiau ardal leol. Rydyn hefyd wedi parhau i redeg ein system HVAC (gwresogi, oeri ac awyru) am gyfnodau byr, wedi'u hamseru bob dydd i sicrhau bod aer ffres yn dod i mewn yn unol â chanllawiau COVID-19.

Mae'r tabl isod yn dangos ein hól troed carbon. Oherwydd y pandemig, ychydig iawn o deithio busnes sydd wedi bod ar gyfer y cyfnod 2021-22. Mae eleni wedi dangos bod yr holl waith wedi gallu parhau'n rhithwir, felly, o hyn ymlaen, byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn ystyried yr angen i deithio ar fusnes, i leihau teithio diangen, a byddwn ni'n hyrwyddo teithio cyfrifol a chynaliadwy wrth gyflawni ein dyletswyddau.

Mae'r gwastraff rydyn ni'n ei greu wedi lleihau oherwydd bod yr adeilad ar gau ar gyfer rhan o 2021-22 ac wedi ailagor yn rhannol. Fe welson ni gynnydd dramatig yn ein defnydd o ddŵr ar ddechrau 2021-22, roedd hyn o ganlyniad i falf oedd yn gollwng a arweiniodd at lif cyson o ddŵr yn y system. Oherwydd bod yr adeilad ar gau, bu oedi cyn dod o hyd i'r broblem hon. Felly, wrth symud ymlaen rydyn ni'n disgwyl gweld ffigur mwy cyson ar gyfer defnyddio dŵr yn unol â blynyddoedd blaenorol.

Mae gennym ni Ddatganiad Polisi Amgylcheddol ar waith, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr. Aethom ati i ennill achrediad Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn 2020-21 ond nid oedden ni'n gallu cyflawni ar ôl cau'r swyddfa. Byddwn ni felly'n parhau â'r amcan hwn pan fyddwn yn ailagor ein swyddfeydd ac yn sefydlu patrwm gwaith rheolaidd.

Cwmpas	Gwybodaeth anariannol	Gwybodaeth ariannol	Allyriadau nwyon tŷ gwydr
Cwmpas 1 - Allyriadau uniongyrchol:	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol
Cwmpas 2 (Ynni anuniongyrchol):	Trydan 49,786 kwh	£11,582.45	10,571 kg CO2e
Cwmpas 3:	Dŵr 395 uned (*) Carthffosiaeth 376 uned Cyfanswm 771 uned	£591.98 £835.55 Cyfanswm £1427.53	59 kg CO2e 102 kg CO2e Cyfanswm 161 kg CO2e
	Gwastraff Cyffredinol – 285kg gwastraff Cymysg – 208kg Ailgylchu Bwyd – 178.5kg gwastraff Cyfanswm 671.5 kg	Gwastraff Gwastraff Cyffredinol - £341.45 Ailgylchu Cymysg - £1133.04 Gwastraff bwyd - £1045.52 Cyfanswm £2520.01	Gwastraff Cyffredinol – 131kg CO2e gwastraff Cymysg – 4kg CO2e ailgylchu Bwyd – 1.5kg CO2e gwastraff Cyfanswm 136.5 kg CO2e
	Teithio ar fusnes		

	Car/Tacsi Staff - 1985 milltir Aelodau Bwrdd - 1213 milltir Cyfanswm Milltiroedd - 3198	Car/Tacsi Staff - £902 Aelodau Bwrdd - £546 Cyfanswm - £1,448	Car/Tacsi (**) Staff - 539kg CO2e Aelodau Bwrdd - 330kg CO2e Cyfanswm - 869 kg CO2e
	Trên Staff - 291 milltir Aelodau Bwrdd - 238 milltir Cyfanswm Milltiroedd - 529 milltir	Trên Staff - £142 Aelodau Bwrdd - £107 Cyfanswm - £249	Trên Staff 17kg CO2e Aelodau Bwrdd 14kg CO2e Cyfanswm - 31kg CO2e
	Awyr Amh.	Awyr Amh.	Awyr Amh.
	Amcangyfrif o Gymudo Staff***		
	Car 34,768 milltir		Car 9,456 kg CO2e
	Bws 18 milltir		Bws 2kg CO2e

Nodiadau esbonio'r tabl

Cwmpas 1: Mae allyriadau uniongyrchol yn deillio'n uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i Cymwysterau Cymru neu a reolir gan Cymwysterau Cymru, er enghraifft, o danwyddau a ddefnyddir yn ein boeleri, neu'r cerbydau y mae adrannau a rheolwyr ystadau yn berchen arnyn nhw.

Cwmpas 2: Allyriadau a ryddheir i'r atmosffer sy'n gysylltiedig â defnyddio trydan, gwres, stêm ac oeri a brynwyd.

Cwmpas 3: Mae'r allyriadau hyn yn deillio o weithgareddau sefydliad, ond maent yn digwydd o ffynonellau nad ydynt yn eiddo i'r sefydliad nac yn cael eu rheoli gan y sefydliad. Mae hyn yn cynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â gwastraff, dŵr, teithio ar fusnes, cymudo a chaffael.

(*) Amcangyfrifwyd y ffigurau ar gyfer defnyddio a chostau dŵr ar gyfer Chwarter 4 yn seiliedig ar gyfradd rhedeg, gan fod y cyfleustod hwn yn cael ei filio bob chwe mis.

(**) Cyfrifwyd y ffigurau ar gyfer CO2 ceir gan ddefnyddio Ffactorau Trosi nwyon tŷ gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Adrodd am Gwmnïau – yn seiliedig ar fath o gar 'canolig uchaf'.

(***) Mae ffigurau cymudo staff a gyfrifwyd gan ddefnyddio codau post cartrefi staff yn croesgyfeirio â'r system archebu desgiau i gadarnhau presenoldeb. Mae'r allyriadau'n seiliedig ar fath o gar canolig uchaf.

Allyriadau gweithredol a'r gadwyn gyflenwi

Ym mis Medi 2021, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni adrodd ar allyriadau ein cadwyn gyflenwi fel rhan o'u polisi 'statws carbon sero-net erbyn 2030'. Diben hyn oedd darparu meincnod yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2019-2020. Mae'r model yn cwmpasu allyriadau gweithredol

ynghyd â gollyngiad o'r gadwyn gyflenwi a gyfrifir gan werth y defnydd o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd wedi'i luosi â ffactor allyriadau a dynnwyd o gyfartaledd y diwydiant ar gyfer cod diwydiant SIC penodol. Mae modd defnyddio'r meincnod i dynnu sylw at feysydd i dargedu gweithgareddau lleihau carbon, ac y mae modd mesur mentrau lleihau carbon yn eu herbyn yn y dyfodol.

Cyfanswm ein hallyriadau KG CO₂e ar gyfer 2019-2020 oedd 727,469kg.

Roedd hyn yn cynnwys allyriadau gweithredol o 339,562kg ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi o 387,906kg.

Cyfanswm ein hallyriadau KG CO₂e ar gyfer 2021-2022 oedd 727,469kg.

Roedd hyn yn cynnwys allyriadau gweithredol o 86,921kg ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi o 301,692kg.

Mae'r ffigurau hyn yn is nag yn 2019-20 oherwydd bod staff yn gweithio gartref yn bennaf a'r rhan fwyaf o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cael ei gynnal drwy gyfarfodydd rhithwir. Bydd y ffigurau hyn yn cynyddu wrth i Gymru symud allan o'r pandemig ac wrth i ni sefydlu patrwm rheolaidd o weithio yn y swyddfa. Byddwn yn edrych ar gynllun gweithredu i leihau allyriadau carbon yn y flwyddyn i ddod.

Adroddiad atebolrwydd

3 Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

3.1 Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a rhwyng wyth a 10 aelod. Ei rôl yw:

- rhoi arweiniad effeithiol i Cymwysterau Cymru - gan ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a gosod amcanion;
- rhoi arweiniad effeithiol ar gyfer gweithredu'r sefydliad - gan ddwyn y Prif Weithredwr i gyfrif am sicrhau bod gweithgareddau Cymwysterau Cymru yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol;
- monitro perfformiad er mwyn sicrhau bod Cymwysterau Cymru yn cyflawni ei nodau, ei amcanion a'i dargedau perfformiad yn llawn; a
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian.

Roedd trosiant sylweddol o aelodau'r Bwrdd yn 2021-2022, gyda 5 aelod yn gadael y Bwrdd a 7 yn ymgymryd â'u swyddi yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

Yn ystod 2021-22, roedd y Bwrdd yn cynnwys yr aelodau canlynol:



David Jones
OBE DL
(Cadeirydd)



Philip Blaker
(Prif Weithredwr)



Douglas Blackstock
Dechrau 15/06/21



Julie Brannan
Dechrau 01/09/21



Hannah Burch
Dechrau 01/04/21



Dr Caroline Burt
Gadael 14/06/21



Ellen Donovan
Gadael 09/06/21



Anne-Marie Duffy OBE



Michael Griffiths OBE
Dechrau 15/06/21



Graham Hudson
Dechrau 15/06/21



David Jones



Professor John Latham CBE
Dechrau 07/12/21



Robert Lloyd Griffiths OBE
Gadael 06/12/21



Sharron Lusher MBE DL
Dechrau 01/04/21



Claire Morgan
Gadael 14/06/21



Isabel Nisbet
Gadael 14/06/21



Jayne Woods

Daeth Cyfnod Swydd Ellen Donovan i ben ar 9 Mehefin 2021. Daeth Cyfnod Swydd Dr Caroline Burt, Isabel Nisbet a Claire Morgan i ben ar 14 Mehefin 2021. Daeth Cyfnod Swydd Robert Lloyd Griffiths i ben ar 6 Rhagfyr 2021.


Dechreuodd Cyfnod Swydd Hannah Burch a Sharron Lusher ar 1 Ebrill 2021. Dechreuodd Douglas Blackstock, Graham Hudson a Michael Griffiths ar 14 Mehefin 2021. Dechreuodd Cyfnod Swydd Julie Brannan a John Latham ar 1 Medi 2021 a 7 Rhagfyr 2021 yn y drefn honno.

Cadeirydd Cymwysterau Cymru

Mae Cadeirydd Cymwysterau Cymru, David Jones, yn ateb i'r Senedd am ein gweithgarwch a'n hymddygiad, ac am arfer ein swyddogaethau statudol fel y'u nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi dynodi pedwar pwyllgor sy'n gyfrifol am gefnogi'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau. Dyma'r pwyllgorau:



Mae modd gweld rôl pob pwyllgor, ynghyd â phresenoldeb, yn adran y Datganiad Llywodraethu.

Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn cael ei gefnogi gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol.

Gwrthdaro buddiannau aelodau Bwrdd

Mae pob aelod o staff ac aelod Bwrdd wedi llenwi ffurflen gwrthdaro/datgan buddiannau. Mae Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi cofrestr weithredol o fuddiannau'r Bwrdd, y mae modd ei gweld [yma](#).

Mae'r holl drafodion parti perthynol wedi'u nodi ac mae modd eu gweld yn Nodyn 14 y ddogfen hon, ar dudalen 94.

Y Prif Swyddog Gweithredol a'r Swyddog Cyfrifyddu

Ac yntau'n Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, mae'r Prif Weithredwr, Philip Blaker, yn bersonol gyfrifol am:

- stiwardiaeth briodol yr arian cyhoeddus;
- gweithrediadau a rheolaeth Cymwysterau Cymru o ddydd i ddydd; a
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol sawl atebolrwydd uniongyrchol i Fwrdd Cymwysterau Cymru, yn ogystal â gweithredu fel Prif Swyddog ar gyfer achosion ombwdsmon. Mae modd gweld mwy o fanylion am yr agweddau hyn ar y rôl yn *Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru*, y mae modd ei gweld [yma](#).

Mae tîm **Gweithredol** Cymwysterau Cymru yn cynnwys:



Philip Blaker
Prif Weithredwr



Alison Standfast,
Cyfarwyddwr
Gweithredol,
Adnoddau
Corfforaethol



Jo Richards,
Cyfarwyddwr
Gweithredol,
Rheoleiddio

Mae'r **Bwrdd Rheoli**, gan gynnwys y Cyfarwyddwyr Polisi a Diwygio Cymwysterau, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol a'r Pennaeth Cyllid, cefnogi'r Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol ehangach wrth arfer eu cyfrifoldebau.

Y Bwrdd Rheoli yw'r prif grŵp gwneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfer y sefydliad, gan roi cyfarwyddyd ar weithgarwch gweithredol a materion corfforaethol. Rôl a phwrpas y Bwrdd Rheoli yw:

- bod yn brif grŵp gwneud penderfyniadau ar gyfer materion a ddirprwyir gan y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar faterion gweithredol;
- sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a pholisi perthnasol y sector cyhoeddus;
- sefydlu pob grŵp gwneud penderfyniadau gweithredol a dirprwyo cyfrifoldebau iddynt, fel y bo'n briodol;

- lle y bo'n briodol, gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer y Bwrdd;
- cynnig strategaeth a pholisïau perthnasol i'r Bwrdd;
- cymeradwyo strategaethau a pholisïau lle nad ydynt wedi'u cadw gan y Bwrdd;
- rheoli risg gorfforaethol o fewn parodrwydd y Bwrdd i dderbyn risg;
- cyflawni'r Blaenoriaethau Gweithredol;
- rheoli adnoddau corfforaethol; a
- chydlynu gweithgarwch ar draws y sefydliad.

3.2 Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 32 a 33 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, mae Gweinidogion Cymru, gyda chydysyniad y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Cymwysterau Cymru i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ein datganiad o gyfrif ar ffurf a sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Caiff y cyfrifon eu paratoi ar sail cronïadau, a rhaid iddyn nhw roi darlun cywir a theg o sefyllfa Cymwysterau Cymru a'i alldro adnoddau net, cymhwyso adnoddau, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, ac yn benodol:

- cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys fel sy'n cael eu nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i weithredu.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Gweinidogion Cymru wedi fy nynodi i, yn Brif Weithredwr, yn Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau Cymwysterau Cymru, ac fe'u nodir ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifyddu, y Ddogfen Fframwaith a *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

Wrth gynhyrchu'r cyfrifon hyn, rwyf wedi ystyried sylwadau a sicrwydd gan Fwrdd Rheoli Cymwysterau Cymru, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, archwilwyr mewnlol ac aelodau o'r tîm staff ehangach.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau:

- bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd ar gyfer y cyfnod rhwyng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol;
- cymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn rhesymol;
- hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Llofnod Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022
---------------------------------	--

3.3 Datganiad Llywodraethu

Cyflwyniad a chwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn nodi disgrifiad o strwythur llywodraethu corfforaethol Cymwysterau Cymru, ynghyd â throsolwg o'r trefniadau rheoli risg a disgrifiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad.

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Cymwysterau Cymru yn ystod y cyfnod.

Nodir fy nynodiad yn Swyddog Cyfrifyddu yn y llythyr dynodi a anfonwyd ar ran y Prif Swyddog Cyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru. Nodir fy nghyfrifoldebau llawn yn Swyddog Cyfrifyddu yn Nogfen Fframwaith Cymwysterau Cymru.

Llywodraethu corfforaethol

Llywodraethu corfforaethol yw'r system lle caiff gwaith y sefydliad ei gyfarwyddo a'i reoli. Yr un mor bwysig, mae llywodraethu'n ymwneud â 'sut' y gwneir busnes, a'r ffordd y gwneir penderfyniadau. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol yn cael ei chynnal i gefnogi'r gwaith o gyflawni polisiau, nodau ac amcanion ac am adolygu effeithiolrwydd y system yn rheolaidd.

Mae Bwrdd Cymwysterau Cymru yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i'r sefydliad. Mae ganddo rôl allweddol o ran sicrhau bod gan y sefydliad strwythur llywodraethu cadarn a phriodol ar waith sy'n caniatáu i'r Bwrdd graffu ar berfformiad y tîm Gweithredol, ac felly'r modd y mae'r sefydliad yn cyflawni ei brif nodau a'i gynllun busnes.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, y Prif Weithredwr a rhwyng wyth a deng aelod arall, y penodir pob un ohonynt (ac eithrio'r Prif Weithredwr) gan Weinidogion Cymru.

Fframwaith llywodraethu

Rydyn ni'n defnyddio *Corporate Governance in Central Government Departments* (2017) fel ein prif bwynt cyfeirio ar gyfer arfer da ym maes llywodraethu. A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi adolygu'r Cod ac wedi rhoi trosolwg, o fewn y datganiad llywodraethu, o sut rwy'n credu ein bod yn cydymffurfio â'r cod hwn.

Trosolwg o fframwaith llywodraethu Cymwysterau Cymru

Mae'r Bwrdd a'i bedwar pwyllgor wedi gweithredu ers sefydlu Cymwysterau Cymru. Mae gan y pwyllgorau rolau allweddol mewn perthynas â'r system lywodraethu a sicrwydd, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol a monitro perfformiad hefyd. Caiff pob pwyllgor ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd, ei mynychir gan aelodau perthnasol o'r tîm Gweithredol a'i wasanaethu gan y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol. Mae pob pwyllgor yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd, gyda phob cofnod ar gael i holl aelodau'r Bwrdd. Isod ceir trosolwg o weithgarwch y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

Y Bwrdd

Cafodd y Bwrdd chwe chyfarfod rheolaidd yn ystod y cyfnod (Mai, Gorffennaf, Medi, Tachwedd, Ionawr a Mawrth) ynghyd ag un cyfarfod eithriadol o'r Bwrdd ar ddechrau mis Mawrth 2022. Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd ar gael drwy wefan Cymwysterau Cymru pan fyddan nhw wedi'u cymeradwyo. Yn ystod 2021-22 ymunodd pum aelod newydd â'r Bwrdd, a darparwyd cyfnod ymsefydlu helaeth ar eu cyfer. Cafodd nifer o sesiynau briffio eu cynnal ar gyfer aelodau'r Bwrdd hefyd drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Roedd y penderfyniadau allweddol a wnaeth y Bwrdd yn ystod y cyfnod yn cynnwys y canlynol:

- cymeradwyo Cynllun Busnes 2021-22, dyrannu cyllidebau a lefelau adnoddau staffio;
- cymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb Blynyddol, Adroddiad Cynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg ac Adroddiad Cynnydd Cenedlaethau'r Dyfodol;
- cymeradwyo cynnydd o chwech yn nifer y staff parhaol;
- cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021;
- cymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Medi 2020 a 31 Awst 2021;
- cymeradwyo penderfyniadau'r sefydliad mewn perthynas â'r diwygiadau i gymwysterau sy'n deillio o'r prosiect Cymwys ar gyfer y Dyfodol, yn dilyn y broses ymgynghori a gafodd ei chynnal y flwyddyn flaenorol;
- cymeradwyo Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y cyfnod 2022 - 2024;
- cymeradwyo Naratif Sefydliadol Cymwysterau Cymru;
- ystyried yr opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â cholled wahaniaethol mewn dysgu wrth ddyfarnu cymwysterau yn haf 2022, a dod i'r casgliad nad oedd unrhyw opsiynau teg y gallen ni fod wedi eu dilyn i fynd i'r afael â hyn;
- cytuno ar gyfranogiad y Bwrdd yn y prosiect 'Llwybr i'r Bwrdd'.
- adolygu a chymeradwyo awydd y Bwrdd i fentro a chrynodeb naratif cysylltiedig.

Yn rhai o'i gyfarfodydd (lle bo'n briodol), cafodd neu ystyriodd y Bwrdd hefyd:

- diweddariadau gan y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd;
- y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y prosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol;
- diweddariadau ar y trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 a 2022;
- diweddariadau ar les staff yn ystod pandemig COVID-19 a gweithio o bell;
- adroddiadau rheoli risg a chofrestri risg;
- monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol a gweithgarwch ariannol;
- diweddariadau gan bob un o'i bwyllgorau;
- adroddiad ar ganlyniadau arolwg staff 2021;
- cyflwyniad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

Caiff unrhyw drafodaethau a phenderfyniadau cyn-bwyllgor eu cofnodi ym mhapurau'r Bwrdd a'r cofnodion perthnasol.

Cynhaliodd y Bwrdd ddau ddiwrnod datblygu ym mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, a oedd yn cynnwys siaradwyr allanol o CBAC a Llywodraeth Cymru ac a roddodd gyfle i'r Bwrdd fyfyrion ar ddigwyddiadau a chyfleoedd dysgu diweddar, yn ogystal ag ystyried ei strategaeth ar gyfer y dyfodol.

Cafodd aelodau o dîm noddî Llywodraeth Cymru gyfle i arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn cefnogi'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr) drwy adolygu ehangder a dibynadwyedd sicrwydd ynghylch llywodraethu, rheoli risg, yr amgylchedd rheoli, uniondeb datganiadau ariannol a'r cyfrifon blynyddol. Mater i'r Bwrdd yw diffinio a chyfleu parodrwydd y sefydliad i dderbyn risg.

Y Bwrdd sy'n atebol am reoli risg a rheolaeth fewnol. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'r meysydd hyn wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae modd gweld cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ein [gwefan](#).

Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg gyfarfod bedair gwaith yn ystod y cyfnod (Mai, Gorffennaf, Tachwedd a Chwefror). Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn wedi'u darparu i'r Bwrdd. Mae ein harchwilwyr mewnol ac allanol hefyd yn mynychu'r pwyllgor hwn.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r pwyllgor wedi:

- adolygu'r cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2020-21 a rhoi adroddiad sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifyddu;
- adolygu'r holl adroddiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod;
- goruchwylio'r gwaith o fonitro'r holl argymhellion archwilio mewnol;
- cael diweddariadau technegol gan swyddogion, archwilwyr mewnol ac allanol;
- ystyried llythyrau 'Annwyl Swyddog Cyfrifyddu' Llywodraeth Cymru;
- adolygu adroddiadau mewn perthynas â thwyll, llwgrwobrwyo, rhoddion a rheoli lletygarwch;
- derbyn adroddiadau rheoli risg, adolygu agweddau perthnasol ar y gofrestr risg gorfforaethol a chynnal rhaniad dwfn i Mewn i Cymwys ar gyfer y Dyfodol;
- cael diweddariadau diogelwch gwybodaeth drwy gydol y flwyddyn;
- cael adroddiadau diweddar ariannol drwy gydol y flwyddyn a chraffu ar y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer rheoli a rhagweld cyllidebau;
- derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r system gyllid newydd;
- derbyn adroddiad ar y gwaith a wnaed i integreiddio dewisiadau'r Gymraeg;
- cael adroddiadau ar unrhyw wyriadau oddi wrth y gweithdrefnau caffael; ac
- ystyried ei amserlen o gyfarfodydd yn y dyfodol.

Ni chodwyd unrhyw bryderon i'r Bwrdd.

Pwyllgor Adnoddau

Mae'r pwyllgor hwn yn darparu amgylchedd ar gyfer trafodaeth fanwl ar faterion ariannol a chynllunio busnes, a nifer o feysydd adnoddau dynol. Dirprwywyd yr awdurdod i'r pwyllgor hefyd gymeradwyo polisiâu Adnoddau Dynol ar ran y Bwrdd. Mae crynodeb o'i gylch gorchwyl ar gael ar ein [gwefan](#).

Y Bwrdd sy'n atebol am strategaeth a pholisiâu ariannol y sefydliad; y Prif Weithredwr a'r tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am reoli cyllid o fewn y paramedrau hyn.

Fe wnaeth y Pwyllgor Adnoddau gyfarfod deirgwaith yn ystod y cyfnod (Gorffennaf, Hydref a Mawrth) a chafodd adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn eu darparu i'r Bwrdd.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgor Adnoddau wedi:

- adolygu adroddiad cynnydd chwarterol 2021-22 ar y cynllun gweithredol a'r sefyllfa ariannol;
- adolygu cynllun gweithredol a chyllideb drafft 2022-23;
- adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolog;
- cael diweddariadau Adnoddau Dynol yn cwmpasu adnoddau, dysgu a datblygu, ystadegau absenoldeb, a lles;
- cynnal archwiliadau risg dwfn i oblygiadau'r prosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol o ran adnoddau a ffyrdd o weithio yn y dyfodol sy'n deillio o brofiadau'r pandemig;
- adolygu a chymeradwyo'r Polisi Gweithio Hybrid a Gartref diwygiedig;
- derbyn manylion yr ad-drefnu swyddfeydd arfaethedig er mwyn caniatáu ar gyfer ffyrdd newydd o weithio ar ôl y pandemig.

Pwyllgor Rheoleiddio

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion i'r Bwrdd ar faterion sy'n codi o ddull rheoleiddio Cymwysterau Cymru. Dirprwywyd y Pwyllgor gan y Bwrdd i gymeradwyo Polisiâu Rheoleiddio. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor ar gael ar ein [gwefan](#).

Fe wnaeth y Pwyllgor Rheoleiddio gyfarfod unwaith yn ystod 2021-22, ym mis Ionawr 2022. Oherwydd effaith sylweddol pandemig COVID-19 yn ystod 2021-22 a natur y penderfyniadau oedd yn cael eu gwneud, cymerodd y Bwrdd oruchwyliaeth o weithgarwch rheoleiddiol yn ystod y cyfnod hwn, ac o ganlyniad nid oedd yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd. Yn ystod y cyfnod hwn, ystyriodd y pwyllgor y canlynol:

- Cymwysterau Cyffredinol haf 22 – risgiau o ran cyflawni a dyfarnu;
- Fframweithiau rheoleiddio a dulliau monitro Cymwysterau Cyffredinol/Galwedigaethol haf 22;
- Dull dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol haf 22;
- Cymwysterau Blaenoriaethol a Chymwysterau Nad ydynt yn Flaenoriaeth;
- Yr Adroddiad Rheoli Risg Rheoleiddiol.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Diben y pwyllgor hwn yw ystyried a darparu argymhellion ar dâl cydnabyddiaeth staff ac aelodau'r Bwrdd. Dirprwywyd y Pwyllgor gan y Bwrdd i gymeradwyo'r Polisi Talu. Rhaid i Weinidogion Cymru gytuno ar unrhyw newidiadau sylweddol i delerau ac amodau. Mae crynodeb o gylch gorchwyl y Pwyllgor ar gael ar ein [gwefan](#).

Fe wnaeth y pwyllgor gyfarfod unwaith yn ystod 2021-22, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bu'r pwyllgor yn ystyried:

- Cynllunio Olyniaeth ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol;
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ddyfarniad cyflog y Bwrdd Gweithredol;

- Diweddariad i'r Polisi Cyflog.

Adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd y Bwrdd

Cafodd adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd ar gyfer 2018-19 ei gynnal gan Carter Corson, ac fe wnaeth y Bwrdd ystyried y casgliadau a chynllun gweithredu ym mis Mai 2019.

Mae disgwyl i'r adolygiad ffurfiol nesaf o effeithiolrwydd y Bwrdd gael ei gynnal yn ystod haf 2022, a fydd yn galluogi aelodau newydd y Bwrdd a benodwyd yn ystod 2021-22 i gael digon o brofiad fel aelodau'r Bwrdd i gyfrannu'n effeithiol at yr adolygiad.

Yn ystod 2021-22 fe wnaeth y Cadeirydd gyfarfod â phob aelod o'r Bwrdd ar wahân yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i gynnal adolygiadau perfformiad a gwrandao ar adborth. Casglodd y Cadeirydd yr adborth hwn mewn adroddiad gydag awgrymiadau o welliannau i'r ffordd y mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu trefnu a'r cymorth a gaiff eu rhoi i aelodau'r Bwrdd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Roedd angen diffinio'r protocolau a'r arferion sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd hybrid y Bwrdd er mwyn sicrhau bod pob aelod yn teimlo ei fod yn gallu cyfrannu'n effeithiol;
- Roedd adroddiadau weithiau'n rhy hir at ddibenion y Bwrdd;
- Byddai cyflwyno papurau byrrach yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn caniatáu mwy o amser ar gyfer mwy o drafod a myfyrio;
- Lleihau nifer y penderfyniadau a gaiff eu gwneud cyn-bwyllgor a fu'n angenrheidiol yn ystod y pandemig, yn enwedig o ran materion rheoleiddio;
- Ystyried gwelliannau i'r dogfennau a gaiff eu defnyddio gan aelodau'r Bwrdd i gynnal yr adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd.

Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cyhoeddwyd nodyn cyfarwyddyd i aelodau'r Bwrdd yn nodi sut y byddai cyfarfodydd hybrid yn cael eu cynnal a gwnaed ymdrechion i sicrhau bod y rhai sy'n ymuno o bell yn teimlo'n rhan gyfartal o'r cyfarfod; gwnaed adroddiadau'n fwy cryno, a chafodd papurau eu byrhau, a oedd yn caniatáu mwy o amser mewn cyfarfodydd i'w trafod a'u myfyrio'n ehangach; gostyngwyd nifer y penderfyniadau a wnaed cyn-bwyllgor ac ailddechreuodd cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoleiddio. Bydd y dogfennau a ddefnyddir gan aelodau'r Bwrdd ar gyfer yr adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd yn cael eu hadolygu yn ystod haf 2022.

Adolygiad y Cadeirydd – Yn ystod blwyddyn anodd oherwydd y pandemig, cynhaliwyd llawer o gyfarfodydd ychwanegol gyda'r Gweinidog Addysg, a fynychwyd gan y Cadeirydd, y Prif Swyddog Gweithredol a'r uwch reolwyr perthnasol. Cynhaliodd y Gweinidog adolygiad o berfformiad y Cadeirydd ym mis Ionawr 2022. Arweiniodd dau aelod o'r Bwrdd hefyd adolygiad perfformiad y Bwrdd o'r Cadeirydd, yn cwmpasu'r cyfnod Rhagfyr 2020 i Dachwedd 2021. Defnyddiodd hwn adborth gan holl aelodau'r Bwrdd a'r Bwrdd Gweithredol.

Dysgu a datblygu – Mae aelodau'r Bwrdd yn cael cyfle i nodi a gofyn am hyfforddiant unigol neu grŵp. Roedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd gan aelodau'r Bwrdd yn cynnwys:

- Diogelwch Gwybodaeth;
- Dod yn Gyfarwyddwr Anweithredol effeithiol (ar gyfer aelodau newydd o'r Bwrdd)

- Creu Newid Ymarferol yn y Gweithle (oedd yn cael ei redeg gan Stonewall);
- Hyfforddiant gloywi cydraddoldeb;
- Ymwybyddiaeth Gyfreithiol ar gyfer Rheolyddion;
- Tegwch wrth asesu.

Presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau (1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022)

	Bwrdd	Cyfarfod Bwrdd Anghyffredin	Pwyllgor Archwilio a Risg	Pwyllgor Rheoleiddio	Pwyllgor Adnoddau	Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth
Nifer y Cyfarfodydd a gynhaliwyd	6	1	4	1	3	1
Enw Aelod Bwrdd	Presenoldeb					
David Jones OBE DL (Cadeirydd)	6	1	(2)	1	1	1
Philip Blaker (Prif Weithredwr)	6	1	(4)	1	3	0
Douglas Blackstock ²	3 (1)	1	3	1	0	0
Julie Brannan ³	4	1	0	1	0	0
Hannah Burch	6	1	0	0	3	0
Caroline Burt ⁴	1	0	1	0	0	0
Ellen Donovan ⁵	1	0	0	0	0	0
Anne Marie Duffy OBE	5	1	0	1	0	1
Michael Griffiths ⁶	6	1	0	0	3	1
Graham Hudson ⁷	5 (1)	1	0	1	1	0
David W Jones	4	1	3	0	0	0
Yr Athro John Latham CBE ⁸	2	0	1	0	0	0
Robert Lloyd Griffiths ⁹	4	0	0	0	2	0
Sharron Lusher MBE DL	6	1	0	0	3	0
Claire Morgan ¹⁰	1	0	0	0	0	0
Isabel Nisbet ¹¹	1	0	1	0	0	0
Jayne Woods	6	1	4	0	(1)	1

Mae () yn dynodi presenoldeb, ond nid fel aelod

Y system rheolaeth fewnol

² Dechreuodd ei Gyfnod yn y Swydd 15 Mehefin 2021

³ Dechreuodd ei Chyfnod yn y Swydd 1 Medi 2021

⁴ Daeth ei Chyfnod yn y Swydd i ben 14 Mehefin 2021

⁵ Daeth ei Chyfnod yn y Swydd i ben 9 Mehefin 2021

⁶ Dechreuodd ei Gyfnod yn y Swydd 15 Mehefin 2021

⁷ Dechreuodd ei Gyfnod yn y Swydd 15 Mehefin 2021

⁸ Dechreuodd ei Gyfnod yn y Swydd 7 Rhagfyr 2021

⁹ Daeth ei Gyfnod yn y Swydd i ben 6 Rhagfyr 2021

¹⁰ Daeth ei Chyfnod yn y Swydd i ben 14 Mehefin 2021

¹¹ Daeth ei Chyfnod yn y Swydd i ben 14 Mehefin 2021

Cynlluniwyd ein system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol, yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisiau, y nodau a'r amcanion, i werthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Wrth wneud hynny, caf fy hysbysu gan waith yr archwilwyr mewnol, Archwilio Cymru a Chyfarwyddwyr y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.

Archwiliad Mewnol

Rydyn ni'n trefnu ein gwasanaethau archwilio mewnol drwy gontract allanol ac wedi penodi TIAA, drwy dendr cystadleuol, yn archwilwyr mewnol i ni.

Yn ystod 2021-22, mae pum archwiliad mewnol wedi'u gwblhau ynghyd ag Adolygiad Dilynol blynyddol sy'n sefydlu'r camau rheoli a gymerwyd mewn perthynas â'r argymhellion sy'n deillio o'r adolygiadau archwilio mewnol.

Roedd yr Archwiliadau ar gyfer 2021-22 fel a ganlyn:

Enw'r archwiliad	Sgôr sicrwydd	Nifer yr argymhellion
Rheoli Polisiau Rheoleiddiol	Sylweddol	2
Adolygiad Cydymffurfio o Reolaethau Ariannol Allweddol - Cyfrifyfr Cyffredinol, Taliadau Credydwyd ac Asedau Sefydlog a Stocrestrau	Sylweddol	0
Rheoli Risg – Dychwelyd i Weithio ar y Safle Rhan 1	Rhesymol	7
Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol	Sylweddol	1
Rheoli Apeliadau a Chwynion	Sylweddol	1
Adolygiad Dilynol o Gamau Gweithredu	Amherthnasol	Amherthnasol

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi goruchwyllo'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r adroddiadau archwilio a bydd yn parhau i fonitro'r broses o weithredu argymhellion a godwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r argymhellion a godwyd:

Argymhellion a godwyd	Blaenoriaeth			
	Uchel	Canolig	Isel	Cyfanswm
Argymhellion a godwyd yn 2017-18	0	3	13	16
Argymhellion a godwyd yn 2018-19	0	4	18	22
Argymhellion a godwyd yn 2019-20	5	1	19	25
Argymhellion a godwyd yn 2020-21	0	2	5	7

Argymhellion a godwyd yn 2021-22	0	3	8	11
Cyfanswm	5	13	63	81

Defnyddir system fonitro ac olrhain i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Adolygodd TIAA, ein harchwilwyr mewnol, yr argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hefyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a rhoi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg ar statws argymhellion ar ddiwedd y flwyddyn gyfrifo:

Blaenoriaeth	Argymhellion			Statws				
	Dygwyd ymlaen o 2020-21	Codwyd yn 2021-22	Cyfanswm	Gweithredwyd yn 2021/22	Hwyr	Heb fod yn ofynnol eto	Heb ei gweithredu	Wedi'i chario ymlaen
Brys	0	0	0	0	0	0	0	0
Pwysig	2	3	5	5	0	0	0	0
Rheolaidd	5	8	13	12	0	1	0	1
Cyfanswm	7	11	18	17	0	1	0	1

Ar 31 Mawrth 2022, cafodd 1 argymhelliad ei ddwyn ymlaen, yn ymwneud â chwblhau ymarfer gwersi a ddysgwyd ar y broses apelio ar gyfer 2021.

Caiff holl argymhellion yr archwiliad mewnol eu tracio a'u hadrodd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

Diben barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yw cyfrannu at y sicrwydd sydd ar gael i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd, sy'n sail i aseciad y Bwrdd ei hun o effeithiolrwydd y system ar reolaeth fewnol. Darperir yr adroddiad isod gan ein Pennaeth Archwilio Mewnol o TIAA.

Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol

BARN FLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Cymwysterau Cymru brosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu rhesymol ac effeithiol ar waith.

Mae'r farn hon wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y materion a ddaeth i sylw TIAA yn ystod yr adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac nid yw'n farn am bob elfen o'r prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu na'r hyfywedd ariannol parhaus na'ch gallu i gyflawni rhwymedigaethau ariannol y mae'n rhaid i Cymwysterau Cymru eu cael o'i wahanol ffynonellau sicrwydd.

Crynodeb Archwilio

Gwendidau rheoli: Nid oedd unrhyw feysydd a adolygwyd gan yr archwiliad mewnol lle yr aseswyd bod effeithiolrwydd rhai o'r trefniadau rheolaeth fewnol yn rhoi 'ychydig iawn o sicrwydd' neu 'dim sicrwydd'.

Argymhellion a Wnaed: Rydyn ni wedi dadansoddi ein canfyddiadau/argymhellion yn ôl maes risg, ac mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Maes Risg	Brys	Pwysig	Rheolaidd
Cyfarwyddwyd			
Fframwaith Llywodraethu	0	1	6
Lliniaru Risg	0	0	0
Cydymffurfio	0	2	1
Cyflenwi			
Monitro Perfformiad	0	0	0
Cyfyngiad Ariannol	0	0	0
Cydnorthedd	0	0	1

Cyfleoedd Effeithiolrwydd Gweithredol: Un o rolau archwilio mewnol yw ychwanegu gwerth, ac yn ystod y flwyddyn ariannol, gwnaethom roi cyngor ar gyfleoedd i wella effeithiolrwydd gweithredol y meysydd a adolygwyd ac mae nifer y cyfleoedd hyn wedi'u crynhoi isod.

Gweithredol
4

Annibyniaeth a Gwrthrychedd Archwilio Mewnol

Ni chyfyngwyd o gwbl ar y gwasanaeth archwilio mewnol mewn modd a oedd yn amharu ar annibyniaeth neu wrthrychedd y gwasanaeth a ddarperir.

TIAA – Mai 2022

Fframwaith rheoli risg

Y Bwrdd sy'n bennaf atebol am reoli risg y sefydliad, ac mae risg ymhlith yr eitemau sefydlog ar yr agenda ym mhob Bwrdd. Mae hyn yn cynnwys yr holl risgiau ar y gofrestr risg strategol gyda sgôr risg gweddilliol o 12 neu'n uwch. Cefnogir y Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARAC), sy'n gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd ar ddull y sefydliad o reoli risg a bodloni ei hun ar y ffordd y rheolir risg o fewn y sefydliad. Mae rheoli risg hefyd ymhlith eitemau sefydlog agenda ARAC yn rhan o'i fusnes craidd.

Adolygodd y Bwrdd ei awydd i fentro yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2021. Ystyriodd yr effaith bosibl (pe bai'r risgiau'n cael eu gwireddu) ar ddysgwyr, y sefydliad, ei enw da, a'i berthynas â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r risg o ymglyfreitha a chost bosibl camau unioni wrth bennu ei awydd i fentro. Mae awydd y Bwrdd i fentro yn adlewyrchu gwahanol agweddau ar y sefydliad a dywedir ei fod yn darparu fframwaith i arwain y Bwrdd Gweithredol a gweithwyr o ran sut y dylent ddatblygu opsiynau, ystyried lliniaru risg neu wneud penderfyniadau dirprwyedig. Nid yw'n golygu unrhyw gyfaddawd i wneud penderfyniadau'n iawn drwy'r llywodraethu priodol gan roi ystyriaeth lawn i'r opsiynau a'r asesiadau effaith neu'r risgiau dan sylw, ac nid yw ychwaith yn awgrymu unrhyw ragdybiaeth ynghylch y penderfyniadau a wneir. O ystyried natur ein gwaith, yn gyffredinol, mae gan y Bwrdd awydd isel i fentro ond mae'n derbyn bod angen goddef a rheoli rhywfaint o risg mewn ardaloedd penodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- fel rhan o waith diwygio cymwysterau, awydd uchel i fentro defnyddio technoleg ddigidol i wella neu ddatblygu prosesau asesu neu ddyfarnu;
- awydd cymedrol i fentro o ran adnoddau, perthnasoedd / canfyddiad y cyhoedd a gweithrediad y farchnad gymwysterau yn ei chyfanrwydd,

Datblygodd y Bwrdd hefyd naratif awydd i fentro i roi mwy o eglurder i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer rheoli risg.

Mae'r tîm Gweithredol, drwy'r Bwrdd Rheoli a'i strwythurau llywodraethu sylfaenol, yn gyfrifol am gynnal y cofrestrau risg a'r cofrestrau risg tîm/prosiect ategol. Cyflwynwyd adroddiadau risg a chofrestrau i gyfarfodydd y byrddau hyn ar gyfer trafodaeth, adolygu a/neu wybodaeth.

Mae pwyllgorau'r Bwrdd wrthi'n trafod risg ac yn adolygu cofrestri risg perthnasol fel a ganlyn:

- Mae ARAC yn adolygu'r risgiau corfforaethol a chyfathrebu;
- Y Pwyllgor Rheoleiddio sy'n adolygu'r risgiau rheoleiddiol.

Rôl y pwyllgorau yw darparu cefnogaeth a her i'r tîm Gweithredol. Mae gan bwyllgorau rôl hefyd i roi sicrwydd i'r Bwrdd fod risg yn cael ei hystyried yn weithredol mewn trafodaethau pwyllgor a'i rheoli'n briodol.

O ganlyniad i bandemig Covid-19, yn ystod 2021-22 mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd, cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfodydd rheoli wedi'u cynnal yn rhithwir, gyda phapurau electronig. Ni fu cyfaddawd i'r llywodraethu a'r rheolaethau sefydledig, ac mae'r sefydliad wedi parhau i weithredu'n effeithiol. Gan fod cyfyngiadau wedi'u codi, rydyn ni wedi dechrau ailagor ein swyddfa'n araf gyda gofyn i staff fynychu'n wirfoddol, ac mae nifer fach o gyfarfodydd hybrid wedi'u cynnal lle gwelwyd y canllawiau perthnasol mewn perthynas â chadw pellter cymdeithasol.

Y Gofrestr Risg

Yn ystod 2021-22 creodd Cymwysterau Cymru broses newydd ar gyfer rheoli risg, a chrëwyd cofrestr risg strategol newydd gyda risgiau'n cael eu categoreiddio o dan y penawdau canlynol:

- Diwygio
- Rheoleiddio
- Corfforaethol
- Cyfathrebu

Yn ogystal â'r uchod, roedd Bwrdd Rheoli Haf 2021 (S21) ar wahân hefyd a oedd â'i gofrestr risg ei hun. Roedd hwn yn strwythur llywodraethu dros dro a ddaeth i ben ar ôl i ddyfarniadau Haf 2021 gael eu gwneud, gydag unrhyw risgiau oedd yn weddill wedi eu cynnwys yn y brif gofrestr risg strategol.

Yn gyffredinol, mae'r proffil risg wedi gostwng ychydig ers 2020-21, er ei fod ar lefel uwch nag yr oedd cyn y pandemig. Mae'r lefel yma o risg yn debygol o barhau wrth i ni lywio drwy'r hinsawdd addysg sensitif ac ansicr er mwyn sicrhau bod cymwysterau'n cael eu dyfarnu'n effeithiol ar gyfer haf 2021 a thu hwnt. Mae risgiau mwy hirdymor i'w hystyried hefyd, wrth inni ddeall yn well effaith y mesurau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig ar ganfyddiadau a hyder y cyhoedd. Gall risgiau sy'n gysylltiedig â chyflwyno diwygiadau i gymwysterau gynyddu yn y dyfodol wrth i effaith y pwysau amser ddod yn gliriach.

Caiff yr holl risgiau eu hystyried yn rheolaidd a'u hadolygu yn unol â pharodrwydd presennol y Bwrdd i dderbyn risg. Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am bob risg sydd â sgôr weddilliol o 12 neu uwch, ac ar 31 Mawrth 2022 roedd 27 o risgiau o'r fath: 7 risg diwygio; 10 risgiau rheoleiddio; 6 risg gorfforaethol; a 4 risg cyfathrebu.

Caffael a gwyro oddi wrth weithdrefnau caffael

Mae ein Polisi Caffael a gyhoeddwyd yn cydreddeg â Datganiad Polisi Caffael Cymru, ac felly rydyn ni'n hysbysebu cyfleoedd yn agored dros £30k (gan gynnwys TAW) ar GwerthwchiGymru ac yn ystyried sut i sicrhau bod ein cyfleoedd ar gael i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh) dendro'n llwyddiannus.

Caiff ein Polisi Caffael ei gyflawni drwy ein Strategaeth Gaffael a'i gefnogi gan weithdrefnau tendro a dyfynbris, lle mae pob aelod newydd o staff wedi cael hyfforddiant fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Mae ein gweithdrefnau'n ei gwneud yn ofynnol (oni bai ein bod yn defnyddio contractau presennol neu gytundebau fframwaith cydweithredol fel y rhai a osodir gan Dîm Cyflawni Masnachol Llywodraeth Cymru):

- cael tri dyfynbris ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng £6,000 a £29,999;
- cyhoeddi gwahoddiad i dendro am nwyddau a gwasanaethau dros £30,000 ac islaw trothwy'r GPA ar GwerthwchiGymru; a
- cyhoeddi hysbysiad ar 'Canfod Tendr' ar gyfer tendrau dros drothwy'r GPA.

Mae proses ymadael ar waith i ganiatáu rheoli unrhyw wyriad o'r gweithdrefnau caffael hyn yn effeithiol. Gan amlaf, dim ond ar ôl ceisio tendrau/dyfyndrisiau cystadleuol y prynir nwyddau a gwasanaethau, yn dilyn cyngor gan y Tîm Caffael. Mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hyn yn bosibl. Pan fydd amgylchiadau felly'n codi, rhaid rhoi cymeradwyaeth y Prif Weithredwr.

Er mwyn darparu cyfiawnhad priodol, mae'r templed 'Cais am gymeradwyaeth i wyro oddi wrth weithdrefnau caffael' wedi'i gwblhau. Mae'r cais wedi'i gofnodi ar y gofrestr dyfyndris/tendr.

Mae'r Pennaeth Caffael yn adolygu'r cais ac os gellir cyfiawnhau'r cais, bydd yn ei anfon at y Prif Weithredwr i'w gymeradwyo. Ar gyfer pob contract, gan gynnwys y rhai sy'n deillio o ymadawiad, lle mae'r gwerth yn uwch na'r trothwy ar gyfer Cytundeb Caffael Llywodraeth Sefydliad Masnach y Byd (WTO GPA), rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Bwrdd ar gyfer y gwariant cyn dechrau gweithgarwch caffael.

Adroddir ar unrhyw wyriadau i'r Bwrdd Rheoli mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Yn ystod y cyfnod rhwyng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, cymeradwywyd dau ymadawiad, gyda gwerth cyfunol o £8,120.40. Roedd y rhain yn ymwneud â gwasanaethau ychwanegol gan gyflenwr yn darparu fersiynau 'darllen cyflym' o adroddiadau yn ymwneud â'n prosiect Cymwys ar gyfer y dyfodol, a chontract interim (wrth i ni ail-dendro) ar gyfer gwasanaethau ôl-daliad a diogelwch lle na chawsom unrhyw geisiadau y gellir eu penodi yn dilyn proses dendro agored.

Llywodraethu gwybodaeth

Mae gennym Bolisi Diogelwch Gwybodaeth sy'n nodi rolau a chyfrifoldebau'r holl gyflogaeion mewn perthynas â Thechnoleg Gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth. Cefnogir y polisi gan nifer o ddogfennau cyfarwyddyd, gan gynnwys Canllawiau Dosbarthu Gwybodaeth a Thrin Gwybodaeth.

Y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Corfforaethol yw'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO), ac mae'n atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd am lywodraethu gwybodaeth a data. Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am ddatblygu, cynnal a gweithredu polisiau TG perthnasol, tra bod y Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am bolisiau rheoli data a cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth yw'r Swyddog Diogelu Data, ac mae'n gyfrifol am gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Rydyn ni wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydyn ni'n gwneud busnes. Mae ein Cynllun Cyhoeddiadau yn ein hymrwmo i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol benodol ar gael fel mater o drefn i'r cyhoedd ac mae ar gael ar ein [gwefan](#).

Rydyn ni wedi sefydlu datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Gwybodaeth, gan gategoreiddio data i'r meysydd canlynol, cymhwyso safle risg, nodi ein parodrwydd i dderbyn risg a gosod camau rheoli cysylltiedig:


- gwybodaeth i'r cyhoedd;
- corfforaethol mewnol;
- gwybodaeth bersonol sensitif am staff a thrydydd partion;
- QiW (ein cronfa ddata reoleiddiol); a
- chyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Pennaeth TG yn gyfrifol am adolygu ein datganiad parodwydd i dderbyn risg yn rheolaidd a chynnig diweddariadau i'r Bwrdd Rheoli.

Seiberddiogelwch

Yn y flwyddyn ariannol hon, ni chafwyd unrhyw achosion o dorri data na cholli data. Gwnaethom adnewyddu ein hachrediad Cyber Essentials Plus ym mis Ebrill 2021.

Mae'r siart isod yn crynhoi'r ymosodiadau aflwyddiannus a gafwyd dros y flwyddyn.




Ymdrechion i beryglu cyfrifon defnyddwyr gan ddefnyddio mewngofnodi heb awdurdod (dyfalu cyfrinair) yw'r math mwyaf cyffredin o ymosodiad erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r risg gyffredinol o beryglu cyfrifon yn parhau'n isel oherwydd yr amddiffyniad ychwanegol a ddarperir gan ddilysu aml-ffactor. Mae e-byst gwe-rwydo yn parhau i achosi'r risg seiber fwyaf arwyddocaol. Mae ein hidlwyr e-bost gyda diogelwch bygythiad uwch yn darparu'r llinell amddiffyn gyntaf yn erbyn gwe-rwydo. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y rôl bwysig y mae ein staff yn ei chwarae o ran lliniaru'r risg o potsian ymhellach. Rydyn ni'n rhannu ein data'n rheolaidd gyda SIRO (Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth) Llywodraeth Cymru.

Mae'r gweithgareddau eraill a wnaethom yn ystod y flwyddyn i wrthsefyll y bygythiad seiber yn cynnwys:

- monitro newidiadau i'r tirlun bygythiad o ganlyniad i ddigwyddiadau byd-eang fel y rhyfel yn Wcráin;
- gweithredu rheolaethau ychwanegol i ddiogelu dyfeisiau a rhaglenni defnyddwyr terfynol ymhellach;
- cynnal ymosodiadau gwe-rwydo misol a efelychir ar ein staff i brofi eu hymateb a'u rhybuddio am beryglon gwe-rwydo; a
- mynnu bod yr holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol parhaus ar ymwybyddiaeth diogelwch gwybodaeth.

Dangosir canlyniadau ymosodiadau gwe-rwydo ffug yn y siart isod:



Mae'r nifer cynyddol o staff nad ydynt yn ymateb yn deillio o rai efelychiadau'n cael eu hidlo allan gan reolaethau atal gwe-rwydo mwy soffistigedig sydd wedi'u cyflwyno gan Microsoft. Rydyn ni wedi diweddarau'r rheolau dargyfeirio i sicrhau bod mwy o'n hefelychiadau'n cael eu danfon i'r blwch post defnyddiwr terfynol.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Cawsom 10 o geisiadau am wybodaeth yn ystod y flwyddyn, ac ymatebwyd i 9 ohonynt yn unol â'r amserlenni priodol. Anfonwyd un cais i'r cyfeiriad e-bost anghywir ac aeth i mewn i ffolder sothach aelod o staff, ac o ganlyniad roedd yr ymateb ddau ddiwrnod yn hwyr yn cael ei anfon.

Cwynion

Cawsom dair cwyn gorfforaethol ac ymchwiliwyd iddynt. Cawsom gŵyn mewn perthynas â'n Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2020-21 nad oeddent ar gael yn Gymraeg pan gawsant eu gosod gerbron Senedd Cymru. Ni chadarnhawyd y gŵyn hon gan nad yw'n ofynnol i ni wneud hynny ac nid yw gosod dogfennau gerbron y Senedd yn fater sy'n dod o dan ein Cynllun Iaith Gymraeg. Fodd bynnag, penderfynwyd y byddwn yn y dyfodol yn anelu at osod fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cyfrifon Blynyddol gerbron y Senedd. Roedd yr ail gŵyn yn ymwneud â gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol unigolyn a oedd wedi'i gontractio i weithio i Cymwysterau Cymru drwy asiantaeth. Ni chadarnhawyd y gŵyn hon. Cafodd trydedd gŵyn mewn perthynas â chanlyniad cais a wnaed o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau 2021 ei thynnu yn ôl ar ôl trafodaeth ond adolygwyd y cwestiynau a ofynnwyd ac ymatebwyd iddynt.

Cawsom 9 o gwynion am gyrff dyfarnu. O'r rhain, roedd 1 o fewn ein cylch gwaith i ymchwilio iddo. Fe wnaethom ni gadarnhau'r gŵyn hon yn rhannol.

Cawsom 18 o geisiadau o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau, ac roedd 17 ohonynt o fewn ein cylch gwaith. Fe wnaethom ni gadarnhau 3 chais yn rhannol.

Chwythu'r chwiban

Mae gan Cymwysterau Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban, sy'n rhoi manylion i'n staff am ddiben a phroses y polisi ar gyfer codi unrhyw bryderon. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban corfforaethol yn y flwyddyn ariannol hon.

Mae gennym hefyd Weithdrefn Chwythu'r Chwiban Reoleiddiol. Ni chawsom unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban corfforaethol yn y flwyddyn ariannol hon.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Cymwysterau Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu cynaliadwy. Er nad ydym ar hyn o bryd yn destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydyn ni o'r farn bod ein rôl yn cefnogi ei phwrpas a bod ei gofynion yn gydnaws â'n ffordd o weithio.

Felly, rydyn ni wedi mabwysiadu darpariaethau'r Ddeddf i ategu'r ffordd rydyn ni'n cyflawni ein swyddogaethau. Mae'n naturiol inni weithio fel hyn, gan fod angen golwg hirdymor ar addysg o reidrwydd.

Datblygwyd amcanion llesiant gennym, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018, a gellir eu gweld ar ein [gwefan](#). Rydyn ni'n cynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol y gellir ei weld hefyd ar ein [gwefan](#).

Mae ein gwaith yn cefnogi ffyniant economaidd hirdymor yn arbennig drwy sicrhau bod cymwysterau'n addas at ddiben, a thrwy ystyried pa mor dda y maent yn diwallu anghenion cyflogwyr a sefydliadau addysg bellach ac uwch. Mae hyn yn cefnogi dilyniant academaidd a chyflogadwyedd, ac, felly, ffyniant a thwf economaidd. Mae addysg dda yn gwneud gwahaniaeth i gyfleoedd bywyd hirdymor, ac mae'n bwysig gallu dangos cyflawniad drwy gymwysterau cadarn ac ystyrlon.

Safonau'r Gymraeg

Rydyn ni'n cyfathrebu â'n rhanddeiliaid yn ddwyieithog, fel y bo'n briodol. Er nad ydyn ni eto'n destun Safonau'r Gymraeg, rydyn ni wedi dewis cyhoeddi Cynllun Iaith Gymraeg corfforaethol yn wirfoddol, y gellir ei weld ar ein [gwefan](#). Mae gennym gynllun gweithredu, ac rydyn ni wedi canolbwyntio ar sefydlu'r Cynllun drwy'r sefydliad cyfan. Gellir gweld ein hadroddiad cynnydd hefyd ar ein [gwefan](#).

Hyrwyddo a chefnogi cymwysterau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Fe wnaethon ni gyhoeddi 'Polisi Rheoleiddio cymwysterau cyfrwng Cymraeg' diwygiedig i adlewyrchu'r ymrwymadau sydd wedi'u gwneud yn ein 'Strategaeth Dewis i Bawb', a'n nod i sicrhau bod pob cymhwyster a gaiff ei ariannu'n gyhoeddus ar gyfer dysgwyr 14-16 oed ar gael yn Gymraeg a Saesneg o fis Medi 2027.

Gwnaethom ddatblygu a chyhoeddi canllaw cynhwysfawr ar gyfer pob corff dyfarnu cydnabyddedig ar ddatblygu, darparu a dyfarnu cymwysterau cyfrwng Cymraeg. Nod y canllawiau hyn yw ysgogi, annog ac amlygu arferion da yn y system. Rydyn ni'n gweithio ar ddatblygu pecyn adnoddau cynnig gweithredol ar gyfer cyrff dyfarnu a fydd yn cyd-fynd â'r canllawiau hyn.

Er mwyn cefnogi ein hymrwymiaidau 'Dewis i Bawb' ymhellach, rydyn ni hefyd wedi bod yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu i gryfhau eu gwaith o gofnodi dewis iaith dysgwyr adeg cofrestru, i'w galluogi i flaengynllunio ar gyfer cyflwyno'r cymhwyster. Fe wnaethon ni gyfarfod â chyrrff dyfarnu i archwilio a deall yn well ddulliau sydd ar waith ar hyn o bryd i nodi, cofnodi ac ymateb i ddewisiadau iaith dysgwyr ac ar hyn o bryd rydyn ni'n casglu rhagor o wybodaeth am alluoedd systemau cofrestru i gasglu data dewis iaith, unrhyw gostau wrth wneud hynny ac unrhyw effeithiau posibl eraill.

Rydyn ni wedi creu tudalen ar ein gwefan i ddarparu gwybodaeth i ganolfannau am gymwysterau cyfrwng Cymraeg. Mae hyn mewn ymateb i'n hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth reolaidd i ysgolion, colegau a darparwyr prentisiaethau am y cymwysterau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r rhai a fydd ar gael cyn bo hir.

Fe wnaethon ni ddarparu ychydig dros £160 o gyllid grant cystadleuol drwy gefnogi cyrrff dyfarnu i sicrhau bod mwy o gymwysterau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni wedi darparu £260k o gyllid grant i CBAC i gyfrannu at eu costau o baratoi cymwysterau dwyieithog.

Y Ddeddf Cydraddoldeb

Rydyn ni'n cydymffurfio â'r dyletswyddau cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac rydyn ni wedi cymryd gofal i ystyried materion cydraddoldeb yn ein holl weithgareddau. Mae enghreifftiau o'n dull yn cynnwys ein harferion recriwtio, ein safonau dylunio gwefannau a dyluniad ein swyddfa. Rydyn ni'n partneru'n rheolaidd â sefydliadau eraill i gefnogi a gwreiddio ein polisiau a'n harferion cydraddoldeb. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i raglen o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol sydd wedi'i chynnwys fel gweithgaredd gweithredol yn ein cynllun gweithredol blynyddol.

Caiff ystyriaethau cydraddoldeb eu hymgorffori yn y gwaith o gynllunio ein polisiau a darparu ein gwasanaethau, ac maen nhw'n cael eu hadolygu'n barhaus.

Fel rheoleiddiwr, rydyn ni hefyd yn cefnogi cyrrff dyfarnu i gyflawni eu dyletswyddau cydraddoldeb drwy gyhoeddi ein canllawiau Mynediad Teg drwy Ddylunio. Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ar sut y gall cynllunio cymwysterau ac asesu da roi'r cyfleoedd tecaf posibl i bob dysgwr ddangos yr hyn maen nhw'n ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Bwriad y ddogfen yw cefnogi ac ategu'r arferion gorau o ddyfarnu sefydliadau wrth gynllunio cymwysterau ac asesu, a darparu canllawiau ar gydymffurfio â gofynion rheoliadol. Mae ein Hamodau Cydnabod yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff dyfarnu fod â threfniadau clir ar waith ar gyfer gwneud addasiadau rhesymol mewn perthynas â'i gymwysterau, ac rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth cyrrff dyfarnu. Rydyn ni hefyd yn cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol. Mae ein tîm Cysylltiadau Allanol hefyd yn rhoi arweiniad i swyddogion arholi i'w cefnogi i weithredu trefniadau mynediad.

Rydyn ni wedi cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol yn erbyn ein hamcanion ar gyfer 2019-22, sy'n tynnu sylw at gynnydd yn erbyn pob un o'r pum amcan. Yn ystod y flwyddyn rydyn ni wedi adolygu a diwygio ein Hamcanion Cydraddoldeb am gyfnod o ddwy flynedd 2022-24 (mae'r ddwy ddogfen yma i'w gweld ar ein [gwefan](#)). Bydd hyn yn ein galluogi i gynnal gwerthusiad llawn yn 2023 cyn pennu amcanion newydd yn unol â chylch adrodd pedair blynedd Llywodraeth

Cymru a chyrrff eraill a noddir. Bydd hyn yn golygu y bydd amcanion newydd yn rhedeg o 2024 i 2028.

Mae cefnogi cydraddoldeb wedi bod ystyriaeth graidd ar gyfer ein dull o ddyfarnu yn haf 2020 a 2021, ac roedd tegwch i bob dysgwr yn un o'r egwyddorion dyfarnu a bennwyd gennym wrth ddelio â'r cyfresi arholiadau yn ystod pandemig COVID-19. Ym mis Mehefin 2021 fe wnaethon ni gyhoeddi [adroddiad](#) yn amlinellu sut y gwnaethom ni ystyried materion cydraddoldeb fel rhan o'n hymateb i reoli effaith pandemig COVID-19 ar ddyfarnu cymwysterau.

Ar gyfer haf 2021, fe wnaethon ni gwblhau nifer o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau mewn gwahanol gyfnodau. Fel rhan o'r trefniadau terfynol, darparodd CBAC raglen gynhwysfawr o hyfforddiant i ganolfannau asesu i gefnogi'r gwaith o ddarparu Graddau a Bennir gan Ganolfan, gan gynnwys hyfforddiant ar osgoi rhagfarn anymwybodol, mewn cydweithrediad â Diverse Cymru. Buom hefyd yn gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'w helpu i gyhoeddi canllawiau i ganolfannau ar gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn y trefniadau ar gyfer haf 2021. Rydyn wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ymgeisydd preifat wedi cael y cyfle i sicrhau dyfarniad cymhwyster yn 2021.

Yn dilyn ymlaen o'r diwrnod canlyniadau, fe wnaethon ni gyhoeddi [datganiad ystadegol](#) yn dadansoddi sut roedd y graddau a ddyfarnwyd yn 2021 yn ymwneud â data cyrhaeddiad blaenorol blwyddyn 9 a aseswyd gan athrawon a nodweddion disgyblion rhwng 2017 a 2021. Ar gyfer TGAU, roedd y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhywiau ar sail model yn 2021 yn gulach nag mewn blynyddoedd blaenorol o'i gymharu â deilliannau asesu athrawon ym Mlwyddyn 9, hynny yw, mae'n agosach at y bwlch cyrhaeddiad a awgrymir o ganlyniadau Blwyddyn 9 na'r hyn a welir fel arfer mewn blynyddoedd arholiadau. Roedd y bylchau cyrhaeddiad AAA ac ethnigrwydd yn sefydlog, ac roedd y bwlch cyrhaeddiad prydu ysgol am ddim yn ehangach nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Casgliad

A minnau'n Swyddog Cyfrifyddu Cymwysterau Cymru, rwy'n cadarnhau bod y datganiadau a wneir yn yr adroddiad hwn yn gywir ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022. Ni fu unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol, a chadarnhaf fod systemau cadarn o reolaeth fewnol ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau ac amcanion polisi'r sefydliad.

<p>Llofnod Philip Blaker</p>	<p>Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022</p>
---	---

4 Adroddiad tâl cydnabyddiaeth a staff

Polisi tâl cydnabyddiaeth

Cyflogir cyflogeion Cymwysterau Cymru ar delerau ac amodau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd. Mae cydnabyddiaeth ariannol yn cydreddeg â bandiau a graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru. Mae dilyniant drwy'r graddfeydd cyflog ar sail cynyddran flynyddol, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Caiff newidiadau i strwythur cyflogau pob cyflogai (gan gynnwys y Bwrdd Gweithredol) eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth, a rhaid i unrhyw newidiadau i'n dull o dalu gael eu cymradwyo gan y Gweinidog Addysg.

Mae'r pecyn tâl cydnabyddiaeth yn cynnwys aelodaeth o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ar ôl eu penodi, cynigir dewis o ddau fath o bensiwn i gyflogeion: 'Alpha' (cynllun cyfartaledd gyrfa) a 'Partnership', sy'n drefniant cyfraniadau diffiniedig. Mae manylion Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk>.

Telir ffioedd a chostau teithio'r Bwrdd yn unol â chyfraddau Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

Tâl cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn – uwch swyddogion ac aelodau'r Bwrdd

Mae'r tablau canlynol yn rhoi manylion buddiannau tâl a phensiynau, ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022, uwch swyddogion ac Aelodau'r Bwrdd sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli ein prif weithgareddau.

Cyfanswm y tâl cydnabyddiaeth						
Aelodau Bwrdd Anweithredol	2021-22			2020-21		
	Ffioedd (wedi'u bandio)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm	Ffioedd (wedi'u bandio)	Buddion Pensiwn	Cyfanswm
	£'000	£	£'000	£'000	£	£'000
Cadeirydd David B Jones OBE DL (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/10/2019)	20-25	-	20-25	30-35	-	30-35
Cyn-gadeirydd Ann Evans (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 30/09/2019)	-	-	-	0-5	-	0-5
Angela Maguire-Lewis (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 31/12/2020)	-	-	-	0-5	-	0-5
Caroline Burt (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 15/06/2021)	0-5	-	0-5	5-10	-	5-10
Claire Morgan (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 15/06/2021)	0-5	-	0-5	5-10	-	5-10
Isabel Nisbet (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 15/06/2021)	0-5	-	0-5	5-10	-	5-10
Paul Croke (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 31/1/16)	-	-	-	0	-	0
Ellen Donovan (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 12/06/2021)	0-5	-	0-5	5-10	-	5-10
Rheon Tomos (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru Dec 2018)	-	-	-	0	-	0
Robert Lloyd Griffiths OBE (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 06/12/2021)	0-5	-	0-5	5-10	-	5-10
Alun Llwyd (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 4/03/18)	-	-	-	0	-	0
Arun Midha (Wedi gadael Bwrdd Cymwysterau Cymru 31/03/2021)	-	-	-	5-10	-	5-10
David Jones (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 14/05/17)	5-10	-	5-10	10-15	-	10-15
Jayne Woods (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/04/2019)	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Anne-Marie Duffy (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/04/2019)	5-10	-	5-10	5-10	-	5-10
Douglas Blackstock (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 14/06/2021)	5-10	-	5-10	0-5	-	0-5
Graham Hudson (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 14/06/2021)	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Hannah Burch (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/04/2021)	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Michael Griffiths OBE (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 14/06/2021)	0-5	-	0-5	0-5	-	0-5
Sharron Lusher MBE DL (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/04/2021)	0-5	-	0-5	0	-	0
Julie Brannan (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 01/09/2021)	0-5	-	0-5	0	-	0
John Latham CBE (Wedi ymuno â Bwrdd Cymwysterau Cymru 07/12/2021)	0-5	-	0-5	0	-	0

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

* Fel yr adroddwyd yn 2020-21, ymunodd yr aelodau hyn o'r Bwrdd yn ystod 2021-22, ond mynychodd gyfarfod Bwrdd Cymwysterau Cymru ar 25 Mawrth 2021 mewn swydd gysgodol, y cawsant eu talu amdano.

Mae 'ffioedd' yn cynnwys ad-dalu treuliau teithio i Cymwysterau Cymru ac oddi wrtho gan fod y rhain, yn unol â gofynion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn cael eu trin fel buddion trethadwy.

Cyfanswm y tâl cydnabyddiaeth						
	2021-22			2020-21		
Swyddogion Gweithredol	Cyflog (wedi'i fandio) £'000	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm £'000	Cyflog (wedi'i fandio) £'000	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf)	Cyfanswm £'000
Prif Weithredwr Philip Blaker	130-135	47,000	180-185	130-135	48,000	180-185
Cyfarwyddwr Gweithredol – Rheoleiddio Jo Richards	85-90	30,000	115-120	85-90	34,000	115-120
Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol Alison Standfast	85-90	25,000	110-115	85-90	43,000	125-130
Cyfarwyddwr – Polisi a Diwygio Cymwysterau Cassy Taylor	80-85	16,000	95-100	85-90	43,000	130-135
Cyfarwyddwr – Polisi a Diwygio Cymwysterau Emyr George	75-80	29,000	100-105	70-75	29,000	100-105
Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol Leonie White (Wedi gadael Cymwysterau Cymru 04/02/2022)	65-70	0	65-70	30-35	13,000	45-50
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Ashok Ahir (Wedi ymuno â Cymwysterau Cymru'n barhaol 01/03/2022)	5-10	2,000	5-10			

*Penodwyd Ashok Ahir dros dro ar 13 Rhagfyr 2021 drwy asiantaeth i gysgodi i ddechrau ac yna i gyflenwi'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, Leonie White, oedd yn dod i ddiwedd ei chyfnod yn y swydd. Cymerodd dros dro rôl y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol, drwy'r asiantaeth unwaith eto, ar 4 Chwefror 2022, ac yna fe'i penodwyd yn barhaol i'r swydd hon

ar 1 Mawrth 2022. Costau'r Asiantaeth am y cyfnod cyn ei benodiad parhaol oedd £26,319. Y Band Cyflog Llawn Amser ar gyfer y rôl hon yw 75-80.

** Gadawodd Leonie White Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gyda llai na dwy flynedd o wasanaeth cymwys, felly nid oes unrhyw atebolrwydd pensiwn i'w ddatgelu.

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cyflog yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfansau eraill sy'n destun trethiant y DU. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed ac felly fe'u cofnodir yn y cyfrifon hyn.

Ni wnaed unrhyw fuddion mewn nwyddau na thaliadau bonws yn 2021-22.

Cyfrifir y ffigurau 'buddion pensiwn' uchod at ddibenion datgelu, gan ein gweinyddwyr pensiynau. Cyfrifir y ffigurau hyn fel y 'cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn' (gweler tabl Buddion Pensiwn 'Uwch Weithwyr' isod) wedi'i luosi ag 20, ynghyd â'r cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad, llai cyfraniadau a wnaed gan y cyflogai yn ystod y cyfnod.

Buddion Pensiwn Uwch Gyflogeion					
Swyddogion	Cyfanswm pensiwn cronedig swyddogion ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31 Mawrth 2022 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2021 £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000
Prif Weithredwr Philip Blaker	20-25	2.5-5	282	239	28
Cyfarwyddwr Gweithredol – Rheoleiddio Jo Richards	15-20	0-2.5	223	196	14
Cyfarwyddwr Gweithredol – Adnoddau Corfforaethol Alison Standfast	30-35	0-2.5	536	491	9
Cyfarwyddwr – Polisi a Diwygio Cymwysterau Cassy Taylor	35-40	0-2.5	655	615	4
Cyfarwyddwr – Polisi a Diwygio Cymwysterau Emyr George	15-20	0-2.5	162	143	10
Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol Leonie White** (Wedi gadael Cymwysterau Cymru 04/02/2022)	0	0	0	0	0
Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Ashok Ahir (Wedi ymuno â Cymwysterau Cymru'n barhaol 01/03/2022)	5-10	0-2.5	76	74	1

** Gadawodd Leonie White Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gyda llai na dwy flynedd o wasanaeth cymwys, felly nid oes unrhyw atebolrwydd pensiwn i'w ddatgelu.

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar gyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn Gwladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw, ymunodd pob gwas sifil newydd a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, cyfranogodd gweision sifil ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog

terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfu gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, gyda chost y buddion yn cael ei thalu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol y PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu cael gwared ar wahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, disgwylir, maes o law, y gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 yr hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fanteision yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniadau diffiniedig (prynu arian) gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogion yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha. Mae buddion yng nghynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i dair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer cynllun premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. I bob pwrpas, cynllun hybrid yw classic plus gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras yn unol â chynllun classic a buddion am wasanaeth o fis Hydref 2002 ymlaen yn cael eu cyfrifo fel yng nghynllun premium. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn enilledig yr aelod ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn croniedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yng nghynllun alpha yn cronni mewn ffordd debyg i gynllun nuvos, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd gronni. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfrandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes ar oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o gynlluniau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion yn PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.)

Mae manylion pellach trefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn <http://www.civilservicepensionscheme.org.uk>.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn a gronwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi'i asesu gan actwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn priod amodol sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir gwerthoedd CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgeliadau cyflog teg

Mae hefyd yn ofynnol i ni ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad. Dangosir hyn isod.

Mae'r tâl canolrifol yn parhau o fewn ein gradd cyflog staff Band 4, ond mae ychydig yn uwch na'r llynedd, gan arwain at ychydig o ostyngiad yn y gymhareb hon o 2.88 yn 2019-20.

Mae'r cynnydd hwn o 1% yn deillio'n bennaf o ddyfarniad cyflog 2021-22 a oedd yn berthnasol i bob band cyflog.

2021-22 yw'r flwyddyn gyntaf y bu'n ofynnol i ffigurau chwarter Isaf a chwarter Uchaf gael eu datgelu yn y Datganiadau Ariannol. Er nad oes ei angen, mae'r ffigurau cymharol wedi'u cynnwys yn y datgeliadau i helpu gyda dealltwriaeth. Mae'r rheswm y tu ôl i'r cynnydd bach yn y ffigurau hyn yn deillio'n bennaf o ddyfarniad cyflog 2021-22.

Tâl		
	2021-22	2020-21
Band tâl ariannol y rhai sy'n ennill fwyaf (£'000)	130-135	130-135
% newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf	0%	2%
Cyfanswm Tâl Ariannol Cyfartalog £	43,858	43,113
% newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y gweithwyr yn eu cyfanrwydd	2%	-1%
Tâl ariannol y chwarter isaf £	35,180	33,028
Cymhareb cyflog tâl ariannol y chwarter isaf	3.77	4.01
Cyflog canraddol canolrifol £	44,200	43,760
Cymhareb cyflog canolrifol	3.00	3.03
Tâl ariannol y chwarter uchaf £	47,470	47,000
Cymhareb cyflog tâl ariannol y chwarter uchaf	2.79	2.82
Ystod tâl ariannol staff:		
Gweithiwr cyflogedig sy'n derbyn y cyflog uchaf (£'000)	130-135	130-135
Gweithiwr cyflogedig sy'n derbyn y cyflog isaf (£'000)	20-25	20-25

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Adroddiad staff

Ni welodd ein strwythur unrhyw newidiadau sylweddol yn ystod 2021-2022, gwnaethom recriwtio dwy rôl newydd i gefnogi darpariaeth gyfathrebu ar draws y sefydliad, ond ar y cyfan nid oedd ein strwythur wedi newid, neu defnyddiwyd y rolau a oedd gennym i ymateb mewn ffordd ystwyth i'r angen sy'n dod i'r amlwg. Ein cyfrif pennau ar 31 Mawrth 2022 oedd 97, o'i gymharu â ffigur o 95 yn y flwyddyn flaenorol; mae'r ffigur cyfwerth ag amser llawn (FTE) wedi cynyddu ychydig o 94.24 yn 2021 i 94.73 yn 2022. Mae nifer y staff a'r aelodau cyfwerth ag amser llawn yn amrywio yn ystod y flwyddyn, wrth i ni ymateb i drosiant a recriwtio yn briodol. Amlinellir ein nifer cyfartalog o gyflogeion yn ystod y 12 mis diwethaf, ynghyd â chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol, yn y tabl isod:

Blwyddyn	Cyfrif pennau cyfartalog	Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) cyfartalog
2021-2022	95.5	94.3
2020-2021	90.1	89.1
2019-2020	81.6	80.2
2018-2019	77.3	76.61
2017-2018	78.5	76.14
2016-2017	72	-

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae 17 o weithwyr newydd wedi ymuno â'n sefydliad ar ystod o lefelau o Gyfarwyddwr i Gynorthwydd Swyddfa. Roedd naw o'r penodiadau hyn ar sail cyfnod penodol naill ai i ôl-lenwi bylchau mamolaeth neu o ganlyniad i gyllid cyfnod penodol i gyflawni'r agenda diwygio cymwysterau. Mae ein trosiant wedi cynyddu o 11.1% i 14.7% (14.8% Cyfwerth ag Amser Llawn). Rydyn ni'n adolygu trosiant yn rheolaidd ac mae'r cyfraddau'n amrywio yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 14 o weithwyr wedi gadael y sefydliad. Bu rhesymau gwahanol dros yrru'r newidiadau hyn, mae rhywfaint o drosiant wedi'i briodoli i weithwyr sy'n gadael sydd wedi bod gyda'n sefydliad ers ei sefydlu yn 2015, ac roedd dau yn weithwyr cyfnod penodol a adawodd cyn i'w contract ddod i ben. Rydyn ni hefyd wedi gweld gweithwyr yn ymuno ac yn gadael yn ystod y pandemig ac roedd rhan o'u rhesymeg dros symud ymlaen yn gysylltiedig â'r her o gysylltu a bod yn rhan o sefydliad wrth weithio gartref yn unig. Cynhelir cyfweiliadau ymadael gyda phawb sy'n gadael. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi cynnal 17 o ymarferion recriwtio unigol. Rydyn ni hefyd wedi cael symudiad mewnol oherwydd cyfleoedd datblygu dros dro a hysbysebwyd yn fewnol.

Fel arfer, rydyn ni'n hysbysebu cyfleoedd cyfnod penodol parhaol a hirdymor yn allanol, a gall ymgeiswyr mewnol wneud cais drwy'r llwybr hwnnw. Rydyn ni'n gweithredu dull o sicrhau cyfweiliad i ymgeiswyr sy'n bodloni'r sgôr isaf i'w hystyried mewn cyfweiliad ac sy'n nodi eu bod yn anabl. Rydyn ni'n cynnal ymarferion mewnol ar gyfer cyfleoedd datblygu tymor byr, sy'n cwmpasu absenoldeb mamolaeth neu waith prosiect penodol. Mae'r penderfyniad i recriwtio yn cael ei wneud gan ein Bwrdd Rheoli. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ystyried a oes gennym ddigon o ymgeiswyr mewnol i warantu ymarfer mewnol cystadleuol; ni fabwysiadwyd y dull hwn gennym o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Bu ymarferion recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf ar draws y pedair Cyfarwyddiaeth o fewn y sefydliad: Rheoleiddio, Polisi a Diwygio Cymwysterau, Cyfathrebu ac Ymgysylltu ac Adnoddau Corfforaethol.

Mae ein gweithlu yn cynnwys 88% o gyflogeion ar gontractau parhaol (o gymharu â 91% ar 31 Mawrth 2021), 12% ar gontractau cyfnod penodol. Nid ydym wedi cael unrhyw secondiadau mewnol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni'n parhau i fod yn agored i secondiadau a bydd y trefniadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio lle maen nhw'n cynnig y cyfle i ymgynwys â sefydliadau eraill a gwneud y defnydd gorau o sgiliau, yn enwedig mewn meysydd arbenigedd proffesiynol. Yn ystod 2021, fe wnaethon ni ymgysylltu ag Academi Wales ac rydyn ni'n cymryd rhan yn eu rhaglen Graddedigion Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru Gyfan. Bydd ein graddedigion penodedig yn ymuno â ni ym mis Ionawr 2023 ar secondiad o Lywodraeth Cymru yn dilyn lleoliad gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi defnyddio staff asiantaeth i lenwi swyddi gwag neu waith tymor byr nad oedd secondiad neu benodiad cyfnod penodol yn addas ar eu cyfer. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydyn ni wedi penodi pum berson ar gytundebau asiantaeth i ymgymryd â rolau diffiniedig. Ar 31 Mawrth, roedd tri chontract asiantaeth ar waith. Nid yw'r contractau dros dro hyn wedi'u cynnwys mewn cyfrifiadau ar gyfer cyfrif pennau neu gyferwerth ag amser llawn.

	Benyw	Gwryw	
Prentisiaeth	0	1	
Cyfnod penodol	9	1	
Parhaol	56	30	
	64	33	97

Cyfrif pennau ar 31 Mawrth 2022

Rydyn ni'n adolygu pob penodiad gyda'r rhai sydd wedi'u contractio i sicrhau cydymffurfiaeth ag IR35 (deddfwriaeth cyfryngwyr).

Dysgu a datblygu

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr. Nodir anghenion penodol naill ai drwy ein cynlluniau busnes, ein huwch reolwyr neu drwy drafodaethau perfformiad unigol. Gellid bodloni gofynion unigol gyda hyfforddiant ffurfiol, drwy gael at wahanol gyfleoedd neu drwy weithio ar draws timau o fewn ein sefydliad.

Mae rhywfaint o'n hyfforddiant yn diwallu angen corfforaethol neu statudol, ac fe'i cyflwynir ar draws y sefydliad. Eleni, cynhaliwyd hyfforddiant gorfodol ar-lein ar gyfer codi a chario, diogelwch tân a risg i'r holl staff. Fe wnaethon ni hefyd ddarparu hyfforddiant Cymorth Cyntaf i garfan o weithwyr a fydd yn ymgymryd â rolau Swyddog Cymorth Cyntaf ffurfiol. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth pan fydd gennym niferoedd bach o weithwyr yn y swyddfa, rydyn ni hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogai gwblhau hyfforddiant ar-lein mewn egwyddorion sylfaenol Cymorth Cyntaf. O ran TG, ymgwymerodd cyflogeion â hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelwch ar-lein, y maen nhw'n ei gwblhau bob blwyddyn.

Yn ystod gwanwyn a haf 2020, arweiniodd Cymwysterau Cymru grŵp craidd o bedwar corff noddedig (Chwaraeon Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a CCAUC) i gaffael, datblygu a chyflwyno rhaglen Arwain a Rheoli a fyddai'n diwallu anghenion ein sefydliadau a'r rhwydwaith

cyrff noddedig ehangach. Yn 2021-2022 lanswyd pedair carfan, dau Arweinydd Strategol a dwy Hanfod Rheoli Llinell gyda chynllunio ar gyfer dwy sesiwn arall i ddechrau ym mis Ebrill 2022. Mae'r ddwy raglen yn cwmpasu elfennau ymarferol o reoli, a fydd yn sicrhau bod rheolwyr yn ymwybodol o'u rôl a'u cyfrifoldebau statudol. Mae'r hyfforddiant yn dal i gael ei ddarparu ar-lein, ond gobeithiwn y bydd carfanau mwy newydd yn cael cyfle i gwrdd â'u cyfoedion am o leiaf un sesiwn yn y 12 mis nesaf. Mae'r adborth am yr hyfforddiant cydweithredol yn dda ac mae'r sesiynau cloi, sy'n cynnwys cyflwyniad o effaith, yn dangos bod grwpiau cyfoedion wedi'u hadeiladu hyd yn oed o bell a bod y gweithwyr sy'n mynychu wedi gwerthfawrogi eu profiad.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf rydyn ni wedi cynnig cyfleoedd i weithwyr ar draws y sefydliad gymryd rhan mewn hyfforddiant ymwybyddiaeth gyfreithiol i reoleiddwyr, a hyfforddiant mewn cymryd cofnodion, ysgrifennu adroddiadau effeithiol yn ogystal â rhoi a derbyn adborth. Mae gweithwyr hefyd wedi mynychu sesiynau ar iechyd meddwl yn y gwaith, cynghreiriaeth LHDTTC+ a chrefydd a chred a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol mewn addysg.

Rydyn ni'n cefnogi datblygiad personol, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi cefnogi tri chyflogai mewn dysgu addysg uwch, gan gynnwys Gradd Meistr mewn Addysg a Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg. Rydyn ni wedi ymrwmo i ddatblygiad proffesiynol cyflogaion, ac wedi cefnogi cyflogai i gyflawni ei hachrediad NEBOSH.

Mae cyflogaion hefyd wedi mynychu hyfforddiant a chynadleddau allanol i ddatblygu a gwella eu sgiliau proffesiynol a chynnal eu DPP mewn meysydd fel asesu, caffael, llywodraethu corfforaethol, Adnoddau Dynol, cyllid, ymchwil a chyfathrebu. Mae'r sesiynau a fynychwyd yn cynnwys egwyddorion asesu, arolygu a dylunio holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a hyfforddiant hygyrchedd a diogelu yn ogystal â chynadleddau a gyflwynir gan y Gymdeithas Asesu Addysgol (AEA) neu Fforwm San Steffan.

Mae cyflogaion hefyd yn cynnal sesiynau 'Tamaid' mewnol i roi gwybod i'r sefydliad ehangach am ddarnau o waith y mae timau neu unigolion yn gweithio arnynt, i esbonio polisiau sefydliadol ac i rannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt.

Cefnogwyd aelodau undebau llafur hefyd i fynychu cyrsiau i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r gallu i ymgymryd â'u rolau undeb.

Band cyflog a rhywedd

Mae'r tablau canlynol yn amlinellu cyfansoddiad ein gweithwyr ar 31 Mawrth 2022, yn ôl eu band parhaol, rhywedd, oedran a math o gontract (oriau amser llawn yw 37 awr yr wythnos, contractau rhan-amser yw'r rhai y cytunwyd arnynt gyda llai na 37 awr).¹² Mae gennym saith o weithwyr ar gontract o lai na 37 awr ar 31 Mawrth 2022, sy'n gynydd o 1 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond sy'n dal i fod yn llai na 2020 pan oedd gennym 10 o weithwyr rhan-amser. Rydyn ni'n parhau i fod â dim ond un gweithiwr rhan-amser gwrywaidd, gyda chwe gweithiwr rhan-amser benywaidd. Mae'r nifer fwyaf o weithwyr rhan-amser ym mand cyflog 4 yng nghanol ein


¹² Dengys y tabl fand parhaol (dan gontract) cyflogai. Nid yw'n adlewyrchu pan all cyflogai fod yn gweithio dros dro mewn band uwch, ac felly mae'n gwrthdaro â'r tabl ar t58, sy'n seiliedig ar gyflog gwirioneddol cyflogai eleni.

sefydliad gyda'r ddau arall mewn bandiau cyflog is. Rydyn ni'n hyrwyddo ein dull gweithio hyblyg gyda'r holl weithwyr felly efallai nad yw rhai cyflogeion yn teimlo bod angen iddyn nhw wneud cais ffurfiol i leihau oriau ac efallai y byddan nhw'n dal i sicrhau cydbwysedd rhwyng bywyd a gwaith ar oriau llawn amser. Yn ein harolwg o weithwyr yn 2021, cytunodd 85% o gyflogeion eu bod yn gallu sicrhau cydbwysedd da rhwyng eu gwaith a'u bywyd preifat.


Mae gennym gyfran fwy o fenywod i ddynion ymhlith ein gweithwyr o hyd, sy'n cynrychioli'r sector addysg yn fwy cyffredinol. O ran ystadegau recriwtio, rydyn ni'n tueddu i gael mwy o geisiadau gan ymgeiswyr benywaidd ym mhob band. Rydyn ni'n adolygu'r wybodaeth hon yn rheolaidd ac yn ystyried ein dull hysbysebu i ehangu ein hamrywiaeth yn fwy cyffredinol.

Rhywedd a math o gontract

Band	Benyw amser llawn	Benyw ran-amser	Gwryw amser llawn	Gwryw rhan-amser	Cyfanswm
1	4	1	2	0	7
2	7	0	1	0	8
3	15	1	6	0	22
4	23	4	10	1	38
5	6	0	7	0	13
6	2	0	4	0	6
7	2	0	0	0	2
8	0	0	1	0	1
Cyfanswm	59	6	31	1	97



Oedran



Bu rhywfaint o symudiad yn ein proffil oedran yn ystod y 12 mis diwethaf a fydd o ganlyniad i weithwyr yn croesi bandiau oedran yn ogystal â throsiant a recriwtio a welsom yn cael effaith. Mae nifer y staff yn yr oedranau canolig, 35-39 a 40-44 yn ymddangos yn sefydlog er y bydd symudiad wedi bod, prin yw'r effaith ar y naill ben a'r llall hefyd, <25 a 60+, gyda symudiad ar y fyny yn 25-29 oed a 50-54 oed gyda gostyngiad mewn meysydd eraill.

Absenoldeb oherwydd salwch

Mae ein cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf, a chollwyd cyfanswm o 545.5 diwrnod gwaith, o gymharu â 423.5 diwrnod gwaith a gollwyd yn 2020-2021, cynnydd o 122 diwrnod, 96 o'r diwrnodau hyn i'w priodoli i absenoldeb yn gysylltiedig â Covid. Mae lefel gyfartalog flynyddol ein habsenoldeb wedi cynyddu o 4.7 diwrnod fesul cyflogai i 5.7. Cyfrifir y ffigur hwn gan ddefnyddio nifer cyfartalog blynyddol y cyflogeion, a oedd yn 95.5 yn 2021-22. Ein ffigur cyfwerth ag amser llawn cyfartalog blynyddol yw 94.3, sy'n addasu ein cyfartaledd i 5.8 diwrnod, sy'n gynyddu o un diwrnod llawn o ffigur y llynedd. Mae'r ddau ffigur ychydig yn is na ffigurau 2019-2020, sef 5.98 a 6.1 yn y drefn honno.

Mae'r [Swyddfa Ystadegau Gwladol yn adrodd](#) mai 4.6 diwrnod fesul cyflogai ar gyfartaledd yw'r diwrnodau a gollwyd yn 2021 fesul cyflogai, er ei bod yn cymryd gofal gyda'r ystadegyn hwn oherwydd effaith gweithwyr ar ffyrlo a pholisi yn ystod 2020 a 2021. Cyfradd absenoldeb y sector cyhoeddus yw 3%, ein cyfradd ni yw 2.6%. Felly, er bod ein diwrnodau cyfartalog a gollwyd un diwrnod yn uwch na'r cyfartaledd cyhoeddus o 4.6, mae ein cyfradd ganrannol o'i gymharu â ffigur y sector cyhoeddus 0.4% yn llai. Ffigur y sector preifat yw 1.9%.

Rydyn ni wedi gweld cynnydd bach mewn absenoldeb hirdymor (cynnydd o 29.5 diwrnod i 261.5) yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae absenoldeb tymor byr wedi cynyddu 92.5 diwrnod yn ystod y flwyddyn. Heb os, mae Covid-19 wedi cael effaith eleni gyda diwrnodau'n cael eu colli oherwydd teimlo'n sâl ar ôl y brechlyn yn ogystal â nifer o weithwyr yn dal Covid ei hun. Ein huchafbwynt ar gyfer absenoldebau cysylltiedig â Covid oedd Ionawr 2022 gyda chyfanswm o 28 diwrnod wedi'u colli, ar yr adeg hon roedd yr holl weithwyr yn gweithio gartref. Ym mis Hydref 2021 hefyd,


cofnodwyd nifer sylweddol o absenoldeb oherwydd Covid (collwyd 20 diwrnod). Collwyd cyfanswm o 96 diwrnod gwaith i Covid ym mlwyddyn ariannol 2021-2022 gyda 27 o weithwyr yn cael eu heffeithio. Mae hyn o'i gymharu â dim ond 13 diwrnod ar gyfer dau gyflogai yn y flwyddyn flaenorol. Mae ein swyddfa wedi bod ar agor i weithwyr gael mynediad a gweithio ohoni dri diwrnod yr wythnos ers mis Gorffennaf 2021. Mabwysiadwyd profion llif unffordd gennym fel un o'n mesurau rheoli ac mae hyn wedi bod yn fuddiol heb unrhyw achosion o weithwyr yn contractio Covid oddi wrth ei gilydd yn y gwaith.

O ran rhesymau absenoldeb eraill, nid oes unrhyw dueddiadau o ran absenoldeb sy'n dangos materion penodol. Rheolir absenoldebau hirdymor gan ddefnyddio cymorth lechyd Galwedigaethol ac Adnoddau Dynol i hwyluso dychwelyd yn llwyddiannus i'r gwaith.

Mae'r tablau isod yn amlinellu ein hystadegau absenoldeb oherwydd salwch yn fanylach.

Cyfansymiau absenoldeb oherwydd salwch fesul mis

MIS	2018-2019 (TB)	2018 - 2019 (TH)	2019 - 2020 (TB)	2019 - 2020 (TH)	2020 - 2021 (TB)	2020 - 2021 (TH)	2021 - 2022 (TB)	2021 - 2022 (TH)
Ebrill	14	20	14	0	32.5	0	17.5	43
Mai	7.5	21	8	0	23	0	17	8
Mehefin	0	21	6	20	11	0	9	22
Gorff	12.5	22	6	22	9	0	13	22
Awst	15.5	22	11.5	21	2	20	16	22
Medi	8.5	20	28	37	2	0	14	22
Hydref	10	15	9	42	8	0	49	28
Tach	3	0	6	40	22	39	52	22
Rhagfyr	11.5	0	18.5	40	2	45	13	31
Ionawr	9.5	0	26	50	41	60	52.5	10
Chwefror	10.5	0	21	35	16	35	10.5	19.5
Mawrth	19	0	12	15	23	33	20.5	12
Cyfanswm	121.5	141	166	322	191.5	232	284	261.5



Rydyn ni wedi ymrwymo i annog ffordd iach o fyw a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Rydwn ni'n contractio darparwr iechyd galwedigaethol i'n helpu, ac i:

- gynnig cymorth a chynghor i weithwyr;
- cefnogi gallu gweithiwr i weithio; a
- hwyluso dychwelyd i'r gwaith yn llwyddiannus ar ôl absenoldeb hirdymor;

Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar gael i bob cyflogai, a all gynnig cynghor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Mae hyn ar gael i ddechrau drwy wasanaeth ffôn neu drwy'r rhyngwyd ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, ac mae'n gwbl gyfrinachol. Gall gweithwyr hefyd gael mynediad at gwrsela am ddim drwy'r rhaglen hon.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rydwn ni wedi darparu mynediad i frechiadau fflw am ddim i weithwyr a oedd am fanteisio ar y cyfle hwn. Er nad oedden ni'n gallu darparu brechiadau rhag y fflw ar y safle eleni, gwnaethom gynnig ad-dalu gweithwyr a oedd am hawlio brechiad rhag y fflw a ddaeth o hyd iddo'n breifat. Dim ond 7% o'r sefydliad a hawliodd eu costau yn ôl.

Yn ystod y pandemig, rydwn ni wedi ymdrechu i gefnogi ein gweithwyr o ran eu lles corfforol a meddyliol. Rydwn ni wedi gwneud hyn drwy hyrwyddo lles meddyliol a thrwy weithgarwch corfforol. Ym mis Ionawr, fe wnaethon ni ymgysylltu â We+ i hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn y tîm gydag agwedd gymdeithasol ar-lein. Roedden ni wedi gwneud hyn o'r blaen ym mis Tachwedd 2020 ac roedd yn boblogaidd. Ein dull gweithredu ar gyfer 2020-2021 oedd ei ddefnyddio i gynnwys gweithwyr yn y cwmp ar ôl y Nadolig ac o ystyried bod y rheoliadau yng Nghymru yn golygu nad oedd gweithwyr yn gallu gweithio o'r swyddfa, roedd ganddo'r fantais ychwanegol o gysylltu gweithwyr pan na allent gyfarfod yn gorfforol. Rydwn ni'n hyrwyddo arferion gwaith cadarnhaol drwy ein dulliau cyfathrebu mewnol.

Rydwn ni'n hyrwyddo ac yn annog cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith drwy'r gwasanaethau cymorth a ddarperir a pholisiau sefydliadol. Yn ein Harolwg Pobl yn 2021, cytunodd 98% o gyflogeion fod y sefydliad yn cefnogi eu hiechyd a'u lles, a chytunodd 96% ein bod yn hyrwyddo

negeseuon a gwybodaeth iechyd a lles i staff. Mae ein grŵp Llesiant a Chydraddoldeb yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo amrywiaeth o fentrau ar draws y sefydliad i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol a'r cymorth sydd ar gael i weithwyr. Cyflawnwyd y Safon Iechyd Corfforaethol Efydd ym mis Mawrth 2019, ac rydyn ni'n gobeithio ennill ein hachrediad Arian pan fydd modd gwneud ceisiadau. Gohiriwyd hyn oherwydd y pandemig, er bod camau gweithredu ac amcanion yn destun gwaith yn barod am asesiad.

Y llynedd, fe wnaethon ni lofnodi [siarter Dying to Work TUC](#), i gefnogi menter TUC, sy'n golygu os bydd cyflogai yn cael diagnosis terfynol, na fydd yn cael ei ddiswyddo. Mae hyn yn rhoi dewis a sicrwydd ariannol i'r cyflogai.

Crynodeb o gostau staff 2021-22

	2021-22				2020-21			
	Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol	Erail	Staff asiantaeth	Cyfanswm	Staff sydd wedi'u cyflogi'n barhaol	Erail	Staff asiantaeth	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	3899	361	-	4260	3946	177	-	4,123
Costau Nawdd Cymdeithasol	438	37	-	475	442	18	-	460
Costau Pensiynau Eraill	1068	98	-	1166	1078	47	-	1,125
Costau asiantaeth	-	-	157	157	-	-	25	25
Cyfanswm	5,405	496	157	6,058	5,466	242	25	5,733

Mae'r adran hon yn destun archwiliad.

Ni wnaed unrhyw ymrwymadau 'oddi ar y gyflogres' yn 2021-2022.

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2021-22.

Nid oedd unrhyw gostau staff ar secondiad yn 2021-22

Aeth Cymwysterau Cymru i'r costau ymgynghori canlynol yn ystod 2021-22:

Ymgynghori - 2021-22		
Ymgynghorydd	Gwaith Ymgynghori a Gafodd ei Wneud	Cyfanswm £
3Chillies Ltd	Cafodd 3 Chillies eu comisiynu i gynnal archwiliad o wefan Cymwysterau Cymru i nodi argymhellion ar gyfer moderneiddio a chyfleoedd i wella.	12,495
Lloyd PR Ltd	Cafodd Lloyd PR LTD eu comisiynu i greu naratif sefydliadol sy'n helpu i hybu dealltwriaeth y cyhoedd o Cymwysterau Cymru a dangos sut mae'n cyfrannu at gymdeithas. Roedd y gwaith yn cynnwys nodi themâu naratif allweddol ac argymhell y dull strategol i'w ddefnyddio i gyfathrebu'n effeithiol â'n cynulleidfaoedd allweddol.	9,750
Four Communications	Cafodd Four Communications eu comisiynu i gael dadansoddiad cyfryngau cymdeithasol a mewnwleidiad i ddeall cynulleidfaoedd allweddol Cymwysterau Cymru. Fe wnaeth y darn hwn o waith alluogi Cymwysterau Cymru i ddod yn fwy effeithiol wrth dargedu grwpiau addysgu penodol yn ein gwaith diwygio Cymwys ar gyfer y dyfodol.	9,408

Cydraddoldeb

Mae ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#) yn amlinellu'r amcanion yr ydym wedi'u gosod i ni'n hunain i ategu ein hymrwymiad i gydraddoldeb. Mae'r cynllun yn cwmpasu pob agwedd ar ein gweithrediadau, gan gynnwys staff, cyfleusterau, gwariant, datblygu a rheoleiddio cymwysterau, ymgysylltu â rhanddeiliaid a monitro. Mae hyn yn cynnwys monitro ein perfformiad ar gyflog cyfartal rhwng y rhywiau.

Y cyflog canolrif ar 31 Mawrth 2022 (sy'n eithrio cyflog y Prif Swyddog Gweithredol) yw £44,200, o'i gymharu â £43,760 yn 2021. Cymhareb cyflog y Prif Swyddog Gweithredol (ar ganol y band cyflog) i'r canolrif yw 3:00 yn 2022, o'i gymharu â 3:03 yn 2021.

Mae'r tabl isod yn amlinellu ein safbwynt ar gyflog cyfartal ddiwedd mis Mawrth 2022.¹³

³ Mae'r tabl yn adlewyrchu cyflog gwirioneddol cyflogai yn y flwyddyn ariannol hon; felly mae'n ystyried tâl ychwanegol a dderbyniwyd am weithio dros dro hyd at fand uwch. Mae'r rhifau felly'n wahanol i'r rhai yn y tabl ar dudalen 67.

	Band Cyflog	Merched	Dynion	Bwlch Tâl Ariannol 2021/22 (-os talwyd llai o gyflog i ferched)	Bwlch Tâl Ariannol 2020/21 (-os talwyd llai o gyflog i ferched)	Gwahaniaeth	Bwlch Tâl Ariannol 2021/22 fel % o gyflog dynion (-os talwyd llai o gyflog i ferched)	Bwlch Tâl Ariannol 2020/21 fel % o gyflog dynion (-os talwyd llai o gyflog i ferched)	Newid
cymedr	1	£23,962	£24,630	-£668	£1,248	-£1,916	-3%	6%	↓
canolrif		£24,630	£24,630	£0	£830	-£830	dim bwlch	4%	↑
cymedr	2	£28,835	£28,125	£710		£710	3%		
canolrif		£29,430	£28,125	£1,305		£1,305	dim bwlch		
cymedr	3	£35,925	£36,570	-£645	-£905	£260	-2%	-3%	↓
canolrif		£36,670	£38,160	-£1,490	-£2,920	£1,430	-4%	-8%	↑
cymedr	4	£45,335	£45,827	-£491	-£1,459	£968	-1%	-3%	↑
canolrif		£47,470	£47,470	£0	cyfaartal		dim bwlch	dim bwlch	-
cymedr	5	£60,273	£59,665	£609	-£1,897	£2,506	1%	-3%	↑
canolrif		£61,440	£61,440	£0	-£2,105	£2,105	dim bwlch	-3%	↓
cymedr	6	£75,480	£75,480	£0	£6,662	-£6,662	dim bwlch	9%	↓
canolrif		£75,480	£75,480	£0	equal		dim bwlch	dim bwlch	-
cymedr	Gweithredol	£85,522							
canolrif		£85,522							
cymedr	Prif Weithredwr		£132,938						
canolrif			£132,938						

Mae Bandiau 1-6 yn cynnwys pwyntiau graddfa y mae cyflogeion yn eu dringo'n flynyddol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn raddol. O ganlyniad, gall pob cyflogai ddisgwyl bod ar uchafswm eu band presennol o fewn dwy flynedd (Bandiau 1 a 2) neu o fewn tair blynedd (Bandiau 3-6). Bandiau 7 ac 8 yw ein bandiau Gweithredol (sy'n cyfateb i Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru). Mae'r ffigurau yn y tabl hwn yn seiliedig ar gyflog gros, ac maent yn cynnwys lwfansau a dalwyd. Lle mae gweithwyr yn gweithio mewn band uwch dros dro, mae ein hadroddiad yn seiliedig ar y cyflog uwch hwnnw.

Mae gennym fwllch cyflog rhwng y rhywiau eleni yn ein Band 1, Band 3 a Band 4. Mae'r rhain i gyd yn fandiau lle mae gennym ni fwy o fenywod yn cael eu cyflogi, gyda mwy o fenywod wedi'u gwasgaru ar draws y pwyntiau graddfa. Yn ddiddorol, mae ein cyflog canolrifol yn gyfartal ym Mand 1, 4, 5 a 6, a lle mae hyn yn digwydd y cyflog canolrifol yw cyfradd darged/uchaf y band cyflog. Ym Mand 2 mae menywod yn ennill mwy na dynion yn y band cyfatebol ond maen nhw 6:2 yn fwy niferus yma.

Mae 14 o'n gweithwyr newydd eleni wedi bod yn fenywod, gan ymuno â ni ym Mandiau 1, 3 a 4, lle gwelwn y gwahaniaethau cyflog. Pan gaiff gweithwyr newydd eu recriwtio, maen nhw'n tueddu i gael eu penodi ar waelod y band cyflog, neu'n agos ato, ac yna byddant yn symud ymlaen yn flynyddol. Mae hyn yn amlwg yn cael effaith ar ein ffigurau.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2022, ein bwllch cyflog rhwng y rhywiau oedd 16.3% (o'i gymharu â 12.8% yn 2021).

Gellir priodoli hyn i rai newidiadau i dâl i fenywod yn y bandiau cyflog uwch, bu newidiadau i'r lwfansau a dalwyd o ganlyniad i newid i'r gwaith cartref a gadawodd dau gyflogai benywaidd ym mand cyflog 5 y sefydliad ac roedd y rhai a benodwyd yn ddynion.

Ym Mandiau Cyflog 1-6, mae 66% o ddynion ar uchafswm y band (y llynedd roedd y ffigur hwn yn 67%), mae canran y menywod ar uchafswm y band cyflog wedi cynyddu o 47% y llynedd i 66% eleni, sy'n debycach i'r ffigur gwrywaidd. Rydyn ni hefyd yn cydnabod bod gennym gyfran uwch o weithwyr benywaidd ym Mandiau 1-4, o gymharu â dynion.

Rydyn ni'n monitro ein gwybodaeth am gyflogau'r rhywiau ochr yn ochr â'n data recriwtio ac mae gennym amcan i wella amrywiaeth ein gweithlu gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar yr holl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys rhywedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cawsom chwe dyrchafiad mewnol, roedd pedwar yn fenywod a dau ddyn.


Mae ein hamcan sy'n ymwneud â rhywedd yn canolbwyntio ar recriwtio ac, yn benodol, sicrhau bod y rolau a hysbysebwn yn ddeniadol i'r naill ryw neu'r llall ac i bobl â nodweddion gwarchoddedig eraill, er mwyn annog gweithlu amrywiol. Rydyn ni'n cyhoeddi ein data cydraddoldeb sector cyhoeddus mewn fformat agored ar ein gwefan. Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi ymgysylltu â Chwarae Teg a dyfarnwyd safon aur i ni yn dilyn eu hasesiad cyflogwr ChwaraeTeg ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol ac ar y pryd ni oedd y cyflogwr cyntaf i gael gwobr aur ar yr asesiad cyntaf.


Y Gymraeg

Rydyn ni'n adolygu lefel gallu ein gweithwyr yn y Gymraeg fel rhan o'n hymagwedd tuag at y Gymraeg a'n datblygiad sgiliau. Mae cyflogeion yn hunanasesu eu gallu ac yn graddio eu hunain ar raddfa o 1 (Rhugl) – 5 (Dim gallu) mewn perthynas â darllen, siarad, deall ac ysgrifennu.

Ar 31 Mawrth 2022, mae ein cofnodion yn dangos bod gan 43 o weithwyr (44%) eu hunain sgiliau iaith Gymraeg (cynnydd o 19 o weithwyr ar y llynedd), o'r grŵp hwn mae 16 yn ystyried eu hunain yn rhugl. Mae 44 o weithwyr yn nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Gymraeg ac nid yw 10 o weithwyr wedi hunanasesu eu sgiliau. Mae'n ddiddorol nodi, fodd bynnag, o blith y rhai sy'n nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Gymraeg bod wyth yn dangos bod ganddyn nhw rywffaint o ddealltwriaeth ar draws y pedwar maes (darllen, ysgrifennu, siarad a deall). Mae gan 16 o weithwyr a oedd yn dweud bod ganddyn nhw sgiliau Gymraeg yr un lefel o allu. Rydym ni wedi symud i system Adnoddau Dynol newydd yn ddiweddar ac wedi gweithio gyda chyflogeion i'w cael i adolygu a chofnodi eu sgiliau fel rhan o'r broses o drosglwyddo gwybodaeth.

Wrth recriwtio rydym ni'n gwerthuso'r angen am allu yn y Gymraeg a chaiff hyn ei nodi yn y disgrifiad swydd cyhoeddus. Gofynnir i weithwyr newydd adolygu a chadarnhau eu sgiliau wrth ymuno.





O ran aelodau ein Bwrdd, mae 4 yn hunanasesu eu hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg, 3 fel rhai sydd â gallu sylfaenol a 5 fel rhai nad oes ganddyn nhw allu.

Rydyn ni'n parhau i gefnogi gweithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg drwy ariannu hyfforddiant a darparu modiwlau e-ddysgu, yn ogystal â chymorth anffurfiol, ymarferol yn amgylchedd y swyddfa gan siaradwyr rhugl, sy'n annog ac yn mentora'n answyddogol y rheini sy'n dysgu. Rydyn ni wedi archwilio cyfleoedd i weithio gyda chyrrff cyhoeddus eraill o faint tebyg i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ar y safle, ac rydyn ni'n adolygu hyn yn gyson.

Llofnod
Philip Blaker

Philip Blaker
Swyddog Cyfrifyddu
14 Gorffennaf 2022

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cymwysterau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 o dan baragraff 33(2) o Atodlen 1 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Cymwysterau Cymru ar 31 Mawrth 2022 ac o'i wariant net, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm hymchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol ar wahân i'r datganiadau ariannol a rhannau o'r adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth a archwilir, a'm hadroddiad archwilydd ar hynny. Nid yw deddfwriaeth a chyfarwyddiadau a roddir i Cymwysterau Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson iawn â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel petai ei bod wedi'i cham-ddatgan yn sylweddol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol amlwg felly, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon yn cael ei chamddatgan yn sylweddol, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Adroddiad ar ofynion eraill

Barn am faterion eraill

Gan nad yw'r deddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau a roddir i Cymwysterau Cymru yn nodi cynnwys a ffurf yr wybodaeth arall sydd i'w chyflwyno gyda'r datganiadau ariannol, ni allaf gadarnhau bod yr wybodaeth arall yn y Cyfrifon Blynyddol (y tu allan i'r datganiadau ariannol) wedi'i pharatoi yn unol â'r canllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth arall yn y Cyfrifon Blynyddol (y tu allan i'r datganiadau ariannol) yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar gyfer Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth, mae Cymwysterau Cymru wedi paratoi adroddiad felly ac, yn fy marn i, mae'r rhan honno y mae'n ofynnol ei harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EM.

Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n cynnwys y Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y byddaf yn adrodd amdanynt i chi os, yn fy marn i:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi'u cadw neu ni chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan archwiliedig o'r Adroddiad Tâl Cydnabyddiaeth yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Cymwysterau Cymru 2015 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wneir oddi tani, am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni ystyrir ei bod yn amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu yn y cyfansymiau, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cymwysterau Cymru sy'n ymwneud â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;
 - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a
 - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cyfnodolion anarferol a rheolwyr yn diystyru rheolaethau;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cymwysterau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cymwysterau Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a chynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Bwrdd Rheoli;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i'r cwrs busnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i bob tîm archwilio ac wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cymwysterau Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd, yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol.

Rwy'n cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton

24 Heol y Gadeirlan

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caerdydd

19 Gorffennaf 2022

CF11 9LJ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardstyio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cymwysterau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Datganiadau Ariannol

5 Datganiad o wariant net cynhwysfawr

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr			
	Nodiadau	2021-22	2020-21
		£'000	£'000
Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid	2	(41)	(41)
Incwm gweithredu arall		-	-
Cyfanswm yr Incwm Gweithredu		(41)	(41)
Gwariant			
Costau Staff	**	6,058	5,733
Costau Rhaglenni		-	-
Grantiau	3	671	714
Arall	4	726	524
Gwariant gweithredu arall	5	1,105	1,060
Cost darparu	11	-	-
Dibrisiant, Amorteiddiad ac Amhariad	6&7	220	211
Cyfanswm y Gwariant Gweithredu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022		8,780	8,242
Gwariant Gweithredu Net		8,739	8,201
Gwariant Net am y flwyddyn		8,739	8,201
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		8,739	8,201

** Gweler yr adroddiad tâl cydnabyddiaeth ar dudalen 68 am ddadansoddiad o gostau staff.

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2022.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82-97 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

6 Datganiad o'r sefyllfa ariannol

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol			
	Nodiadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<i>Asedau anghyfredol</i>			
Eiddo, peiriannau ac offer	6	196	224
Asedau anniriaethol	7	567	508
Masnach a Derbyniadau Eraill	8	16	13
<i>Cyfanswm asedau anghyfredol</i>		779	745
<i>Asesau cyfredol</i>			
Arian parod a chyfwerth ag arian parod	9	35	241
Masnach a Derbyniadau Eraill	8	187	149
<i>Cyfanswm asedau cyfredol</i>		222	390
<i>Cyfanswm asedau</i>		1,001	1,135
<i>Rhwymedigaethau cyfredol</i>			
Masnach a symiau taladwy eraill	10	(537)	(464)
Darpariaethau o fewn blwyddyn	11	(11)	(10)
<i>Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol</i>		(548)	(474)
<i>Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol</i>		453	661
<i>Rhwymedigaethau anghyfredol</i>			
Darpariaethau	11	(153)	(165)
<i>Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau</i>		300	496
<i>Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill</i>			
Cronfa Gyffredinol		300	262
Cronfa Wrth Gefn Ddefnyddiadwy		0	234
		300	496

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82-97 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Llofnod Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022
---------------------------------	--

7 Datganiad o lifoedd arian parod

Datganiad o lifoedd arian parod			
	Nodiadau	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu			
Cost gweithredu net		(8,739)	(8,201)
Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod			
Dibrisiant	6&7	220	211
(Cynnydd) / Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	8	(41)	(60)
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill	10	73	149
Symudiad mewn darpariaethau	11	(11)	(10)
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(8,498)	(7,911)
Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	6	(69)	(21)
Prynu / Gwella asedau anniriaethol	7	(182)	(122)
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(251)	(143)
Llif arian parod o weithgareddau ariannu			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru		8,543	7,994
Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod		(206)	(60)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod	9	241	301
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	9	35	241

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82-97 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

8 Datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr			
	Cronfa Gyffredinol £'000	Cronfa Wrth Gefn Ddefnydd- iadwy £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 31 Mawrth	421	282	703
Cymorth grant gan Lywodraeth Cymru	7,994	-	7,994
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn	(8,201)	-	(8,201)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	48	(48)	-
Balans ar 31 Mawrth 2021	262	234	496
Cymorth grant gan Lywodraeth Cymru	8,543	-	8,543
Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn	(8,739)	-	(8,739)
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	234	(234)	-
Balans ar 31 Mawrth 2022	300	0	300

Mae'r nodiadau ar dudalennau 82-97 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo i'r gronfa wrth gefn y gellir ei defnyddio gael ei chadw a'i defnyddio ar gyfer gweithredu'r systemau Adnoddau Dynol a Chyllid newydd. Mae hwn wedi'i ddefnyddio'n llawn erbyn 31 Mawrth 2022.

Nodiadau i'r Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

(a) Y sail gyfrifyddu

Paratwir y cyfrifon hyn yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 32(2) o atodlen 1 i Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Mae'r Cyfarwyddyd yn gofyn am gydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisiau cyfrifyddu a gynhwysir yn y Llawlyfr hwn yn cymhwysio Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus ac fe'u cyhoeddir gan Drysorlys EM.

Lle mae'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi y barnir ei fod y mwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r cyfrifon.

(b) Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio asedau a rhwymedigaethau penodol i werth teg fel y'u pennwyd gan y safonau cyfrifyddu perthnasol, ac yn amodol ar ddehongliadau ac addasiadau safonau'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

(c) Cyllid

Mae Cymwysterau Cymru yn cael arian gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn ddyraniad grant) i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf. Yn unol â Llawlyfr FReM, ystyrir bod y symiau hyn yn gyllid, yn hytrach nag incwm, a chânt eu credydu i'r Gronfa Gyffredinol. Mae'r Llawlyfr hefyd yn cadarnhau y dylid rhoi cyfrif am y cyllid hwn ar sail arian parod oni bai bod cytundeb amgen wedi'i gytuno gyda'r adran noddi.

(d) Busnes gweithredol

Mae'r ffaith bod Cymwysterau Cymru yn cael ei gyllid gan Lywodraeth Cymru, ac y disgwylir iddo barhau i fodoli a chael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru hyd y gellir rhagweld, yn golygu yr ystyrir ei bod yn briodol mabwysiadu'r sail 'busnes gweithredol' ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

(e) Eiddo, peiriannau ac offer

Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cario ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg ar gyfer pob dosbarth o asedau, gan fod gan bob un ohonynt naill ai fywydau defnyddiol byr, gwerth isel, neu'r ddau. Mae'r holl eiddo, peiriannau ac offer wedi'u grwpio'n un o dri dosbarth yn y bôn: Eiddo, Asedau neu Osodiadau TG, Dodrefn ac Offer.

Yn ystod y cyfnod sefydlu cychwynnol, prynwyd asedau TG a Dodrefn ac Offer gan Lywodraeth Cymru ar ran Cymwysterau Cymru, sef cyfanswm o £378,800. Trosglwyddwyd yr asedau hyn i gyd i Cymwysterau Cymru, a chodwyd anfoneb gan Lywodraeth Cymru yn 2015-16 i adennill y costau hyn. Mae'r holl gostau cychwynnol hyn wedi'u cyfalafu.

Wedi hynny, mae asedau TG sy'n costio £500 neu fwy, ac asedau Dodrefn ac Offer sy'n costio £1,000 neu fwy, yn cael eu cyfalafu.

Mae'r safle'n cael ei brydlesu, ond mae'n bosibl i addasiadau mewnol neu allanol gael eu gwneud yn dilyn trafodaeth gyda'r landlord. Bydd unrhyw waith o'r fath dros £10,000 yn cael ei gyfalafu.

Darperir ar gyfer dibrisiant ar yr holl asedau hyn ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost pob ased ar sail llinell syth dros ei fywyd defnyddiol disgwylidig, a ddangosir isod. Codir dibrisiant blwyddyn lawn yn y flwyddyn y defnyddir yr ased.

Surface Pros / Nodiaduron, ac offer cysylltiedig	Tair blynedd
Sgriniau Ystafell, cyfleusterau fideo-gynadledda, ac eitemau perifferol cysylltiedig	Pedair blynedd
LAN / Gweinyddion ac eitemau perifferol cysylltiedig	Pum mlynedd
Gosodiadau, Dodrefn ac offer	Hyd at 10 mlynedd
Eiddo	Y byrrach o weddill oes y brydles neu fywyd y gwaith

Asesir asedau bob blwyddyn ar gyfer unrhyw arwyddion o nam. Lle mae arwyddion yn bodoli ac amcangyfrifir bod unrhyw wahaniaethau posibl yn berthnasol, amcangyfrifir swm adenilladwy'r ased a, lle bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad am y diffyg.

(f) Asedau sefydlog anniriaethol

Mae ased anniriaethol yn ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol. Bydd Cymwysterau Cymru yn cyfalafu asedau anniriaethol sy'n fwy na £10,000, gan gynnwys trwyddedau meddalwedd sy'n para mwy na blwyddyn, a datblygiadau meddalwedd. Cânt eu priso ar gost hanesyddol llai amorteiddiad cronedig a cholledion amhariad fel procsi ar gyfer cost adnewyddu wedi'i dibrisio.

Lle mae gan asedau anniriaethol fywyd defnyddiol cyfyngedig, cânt eu hamorteiddio mewn rhandaliadau cyfartal dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidig. Codir blwyddyn lawn o amorteiddiad yn y flwyddyn y defnyddir yr ased. Adolygir y cyfnod amorteiddio yn flynyddol.

Lle asesir bod gan asedau anniriaethol fywyd defnyddiol amhenodol, nid ydynt yn cael eu hamorteiddio. Bydd y sefyllfa hon hefyd yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

(g) TAW

Nid yw Cymwysterau Cymru wedi'i gofrestru ar gyfer TAW. O ganlyniad, nodir yr holl drafodion yn y cyfrifon yn cynnwys unrhyw TAW y gellir ei phriodoli.

(h) Prydlesi gweithredu

Codir rhenti prydlesi gweithredu ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi. Gallai taliadau prydlesi gweithredu blynyddol amrywio yn unol â'r cytundeb prydlesu, tra bod y budd economaidd blynyddol sy'n deillio o'r brydles yn parhau'n gyson. Mae hyn yn berthnasol i'r brydles sydd ar waith ar gyfer yr adeilad. O dan yr amgylchiadau hyn, mae IAS 17 yn caniatáu i'r tâl ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr gael ei addasu i 'gyfartalu' y taliadau prydles blynyddol, drwy greu neu ddefnyddio darpariaeth.

(i) Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys y balansau sydd gan Cymwysterau Cymru gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn unig.

(j) Incwm

Bydd incwm yn cael ei gydnabod yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn unol ag IFRS 15 – Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid, fel y'i haddaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus gan Lawlyfr FReM, a chaiff ei gategoreiddio naill ai fel 'gweithredol' – a gynhyrchir wrth fynd ar drywydd ei weithgareddau, neu 'anweithredol' – a gynhyrchir o werthu asedau nad ydynt yn gyfredol. Er nad yw Cymwysterau Cymru wedi'i sefydlu fel endid masnachu, fe gynhyrchodd ryw faint o incwm gweithredu yn ystod 2021-22 drwy ddarparu rhai gwasanaethau. Dangosir rhagor o wybodaeth, sy'n dangos cymhwyso IFRS 15 i'n hincwm ar gyfer 2021-22, yn Nodyn 2.

(k) Offerynnau ariannol

Contract yw offeryn ariannol sy'n arwain at ased ariannol un endid ac atebolrwydd ariannol neu offeryn ecwiti endid arall. Mae IFRS 7 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad gyflwyno a datgelu gwybodaeth am effaith bosibl offerynnau ariannol ar ei sefyllfa a'i berfformiad ariannol, ac ar raddau ei amlygiad i risg. O ystyried natur trefniadau ariannu Cymwysterau Cymru, h.y. wedi'i ariannu'n gyfan gwbl gan grant Llywodraeth Cymru, a'i drefniadau contract, h.y. ar gyfer cyflenwi eitemau anariannol yn unol â'r gofynion prynu a defnyddio

disgwyliedig, nid ystyrir ei fod yn agored i unrhyw lefel sylweddol o risg credyd, hylifedd neu gyfradd llog.

(l) Adrodd segmentaidd

Mae IFRS 8 yn gofyn bod endidau'n datgelu gwybodaeth am eu segmentau, eu cynnyrch a'u gwasanaethau gweithredu, yr ardaloedd daearyddol y maent yn gweithredu ynddynt, a'u prif gwsmeriaid. Mae gwybodaeth yn seiliedig ar adroddiadau rheoli mewnol, o ran nodi segmentau gweithredu a mesur gwybodaeth segment a ddatgelwyd. Ni ystyrir bod gan Cymwysterau Cymru segmentau gweithredu fel y'u diffinnir, ond mae'n darparu gwybodaeth am wariant atodol i gefnogi'r datganiad o wariant net cynhwysfawr.

(m) Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaeth yn y datganiadau ariannol pan fydd Cymwysterau Cymru o'r farn bod ganddo rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen all-lif o fudd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth.

Fel y nodwyd uchod yn (h) Prydlesi gweithredu, mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio darpariaeth ar gyfer y brydles adeilad, lle mae costau prydlesi gweithredu blynyddol yn amrywio, ond lle mae'r budd economaidd a geir yn gyson. Bydd hyn yn cyfateb i'r tâl blynyddol ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr.

Pan fydd darpariaeth gyffredinol yn cael ei chreu, a bod llifoedd arian parod yn cael eu mynegi mewn prisiau cyfredol, mae costau'n cael eu disgowntio yn unol â Chanllawiau Trysorlys EM. Crëwyd darpariaeth gyffredinol i fodloni'r ddarpariaeth dadfeilio sydd wedi'i chynnwys ym mhrydles yr adeilad.

(n) Grantiau sy'n daladwy

Mae gan Cymwysterau Cymru y pŵer i roi grantiau i gyrff allanol lle mae hyn yn gyson â'i brif nodau.

Codir ad-daliadau hawlio grant ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn y cyfnod yr eir i'r gwariant.

(o) Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyfer cyflogaion presennol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr wrth i wasanaethau'r cyflogai gael eu gwneud. Mae Cymwysterau Cymru yn cyfrif am absenoldebau byrdymor a ddigolledwyd (gwyliu blynyddol â thâl) fel rhwymedigaeth (treuliau cronedig), lle mae'r iawndal am absenoldeb i fod i gael ei setlo o fewn 12 mis ar ôl diwedd y cyfnod.

(p) Costau pensiwn

Mae costau pensiwn cyflogwyr yn dod o dan ddarpariaethau trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Yn unol â Llawlyfr FReM, mae Cymwysterau Cymru wedi trin y cynllun hwn fel cynllun cyfraniadau diffiniedig, ac felly mae wedi cydnabod cyfraniadau'r cyflogwr a oedd yn ddyledus yn 2021-22. Dangosir crynodeb o gyfanswm cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn y tabl ar dudalen 67.

(q) Rhestr Eiddo

Diffinia IAS 2 restr eiddo fel asedau a ddelir i'w gwerthu yng nghwrs arferol busnes (nwyddau gorffenedig), asedau yn y broses gynhyrchu i'w gwerthu yng nghwrs arferol busnes (gwaith ar y gweill), a deunyddiau a chyflenwadau a ddefnyddir wrth gynhyrchu (deunyddiau crai). Hefyd, mae IAS 2 yn rhagnodi'r driniaeth gyfrifyddu ar gyfer restr eiddo. Nid oes gan Cymwysterau Cymru unrhyw eitemau restr eiddo fel y'u diffinnir gan y safon hon.

(r) Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn codi pan fydd digwyddiad wedi digwydd sy'n rhoi rhwymedigaeth bosibl i endid na fydd ei bodolaeth ond yn cael ei chadarnhau gan ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y corff.

Mae rhwymedigaethau digwyddiadol hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Yn unol ag IAS 37, nid yw rhwymedigaethau digwyddiadol yn cael eu cydnabod yn y fantolen, ond fe'u datgelir mewn nodyn i'r Cyfrifon.

2. Incwm

Refeniw o contractau gyda chwsmeriaid

Er nad yw wedi'i sefydlu fel endid masnachu, mae Cymwysterau Cymru wedi ymrwymo i gytundebau i ddarparu gwasanaethau i gyrff eraill. Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn cadarnhau'r dull y dylai cyrff y sector cyhoeddus ei ddefnyddio i bennu'r taliadau sy'n berthnasol i ddarpariaeth gwasanaeth o'r fath, sef 'pennu taliadau i adennill costau llawn', y 'dylid eu cyfrifo ar sail croniadau, gan gynnwys gorbenion, dibrisiant a chost cyfalaf'. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r incwm a gafwyd yn ystod 2021-22, a sut mae IFRS 15 wedi'i gymhwyso i'w driniaeth.

Gwasanaethau a Ddarperir a natur y trefniadau	Dyfarniadau allweddol IFRS15	Incwm 2021-22 £'000	Incwm 2020-21 £'000
Refeniw a Ddarperir a natur gyda Chwsmeriaid			
Darparwr nifer cytunedig o ddiwrnodau y mis o gymorth TGCh parhaus drwy 'gytundebau gwasanaethau a rennir', i ddau Gorff arall a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Codir anfonebau mewn ôl-daliadau, yn seiliedig ar gyfraddau dyddiol cytûn.	Mae pob un o'r trefniadau hyn wedi'u trin fel rhwymedigaeth perfformiad unigol, ar wahân, ar y sail bod y cydrannau'n annibynnol iawn, a bod y mewnbynnau yn sylweddol yr un fath bob mis yn dilyn y cyfnod sefydlu. Bydd refeniw yn cael ei gydnabod dros amser ar gyfer pob cytundeb, ar y sail bod y cwsmer yn derbyn ac yn defnyddio'r buddion ar yr un pryd. Mae taliadau'n seiliedig ar fewnbynnau, wedi'u cyfrifo yn unol ag egwyddorion 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru', sy'n gofyn am adennill yr holl gostau.	41	41
Cyfanswm y refeniw o contractau gyda chwsmeriaid		41	41

Mae natur y gwasanaeth a ddarparwyd, a chynnwys y cytundebau sydd ar waith, yn golygu nad ystyrir bod unrhyw risg i'r incwm dyledus hwn, nac unrhyw risg o ddychweliadau, ad-daliadau neu rwymedigaethau tebyg eraill.

Ar 31 Mawrth 2022, nid oedd unrhyw asedau contract na rhwymedigaethau contract (£dim 2020-21).

Gan fod yr holl gytundebau TG presennol yn ymestyn i 2022-23, bydd rhyw £41k o incwm yn parhau i gael ei gynhyrchu yn 2022-23.

Adolygir y ddau gytundeb gwasanaeth cymorth TG yn flynyddol a disgwylir iddynt gael eu hadnewyddu.

3. Crynodeb o wariant grant

Crynodeb o Wariant Grant	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Cefnogaeth ar gyfer asesu cyfrwng Cymraeg		
CBAC	293	356
Pearson	36	91
Agored Cymru	25	9
City & Guilds of London Institute	43	35
Chartered Institute of Housing	4	-
Excellence, Achievement & Learning Ltd	12	-
UK Coaching Solutions Ltd	9	-
<i>is-gyfanswm</i>	422	491
Cefnogaeth ar gyfer Diwygio Cymwysterau		
Colegau Cymru	7	23
City & Guilds of London Institute	46	24
Prifysgol Abertawe	1	-
<i>is-gyfanswm</i>	54	47
Cymorth Cymwysterau Cymraeg i Oedolion		
CBAC	195	176
Cyfanswm Cyffredinol	671	714

4. Crynodeb o wariant rhaglenni eraill

Crynodeb o Wariant Rhaglenni Eraill	2021-22	2020-21
	£'000	£'000
Defnyddio arbenigwyr pwnc / ymgysylltu â rhanddeiliaid	379	274
Costau Ymchwil	165	114
Gweithgareddau Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol	158	133
Trawsgrifio	24	3
Cyfanswm Cyffredinol	726	524

5. Crynodeb o gostau gweithredu eraill

Crynodeb o Gostau Gweithredu Eraill	2021-22	2020-21
	£'000	£'000
Costau sy'n Gysylltiedig â Chyfleusterau	338	298
Costau sy'n Gysylltiedig ag AD	126	132
Costau sy'n Gysylltiedig â TGCh	327	237
Costau'r Bwrdd	84	114
Costau Cymorth Cyfreithiol	47	92
Ffioedd Archwilio Allanol	20	19
Cefnogaeth broffesiynol arall*	98	114
Teithio a Chynhaliaeth	13	10
Costau Gweinyddol a Swyddfa	52	44
Cyfanswm cyffredinol	1,105	1,060

* Mae cymorth proffesiynol arall yn cynnwys ffioedd archwilio mewnol, costau cyfieithu, ac ati.

6. Dadansoddiad o Eiddo, Peiriannau ac Offer

Eiddo, Peiriannau ac Offer	Dodrefn a	Technoleg	Adeiladau	Cyfanswm
	Ffitiadau	Gwybodaeth		
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2021	235	425	66	726
Ychwanegiadau yn y cyfnod	1	68	-	69
Trosglwyddiadau o 'dan ddatblygiad'	-	-	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	(1)	-	(1)
Amhariad yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	236	492	66	794
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2021	118	350	34	502
Tâl yn y flwyddyn	24	65	8	97
Gwarediadau am y cyfnod	-	(1)	-	(1)
Amhariad yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	142	414	42	598
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2021	117	75	32	224
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2022	94	78	24	196

Eiddo, Peiriannau ac Offer	Dodrefn a	Technoleg	Adeiladau	Cyfanswm
	Ffitiadau	Gwybodaeth		
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2020	222	417	66	705
Ychwanegiadau yn y cyfnod	13	8	-	21
Trosglwyddiadau o 'dan ddatblygiad'	-	-	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-	-
Amhariad yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	235	425	66	726
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2020	94	289	25	408
Tâl yn y flwyddyn	24	62	8	94
Gwarediadau am y cyfnod	-	-	-	-
Amhariad yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	118	351	33	502
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2020	128	128	41	297
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2021	117	74	33	224

7. Asedau anniriaethol

Asedau Anniriaethol	Trwyddedau ar gyfer systemau sy'n cael eu datblygu £'000	Trwyddedau Meddalwedd £'000	Technoleg Gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2021	42	-	1,056	1,098
Ychwanegiadau yn y cyfnod	56	37	89	182
Trosglwyddiadau o 'dan ddatblygiad'	(22)	22	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	76	59	1,145	1,280
Amorteiddiad				
Ar 1 Ebrill 2021	-	-	590	590
Tâl yn y flwyddyn	-	12	111	123
Gwarediadau am y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2022	-	12	701	713
Gwerth Cario ar 1 Ebrill 2021	42	-	466	508
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2022	76	47	444	567

Asedau Anniriaethol	Trwyddedau ar gyfer systemau sy'n cael eu datblygu £'000	Trwyddedau Meddalwedd £'000	Technoleg Gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Ar 1 Ebrill 2020	-	-	976	976
Ychwanegiadau yn y cyfnod	42	-	80	122
Trosglwyddiadau o 'dan ddatblygiad'	-	-	-	-
Gwarediadau yn y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	42	-	1,056	1,098
Amorteiddiad				
Ar 1 Ebrill 2020	-	-	473	473
Tâl yn y flwyddyn	-	-	117	117
Gwarediadau am y cyfnod	-	-	-	-
Ar 31 Mawrth 2021	-	-	590	590
Gwerth Cario ar 1 Ebrill 2020	-	-	503	503
Gwerth Cario ar 31 Mawrth 2021	42	-	466	508

Yn ystod 2021-22, gwnaed nifer o welliannau i gronfa ddata QiW ac, yn unol ag IAS 38, mae'r costau cysylltiedig wedi cael eu trin fel 'ychwanegiadau'. Hefyd, mae adolygiad anarferiant wedi dod i'r casgliad y bydd y gronfa ddata hon yn parhau'n dechnolegol hyfyw am bum mlynedd arall, ac mae tâl amorteiddio wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar y bywyd defnyddiol diwygiedig hwn. Pe na bai gweddill y bywyd defnyddiol wedi'i newid, buasai'r tâl amorteiddio yn 2021-22 tua £139k.

8. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

Masnach a symiau derbyniadwy eraill	2021-22	2020-21
	£'000	£'000
<u>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</u>		
Derbyniadau Masnach	-	-
Derbyniadau Eraill		
Rhagdaliadau	187	149
<u>Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn</u>		
Derbyniadau Eraill		
Rhagdaliadau	16	13
Cyfanswm	203	162

9. Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod

Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	2021-22	2020-21
	£'000	£'000
Balans ar ddechrau'r cyfnod	241	301
Newid net mewn balansau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	(206)	(60)
Balans ar 31 Mawrth	35	241

Mae hyn i gyd yn cael ei ddal gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth.
Mae'r balans ar 31 Mawrth 2022 o fewn y lefel a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill	2021-22 £'000	2020-21 £'000
<u>Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn</u>		
Symiau Masnach Taladwy	41	149
Croniadau	496	315
Cyfanswm	537	464

11. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	Amod dadfeiliad o fewn Prydles Adeilad £'000	Costau Prydles Adeiladau Blynyddol £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2021	131	44	175
Darparwyd yn y flwyddyn	-	-	-
Wedi'i ddefnyddio / rhyddhau yn y flwyddyn	-	(11)	(11)
Balans ar 31 Mawrth 2022	131	33	164
Dadansoddiad o amseriadau disgwylidig rhwymedigaethau'r dyfodol			
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	-	11	11
Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	131	22	153
Hwyrach na phum mlynedd	-	-	-
Cyfanswm	131	33	164

Sefydlwyd y ddarpariaeth 'dadfeilio' i gydnabod yr amod ym mhrydles yr adeilad i adfer y safle i'w gyflwr gwreiddiol pan derfynir y brydles. Daw tymor presennol y brydles i ben ar 17 Mai 2025. Cafwyd 'cost fesul troedfedd sgwâr' bras, o ffynhonnell annibynnol, yn sail i'r cyfrifiad hwn. Mae'r ddarpariaeth flynyddol o gostau prydlesu adeilad wedi'i sefydlu i gydnabod nad yw'r costau prydlesu blynyddol gwirioneddol (anwadal) yn cyfateb i'r budd economaidd blynyddol, sy'n parhau'n gyson. O ganlyniad, sefydlwyd darpariaeth i ganiatáu 'cyfartalu' taliadau i'r Datganiad o wariant net cynhwysfawr. Mae hyn wedi creu darpariaeth a fydd bellach yn cael ei defnyddio dros weddill oes y brydles.

12. Ymrwymïadau cyfalaf

Ymrwymïadau cyfalaf wedi'u contractio ar 31 Mawrth 2022 nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn	2021-22 £'000	2020-21 £'000
Asedau Anniriaethol		
System AD – Gweithredu	-	37
System Gyllid – Trwyddedau a Gweithredu	24	80
Datblygu QiW	19	-
Cyfanswm	43	117

13. Ymrwymïadau o dan brydlesi

Rhwymedigaethau o dan brydles weithredol yn cynnwys:	2021-22			2020-21		
	Costau Prydles	Taliadau Gwasanaeth	Cyfanswm	Costau Prydles	Taliadau Gwasanaeth	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adeiladau						
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	163	30	193	163	64	227
Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	346	68	414	509	107	616
Hwyrach na phum mlynedd	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	509	98	607	672	171	843
Dyfeisiau Amldeffnydd						
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	2	3	5	4	2	6
Yn hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd	-	-	-	2	3	5
Hwyrach na phum mlynedd	-	-	-	-	-	-
Cyfanswm	2	3	5	6	5	11

14. Trafodion parti perthynol

Mae Llawlyfr FReM yn cadarnhau bod IAS 24 (Trafodion Parti Perthynol) yn berthnasol. Amcan y Safon hon yw sicrhau bod datganiadau ariannol endid yn cynnwys y datgeliadau angenrheidiol i dynnu sylw at y posibilrwydd y gallai bodolaeth partïon perthynol a thrafodion â phartïon o'r fath fod wedi effeithio ar ei sefyllfa ariannol. Parti perthynol yw unigolyn neu endid sy'n 'berthynol' i'r endid sy'n paratoi ei ddatganiadau ariannol (Cymwysterau Cymru), h.y. sydd â rheolaeth, dylanwad sylweddol, neu sy'n aelod allweddol o'r rheolwyr.

Trafodyn parti perthynol yw trosglwyddo adnoddau, gwasanaethau, neu rwymedigaethau rhwyng endid sy'n adrodd, h.y. Cymwysterau Cymru, a pharti perthynol.

Gan fod Cymwysterau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti perthynol. Yn ogystal, mae'r Aelod o'r Bwrdd Ellen Donovan (a adawodd ar 09/06/21) yn gyfarwyddwr anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru. Yn ystod y flwyddyn, cawsom nifer o drafodion perthnasol gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei hystyried yn rhiant-adran.

- Gwnaethom gydnabod cyllid grant o £8.544m gan Lywodraeth Cymru (£7.994m yn 2020- 21).
- Gwnaethom daliadau i Lywodraeth Cymru, yn bennaf i'w had-dalu am ein costau cyflogres, gan gynnwys costau bwrdd, a thaliadau am wasanaethau cyflogres. Gwnaed taliadau gwirioneddol o £6.116m (£5.817m yn 2020-21), a chronnwyd costau pellach o £8k (£20k yn 2020-21).

Mae Llawlyfr FReM hefyd yn cadarnhau bod partion perthynol yn cynnwys 'cyfansoddiad y bwrdd rheoli (gan gynnwys aelodau cynghori ac anweithredol). Golyga hyn y rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd.

Mae paragraff 11 o IAS 24 yn cadarnhau nad yw dau endid yn berthynol dim ond am fod ganddynt gyfarwyddwr neu aelod arall o bersonél rheoli allweddol yn gyffredin. Felly, rydyn ni wedi rhestru isod y trafodion sydd wedi digwydd gydag endidau rydyn ni'n rhannu aelodau Bwrdd gyda nhw, neu aelodau o'u teulu agos, er cyflawnrwydd yn unig. Mae'n annhebygol iawn y buasai aelodau Bwrdd yn ymwybodol o'r trafodion ariannol hyn, gan na fuasent yn rhan o'r penderfyniadau gweithredol i ysgwyddo'r costau hyn.

Swm	Sefydliad	Natur y Trafodiad	Natur y Parti Cysylltiedig
£3,280 (20/21 £5,484)	Prifysgol Caerdydd	Talu Ffioedd Academaidd	Claire Morgan (Gadawodd 15/06/21) Wedi'i chyflogi fel dirprwy is-ganghellor
£1,200 (20/21 £1,200)	e-Assessment Association	Talu am Danysgrifiad Blynyddol	Graham Hudson (Ymunodd 14/06/21) Ysgrifennydd

Yn ogystal â'r uchod, gwnaethom hefyd daliadau o £3,888 i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch yn 2021-22, i'w had-dalu am ryddhau aelod o Fwrdd Cymwysterau Cymru Douglas Blackstock. Ymunodd â Cymwysterau Cymru ym mis Mehefin 2021 ond arhosodd hefyd yn ei swydd fel ei Brif Weithredwr cyn gadael y rôl ar 31 Hydref 2021.

Mae gan Cymwysterau Cymru Bolisi 'Gwrthdaro Buddiannau', ac mae'n cadw cofrestr o fuddiannau eraill (fel y'u diffinnir) sy'n ymwneud â staff a chyfarwyddwyr. Mae'r polisi hwn yn atal aelodau'r Bwrdd/uwch reolwyr rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â sefydliadau y mae ganddynt fuddiant ynddynt hefyd.

Yn olaf, wrth gyflawni ei brif nodau, mae Cymwysterau Cymru wedi gwneud taliadau grant yn ystod y flwyddyn i sefydliadau trydydd parti (gweler Nodyn datgelu 3), ond unwaith eto nid yw'n ystyried bod y rhain yn bartion perthynol.

15. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Dim

16. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau ers dyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth o'r cyfrifon ariannol hyn.

17. Effaith safonau nad ydynt eto'n effeithiol

Prydlesi IFRS 16

Mae Prydlesi IFRS 16 yn disodli Prydlesi IAS 17 ac mae'n effeithiol ar gyfer cyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022. Mae IFRS 16 yn darparu model cyfrifyddu prydles sengl ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer prydlesi sy'n para dros 12 mis, gan ddileu'n bennaf y driniaeth "oddi ar y fantolen" bresennol o brydlesi gweithredu o dan IAS 17.

Effaith y safon newydd

Rydyn ni wedi asesu'r effaith y bydd cymhwyso IFRS 16 yn ei chael ar y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2022 ac ar y datganiad o sefyllfa ariannol ar y dyddiad hwnnw. Mae'r ffigurau isod ar gyfer prydlesi presennol ar 31 Mawrth 2022.

Disgwylir i'r safon gynyddu cyfanswm y gwariant yn 2022-23 tua £41,613. Disgwylir i'r ased hawl i ddefnyddio gynyddu tua £436,015 tra bydd y rhwymedigaeth prydlesu gysylltiedig yn cynyddu tua £436,015.

Effeithiau IFRS 16 ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr	£'000'
Dibrisiant disgwylidig - 2022/23	139
Costau llog disgwylidig - 2022/23	20
Treuliau TAW anadferadwy disgwylidig - 2022/23	23
Taliadau rhent disgwylidig ar sail IAS 17	(141)
Gwariant Cynyddol	41
Effeithiau IFRS 16 ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol	
Cynnydd i Ased Hawl i Ddefnyddio – 1 Ebrill 2022	436
Cynnydd i Atebolrwydd Prydles – 1 Ebrill 2022	(436)

Llofnod Philip Blaker	Philip Blaker Swyddog Cyfrifyddu 14 Gorffennaf 2022
---------------------------------	--